# Gorchymyn (Dynodi) Parc Cenedlaethol Glyndŵr Arfaethedig:

# Adroddiad Ymgynghori Statudol 2025

Rhif Adroddiad: 968

# Cynnwys


1 Cyflwyniad ..... 2
1.1 Ymgysylltiad blaenorol ..... 2
1.2 Trosolwg o ymgynghoriad 2025 ..... 2
2 Methodoleg ymgynghoriad 2025 ..... 4
3 Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ..... 6
3.1 Ymatebion a gyflwynwyd trwy e-bost ..... 6
3.2 Ffurflen adborth ..... 6
4 Gwybodaeth am yr ymatebwyr ..... 6
4.1 Trosolwg ..... 6
4.2 Lleoliad yr ymatebwyr ..... 7
5 Data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ..... 8
6 Cynaliadwyedd y Gymraeg ..... 9
7 Barn ar y Parc Cenedlaethol arfaethedig ..... 10
7.1 Dull dadansoddi ..... 10
7.2 Trosolwg o'r ymatebion ..... 10
7.3 Trosolwg o'r adborth gan yr holl ymatebwyr ..... 11
7.4 Dadansoddi categorïau'r rhanddeiliaid ..... 14
7.5 Ymateb awdurdodau lleol ..... 22
7.6 Arolwg annibynnol a gynhaliwyd gan ddau o gynghorwyr Wrecsam ..... 25
8 Ymateb CNC i ganfyddiadau'r ymgynghoriad ..... 26
8.1 Ystyriaethau perthnasol – y profion statudol ar gyfer dynodiad ..... 26
8.2 Dadansoddiad o ymateb yr awdurdodau lleol ..... 26
8.3 Dadansoddiad mewn perthynas â'r ffin arfaethedig ..... 27
8.4 Enwi'r Parc Cenedlaethol arfaethedig ..... 29
8.5 Ystyriaethau ehangach ..... 30
9 Crynodeb ..... 30
10 Sylwadau i gloi ..... 31


## Atodiadau (*dogfennau ar wahân*)

Atodiad 1: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Atodiad 2: Matrics codio

Atodiad 3: Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i sylwadau'r ymgynghoriad statudol ar y ffin, yr asesiad a'i faint

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Ymgysylltiad blaenorol

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i werthuso'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd ar sail ardal bresennol Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (gynt yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol).

Bydd CNC yn gwneud argymhelliad annibynnol ar sail y dystiolaeth a gasglwyd a'r goblygiadau i ddinasyddion Cymru. Bydd y broses statudol a'r profion yn cael eu cymhwyso.

Cyn gwneud unrhyw orchymyn dynodi ffurfiol ar gyfer Parciau Cenedlaethol yn benodol, mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal ymgynghoriad â phob cyngor sir, awdurdod Parc Cenedlaethol a chyngor cymuned sydd â thir o fewn yr ardal i'w dynodi, neu o fewn y Parc Cenedlaethol presennol neu'r parc sydd i'w amrywio, cyn gwneud gorchymyn dynodi. Ymgynghoriad statudol yn unig y mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i CNC ei gynnal. Fel arfer da, mae CNC hefyd wedi ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd.

## 1.2 Trosolwg o ymgynghoriad 2025

Paratowyd yr adroddiad hwn fel crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law mewn perthynas ag ymgynghoriad statudol 2025 ar Barc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr. O ganlyniad i'r adborth o gyfnod ymgysylltu cyhoeddus 2023 ac ymgynghoriad cyhoeddus 2024 ar y Parc Cenedlaethol arfaethedig, cwblhawyd cyfres o asesiadau ategol yn ymwneud â natur, iechyd, y Gymraeg, yr economi, cydraddoldeb a chynllunio, er mwyn llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau ac ymdrin â phryderon a godwyd gan randdeiliaid.

Ceisiodd ymgynghoriad 2025 adborth ar yr asesiadau ategol a'r newid arfaethedig i ffin Parc Cenedlaethol Glyndŵr, sydd wedi'i fireinio i ddal ardal gydlynol o harddwch naturiol yn well o fewn ucheldiroedd yr ardal, y dyffrynnoedd croestoriadol a'r ymyl arfordirol. Mae Twyni Gronant a Thalacre bellach wedi'u cynnwys ac mae ardal fawr o iseldiroedd cyfannedd ym Mhowys wedi'i heithrio.

Roedd ymgynghoriad 2025 ar agor am 12 wythnos, o 15 Medi 2025 tan 8 Rhagfyr 2025. Paratowyd y crynodeb hwn o'r dadansoddiad ym mis Ionawr 2026 i sicrhau bod bwrdd CNC yn cael eu hysbysu'n llawn cyn gwneud penderfyniad ar ddynodi. Bydd adroddiad ymgynghori statudol pellach ar gael ym mis Chwefror, er mwyn darparu tryloywder i randdeiliaid parthed y broses ymgynghori, ac i roi rhagor o wybodaeth i Lywodraeth Cymru cyn iddynt wneud penderfyniad ar ddynodi.

Gellid cyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau drwy lenwi'r ffurflen ymateb ar-lein drwy wefan y prosiect neu drwy ddychwelyd copi papur i gyfeiriad rhad-bost y prosiect neu drwy e-bost.

Daeth cyfanswm o 1,678 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law yn ystod yr ymgynghoriad ac, o'r rhain, daeth 1,647 i law drwy'r ffurflen adborth ar-lein a 31 trwy e-bost. Penododd CNC

Ove Arup and Partners (Arup) ym mis Tachwedd 2025 i ddadansoddi'r ymatebion, a oedd yn cynnwys codio a grwpio'r ymatebion yn themâu ar gyfer yr ymatebion testun agored a dadansoddiad ystadegol cryno ar gyfer yr ymatebion opsiynau caeedig. Penododd Arup yr arbenigwr Grasshopper Communications (Grasshopper) i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r math o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, gwybodaeth am yr ymatebwyr, crynodeb o'r farn am y Parc Cenedlaethol yn ôl y math o ymatebydd, ac ymateb CNC i'r canfyddiadau.

Mae cyfrifoldeb CNC yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r profion statudol a'r meini prawf ar gyfer dynodi. Hyn yn unig ddylai fod yn sail i benderfyniad CNC. O gofio'r ystod eang o faterion sy'n effeithio ar yr ardal, roedd yn anochel nad oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ymwneud yn uniongyrchol â'r profion statudol ar gyfer dynodi, a byddant yn cael eu hystyried yn fanwl gan Lywodraeth Cymru neu fel rhan o ymchwiliad cyhoeddus lleol. Yr ymatebion sy'n ymwneud â'r profion statudol yw'r rhai sy'n berthnasol i gyfrifoldebau CNC.

Amlinellir y profion statudol o dan adran 5 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, sef oherwydd:

- ei harddwch naturiol a'r
- cyfleoedd y mae'r ardal yn eu cynnig ar gyfer hamdden awyr agored, gan ystyried ei chymeriad a'i safle mewn perthynas â chanolfannau poblogaeth,
- mae'n arbennig o ddymunol cymryd mesurau angenrheidiol i wneud y canlynol:
- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal benodedig; a
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardaloedd hynny.

# 2  Methodoleg ymgynghoriad 2025

Cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru 16 o gyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau galw heibio, a digwyddiadau ar-lein yn ystod yr ymgynghoriad statudol o 12 wythnos. Roedd y rhain yn gymysgedd o ddigwyddiadau cyhoeddus a digwyddiadau wedi'u targedu ar gyfer rhanddeiliaid, gyda'r bwriad o fod mor gyfleus â phosibl i gymunedau lleol. Aeth 1,065 o unigolion i'r digwyddiadau hyn.

**Digwyddiadau ymgynghori statudol 2025**

| Dyddiad | Amser | Lleoliad | Cynulleidfa darged | Math o ddigwyddiad |
|---|---|---|---|---|
| Dydd Llun, 22 Medi | 6pm – 7.30pm | Microsoft Teams | Aelodau etholedig (Aelodau o'r Senedd, Aelodau Seneddol) | Cyfarfod |
| Dydd Mercher, 24 Medi | 6pm – 7.30pm | Microsoft Teams | Aelodau etholedig (cynghorwyr, cynghorwyr cymunedol) | Cyfarfod |
| Dydd Mercher, 1 Hydref | 4pm – 7pm | Coleg Cambria – Llysfasi, Ffordd Rhuthun, Llysfasi, Rhuthun LL15 2LB | Perchnogion tir | Galw heibio |
| Dydd Iau, 2 Hydref | 4pm – 7pm | Canolfan Ni Corwen, Corwen LL21 0DP | Cyhoeddus | Galw heibio |
| Dydd Mercher, 8 Hydref | 6pm – 7.30pm | Microsoft Teams | Sefydliadau a busnesau lleol | Cyfarfod |
| Dydd Mawrth, 14 Hydref | 2pm – 5pm | Neuadd Goffa Llangynog, Llangynog, Croesoswallt SY10 0ET | Cyhoeddus | Galw heibio |
| Dydd Mawrth, 14 Hydref | 6.30pm – 8pm | Neuadd Goffa Llangynog, Llangynog, Croesoswallt SY10 0ET | Cyhoeddus | Cyfarfod |
| Dydd Mercher, 15 Hydref | 4pm – 7pm | Canolfan Ceiriog, Heol | Cyhoeddus | Galw heibio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Newydd, Glynceiriog, Llangollen LL20 7HE | | |
| Dydd Mercher, 22 Hydref | 2pm – 5pm | Neuadd Bentref Gwaenysgor, Y Rhyl LL18 6EP | Cyhoeddus | Galw heibio |
| Dydd Mercher, 22 Hydref | 6.30pm – 8pm | Neuadd Bentref Gwaenysgor, Y Rhyl LL18 6EP | Cyhoeddus | Cyfarfod |
| Dydd Mawrth, 4 Tachwedd | 3pm – 4.30pm | Microsoft Teams | Sector ynni | Cyfarfod |
| Dydd Mawrth, 18 Tachwedd | 4pm – 7pm | Neuadd y Dref Llangollen, Stryd y Castell, Llangollen LL20 8NU | Cyhoeddus | Galw heibio |
| Dydd Mercher, 19 Tachwedd | 6pm – 7.30pm | Microsoft Teams | Cyhoeddus | Cyfarfod |
| Dydd Mercher, 26 Tachwedd | 3pm – 4.30pm | Microsoft Teams | Grwpiau amgylcheddol | Cyfarfod |
| Dydd Iau, 27 Tachwedd | 3pm – 4.30pm | Microsoft Teams | Twristiaeth, hamdden a mynediad | Cyfarfod |
| Dydd Mawrth, 2 Rhagfyr | 6pm – 7.30pm | Microsoft Teams | Cyhoeddus | Cyfarfod |

Hysbysebwyd pob digwyddiad ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol Cyfoeth Naturiol Cymru. Cawsant sylw yn y wasg ac ar yr orsaf radio leol, a chawsant eu cyhoeddi ar-lein ar dudalen we Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw yn y cyfryngau gan amrywiaeth o allfeydd cyfryngau. Ymhlith y rhain oedd Nation.Cymru, *The Leader*, *County Times*, *Farmers Weekly*, North Wales Live, *Denbighshire Free Press*, Deeside.com, Wrexham.com, WalesOnline, *North Wales Chronicle*, LeaderLive, Wales Farmer, *The Times*, a Golwg360. Cafodd CNC sylw gan y BBC, yn y ddwy iaith, ynghyd â sylw gan orsaf radio Global.

Cysylltwyd ag awdurdodau lleol, cynghorwyr a chlercod cymunedol yn uniongyrchol, gan eu hannog i gymryd rhan yn y digwyddiadau ymgynghori a chwblhau'r ffurflen ymateb, yn ogystal â helpu i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cyfranogiad ymhlith eu cymunedau lleol.

# 3 Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## 3.1 Ymatebion a gyflwynwyd trwy e-bost

Cyflwynwyd cyfanswm o 31 o ymatebion trwy e-bost gan naw unigolyn, tri awdurdod lleol, un awdurdod Parc Cenedlaethol, 13 sefydliad a dau gynrychiolydd etholedig. Dadansoddwyd yr ymatebion a ddaeth i law trwy e-bost yn yr un modd ag ymatebion y ffurflen adborth gan ddefnyddio'r matrics codio y cytunwyd arno ymlaen llaw.

## 3.2 Ffurflen adborth

Roedd ffurflen adborth yr ymgynghoriad yn cynnwys 14 cwestiwn. Roedd tri ohonynt yn ymatebion testun agored ac 11 yn ymatebion opsiynau caeedig.

Roedd wyth o'r cwestiynau'n ymwneud â data demograffig a gallu yn y Gymraeg, tri chwestiwn yn ymwneud â pherthynas yr ymatebwyr â'r ardal, a thri chwestiwn yn ymwneud â safbwynt a barn/adborth yr ymatebwyr ar y cynigion a'u heffaith gysylltiedig ar y Gymraeg (gan gynnwys ffyrdd posibl o wella canlyniadau). Mae'r ffurflen adborth wedi'i hatodi fel *Atodiad 1*.

# 4 Gwybodaeth am yr ymatebwyr

## 4.1 Trosolwg

O'r 1,647 o ymatebwyr a lenwodd y ffurflen adborth, ymatebodd 92.9%[1] (1,530) fel unigolion, ymatebodd 5% (82) ar ran sefydliad, ymatebodd 1% (20) ar ran grŵp neu gymuned, ac nid oedd 1% (15) yn darparu ateb. Nododd 109 o ymatebwyr pa sefydliad, grŵp neu gymuned yr oeddent yn ymateb ar ei rhan.

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu hunain mewn perthynas â'r ardal, nododd 52% (1,001) o'r ymatebwyr eu bod yn drigolion lleol, roedd 12% (238) yn ffermwyr neu'n dirfeddianwyr, roedd 20% (386) yn ymwelwyr neu'n dwristiaid, roedd 7% (126) yn berchnogion busnes, roedd 4% (72) yn gynrychiolwyr sefydliad neu grŵp, tra nododd 5% (93) gysylltiad arall. Noder, gallai'r ymatebwyr ddewis cymaint o opsiynau ag oedd yn berthnasol, ac felly mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100%. Roedd rolau'r ymatebwyr a nododd eu bod yn gynrychiolwyr sefydliad/grŵp yn cynnwys cadeiryddion (14), rheolwyr (13), swyddogion (8), cyfarwyddwyr (6), ysgrifenyddion (6), clercod (5), cynghorwyr (3), ymddiriedolwyr (3), gwirfoddolwyr (2), ac eraill na ellid eu grwpio (20).


Cafwyd adborth gan y pum awdurdod lleol statudol: Powys, Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir y Fflint a Gwynedd (gweler Adran 7.5).

[1] Mae'r holl ganrannau wedi'u talgrynnu i fyny i'r pwynt degol agosaf.

## 4.2 Lleoliad yr ymatebwyr

Mae Ffigur 1 isod yn dangos codau post yr ymatebwyr i'r ffurflen adborth.  Er y cafwyd ymateb o bob cwr o'r DU, roedd y crynodiad uchaf o ymatebwyr yng Nghymru yn dod o Bowys a Sir Ddinbych, gyda chrynodiadau ychydig is yn Sir y Fflint a Gwynedd.

*Ffigur 1: Lleoliad yr ymatebwyr yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol*




Attribution Statement: Contains National Statistics data © Crown copyright and database right [2025] Contains OS data © Crown copyright and database right. All rights reserved. Ordnance Survey Licence number AC0000849444. Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved. Contains Ordnance Survey Data. Ordnance Survey Licence number AC0000849444 . Crown Copyright and Database Right.

# 5 Data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

O'r ymatebwyr a rannodd wybodaeth am eu gallu yn y Gymraeg, nododd y gyfran fwyaf eu bod yn deall ac yn siarad rhywfaint o Gymraeg (31%, 507). Dilynwyd hyn gan y rhai heb ddealltwriaeth o'r Gymraeg (30%, 492), y rhai oedd yn dysgu Cymraeg (19%, 314), a'r rhai oedd yn rhugl (19%, 307). Ni roddodd cyfanswm o 2% (27) ymateb.

O'r ymatebwyr a ddatgelodd eu hoedran, y gyfran fwyaf oedd unigolion 65+ oed (35%, 584), ac yna rhai rhwng 55 a 64 oed (25%, 409). Roedd yr ymatebwyr a oedd rhwng 45 a 54 oed yn cyfrif am 14% (236) a'r rhai rhwng 35 a 44 oed yn cyfrif am 10% (163). Roedd llai o gynrychiolaeth o grwpiau oedran iau, gyda 6% (100) rhwng 25 a 34 oed, 2% (25) rhwng 18 a 24 oed, a 0.5% (7) o dan 18 oed. Roedd yn well gan gyfanswm o 6% (92) beidio â dweud, ac ni roddodd 2% (31) ymateb o ran eu hoedran.


O'r 96% o ymatebwyr a nododd eu hethnigrwydd, dywedodd 72% eu bod yn wyn – Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig neu Brydeinig – a dim ond 1% a nododd nad oeddent yn wyn.  O'r 87% o ymatebwyr a nododd beth oedd eu crefydd, dywedodd ychydig o dan 50% nad oeddynt yn perthyn i unrhyw grefydd a dywedodd 47% eu bod yn Gristnogion.

O'r 96% o ymatebwyr a nododd eu cyfeiriadedd rhywiol, dywedodd 78% eu bod yn heterorywiol/syth, roedd yn well gan 17% beidio â dweud, ac roedd 5% yn hoyw neu'n ddeurywiol.  Roedd gan bron i draean o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg anabledd neu broblem iechyd hirdymor ac roedd 11% yn gofalu am berthynas sy'n oedolyn / partner / plentyn anabl neu arall ar hyn o bryd.

# 6 Cynaliadwyedd y Gymraeg

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd dau gwestiwn i'r ymatebwyr am gynaliadwyedd y Gymraeg. Gofynnwyd yn benodol pa effeithiau ymddangosiadol a allai fod, sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol, a sut y gellid llunio neu newid y cynigion i sicrhau effeithiau cadarnhaol a/neu rwystro unrhyw effeithiau negyddol.

*Ffigur 2: Gallu Cymraeg yr ymatebwyr*




Mewn atebion i'r cwestiynau hyn, credai 181 o ymatebwyr y byddai dynodi Parc Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, tra credai 133 o ymatebwyr y byddai'n cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, rhannodd 132 o ymatebwyr safbwyntiau a sylwadau niwtral am y Gymraeg. Yn achos y rhai a oedd yn gadarnhaol ynglŷn â'r effeithiau posibl ar y Gymraeg, roedd cred y byddai creu Parc Cenedlaethol newydd yn gyfle i arddangos y Gymraeg ymhellach / yn well, yn enwedig i gynulleidfa ehangach ledled Cymru a'r DU. Yn achos y rhai a oedd yn negyddol am yr effaith ar y Gymraeg, y thema gyson oedd effeithiau ymddangosiadol gor-dwristiaeth, ail gartrefi a phrisiau tai uwch ar gymunedau lleol, a fyddai'n arwain at siaradwyr Cymraeg yn gadael eu cymunedau.

# 7 Barn ar y Parc Cenedlaethol arfaethedig

## 7.1 Dull dadansoddi

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis un o bum opsiwn fel rhan o'u hymateb i helpu i nodi a ydynt yn cefnogi'r cynnig ai peidio, a sut. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi'r canlynol:

1. Rwyf i / Rydym ni yn cefnogi'r cynnig presennol am Barc Cenedlaethol newydd
2. Rwyf i / Rydym ni yn cefnogi'r Parc Cenedlaethol mewn egwyddor ond yn awgrymu bod angen addasu'r ffin (rhowch fanylion isod)
3. Rwyf i / Rydym ni yn cefnogi'r Parc Cenedlaethol mewn egwyddor, yn amodol ar bwyntiau penodol yn cael sylw priodol neu'n cael eu hesbonio'n briodol
4. Rwyf i / Rydym ni yn gwrthwynebu'r cynnig am Barc Cenedlaethol newydd
5. Nid wyf / Nid ydym yn gwybod / wedi penderfynu eto


Yn ogystal â hyn, gofynnwyd iddynt roi rhagor o fanylion i esbonio eu hymateb i'r cwestiwn. Cafodd yr ymatebion agored i'r cwestiwn hwn ar y ffurflen adborth a'r ymatebion a ddaeth i law trwy e-bost eu codio gan ddefnyddio'r matrics codio *(cyfeiriwch at Atodiad 2)* i ddeall pa faterion allweddol a godwyd yn gyffredinol, a hynny gan bob un o'r categorïau o randdeiliaid:

- Trigolion lleol
- Ffermwyr / tirfeddianwyr
- Ymwelwyr / twristiaid
- Perchnogion busnes
- Arall

## 7.2 Trosolwg o'r ymatebion

Mae Ffigur 3 isod yn rhoi trosolwg o sut yr hoffai ymatebwyr i'r ffurflen adborth wneud sylwadau.

*Ffigur 3: Sylwadau ar y Parc Cenedlaethol*




O'r ymatebion a gafwyd i'r ffurflen adborth, nododd 53% (869) o'r ymatebwyr eu bod yn cefnogi'r cynigion presennol, gyda 9% (152) yn nodi eu bod yn eu cefnogi ond yn awgrymu newid i'r ffin[2] a 5% (75) yn nodi eu bod yn gefnogol yn amodol ar eglurhad – felly nododd cyfanswm o 67% (1,096) o'r ymatebwyr gefnogaeth amodol o leiaf.

Nododd 31% (508) o'r ymatebwyr eu bod yn gwrthwynebu'r Parc Cenedlaethol newydd.

Dywedodd 3% (43) eu bod naill ai heb benderfynu, ddim yn gwybod, neu nid oeddynt wedi rhoi ymateb.

## 7.3 Trosolwg o'r adborth gan yr holl ymatebwyr

Noder bod rhai ymatebwyr wedi dewis mwy nag un opsiwn, ac felly rhoddwyd blaenoriaeth i'r rhai a oedd yn gwrthwynebu ac yn rhoi cefnogaeth amodol.

O'r themâu lefel uchel, y themâu a oedd yn codi amlaf oedd cwestiynu'r angen (~18%), rheoli twristiaeth a seilwaith cyhoeddus (~16%), pobl leol, cymunedau a'r economi leol

[2] Sylwch fod y ffigur hwn yn cyfeirio at yr ymateb dynodedig a ddewiswyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad, sy'n wahanol i nifer y gweithiau y cafodd y mater o newid ffiniau ei godi gan ymatebwyr yn eu hymatebion.

(~14%), diwylliant a threftadaeth (~13%), a newidiadau i'r ffiniau (~13%). Darperir dadansoddiad o amlder cyffredinol a chanran gymharol y materion a godwyd isod.

| Thema | Amlder | % yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| 1. Cwestiynu'r angen | 295 | 18% |
| 2. Rheoli twristiaeth a seilwaith cyhoeddus | 270 | 16% |
| 3. Pobl leol | 232 | 14% |
| 4. Diwylliant a threftadaeth | 217 | 13% |
| 5. Newidiadau i'r ffiniau | 213 | 13% |
| 6. Bywyd gwyllt | 182 | 11% |
| 7. Goblygiadau tai | 128 | 8% |
| 8. Cadwraeth y dirwedd | 126 | 8% |
| 9. Amaethyddiaeth | 117 | 7% |
| 10. Problemau mynediad | 107 | 6% |
| 11. Goblygiadau cynllunio | 106 | 6% |
| 12. Ynni adnewyddadwy | 96 | 6% |
| 13. Y broses | 77 | 5% |

### 1. Cwestiynu'r angen

Roedd y rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn rhai negyddol, gyda'r canlynol yn cael eu codi fwyaf aml: gwerth am arian, sefyllfa bresennol cyllid awdurdodau lleol, cyllid ac ymrwymiad hirdymor, a chyllid ar gyfer rheoli'r Parc Cenedlaethol a chostau cysylltiedig eraill.

### 2. Pobl leol, cymunedau a'r economi leol

Y canfyddiadau negyddol a godwyd amlaf oedd effaith y seilwaith ar gymunedau lleol, a'r effaith ar bobl ifanc a thai. Y canfyddiadau cadarnhaol a godwyd amlaf oedd y manteision i'r economi leol ac effaith ar swyddi lleol.

## 3. Rheoli twristiaeth a seilwaith cyhoeddus

Y canfyddiadau negyddol a godwyd amlaf oedd yr effaith ar draffig, parcio a'r rhwydwaith ffyrdd, cyllid a seilwaith cyhoeddus, a gor-dwristiaeth, e.e. sbwriel, tanau a fandaliaeth.

## 4. Diwylliant a threftadaeth

Y canfyddiadau negyddol a godwyd amlaf oedd effaith twristiaeth ar ddiwylliant a threftadaeth, a'r effaith ar gynaliadwyedd y Gymraeg. Y canfyddiadau cadarnhaol a godwyd amlaf oedd effeithiau ymddangosiadol twristiaeth a'r posibilrwydd am ganlyniadau cadarnhaol o ran cynaliadwyedd y Gymraeg. Cafodd enw'r Parc Cenedlaethol ei godi gan 21 o ymatebwyr, gyda 10 yn gwneud sylwadau cadarnhaol ar yr enw arfaethedig ac 11 yn gwneud sylwadau negyddol. Yn achos yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau cadarnhaol, roedd cydnabyddiaeth y byddai'r enw'n helpu i hyrwyddo hanes y Gymraeg a'r defnydd ohoni, tra'r oedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r enw yn pryderu y bydd yn achosi rhaniad ac yn awgrymu y dylai'r enw ganolbwyntio ar ddaearyddiaeth yn hytrach nag ar unigolyn.

## 5. Newidiadau i'r ffiniau

Y materion a godwyd amlaf oedd ceisiadau i gynnwys ardaloedd ychwanegol o fewn ffin y Parc Cenedlaethol, a cheisiadau i dynnu ardaloedd eraill ohono.

## 6. Bywyd gwyllt a chadwraeth

Y canfyddiadau cadarnhaol a godwyd amlaf oedd yr effaith ar gadwraeth a gwella'r amgylchedd, a rhywogaethau cynhenid. Y canfyddiadau negyddol a godwyd amlaf oedd effaith ymyrraeth ymwelwyr, a'r effaith ar gadwraeth a gwella'r amgylchedd.

## 7. Goblygiadau tai

Y materion a godwyd amlaf oedd canfyddiadau negyddol o'r effaith ar brisiau eiddo, yn yr ystyr y bydd tai yn llai fforddiadwy, nifer yr ail gartrefi, ac argaeledd tai i gymunedau lleol. Roedd y thema hon yn cyfateb i raddau helaeth â'r effaith ymddangosiadol ar gynaliadwyedd y Gymraeg a'r effaith ar gymunedau lleol (yn enwedig pobl ifanc). Lle codwyd y materion hyn gyda'i gilydd, roedd ymatebwyr yn pryderu y byddai dynodi'r Parc Cenedlaethol yn effeithio'n negyddol ar argaeledd tai lleol gan y byddai'n cynyddu prisiau ac yn cyflwyno cyfyngiadau cynllunio, ac ystyriwyd fod hyn yn cael effaith negyddol anghymesur ar bobl ifanc a chymunedau Cymraeg. Roedd perchnogion busnes (yn enwedig amaethyddiaeth a lletygarwch) hefyd yn bryderus y gallai arwain at brinder gweithwyr addas.

## 8. Cadwraeth y dirwedd

Y materion a godwyd amlaf oedd y canfyddiadau cadarnhaol a negyddol o'r effaith ar gadwraeth y dirwedd. Cafwyd canfyddiadau cadarnhaol hefyd am gydnabyddiaeth o'r ardal.

### 9. Amaethyddiaeth

Y materion a godwyd amlaf oedd y canfyddiadau cadarnhaol a negyddol o'r effaith ar oblygiadau cynllunio. Roedd materion eraill yn cynnwys canfyddiadau negyddol o'r posibilrwydd o wrthdaro â thwristiaeth, a'r effaith ar gynlluniau ffermio cynaliadwy.

### 10. Problemau mynediad

Y materion a godwyd amlaf oedd y safbwyntiau cadarnhaol ar fynediad cynaliadwy a safbwyntiau niwtral ar arwyddion. O ran y safbwyntiau negyddol, y prif faterion oedd yr effaith ar seilwaith priffyrdd, y gwaith o gynnal a chadw llwybrau ceffylau a llwybrau troed, ymlyniad at y cod cefn gwlad, a gwrthdaro rhwng ffermwyr ac ymwelwyr.

### 11. Goblygiadau cynllunio

Y materion a godwyd amlaf oedd y canfyddiadau cadarnhaol a negyddol o'r effaith ar reolaethau cynllunio. Mater allweddol arall oedd y safbwyntiau negyddol ar gyflwyno haenau ychwanegol o fiwrocratiaeth.

### 12. Ynni adnewyddadwy

Y mater a godwyd amlaf oedd y canfyddiadau cadarnhaol a negyddol o'r effeithiau ar ddatblygiadau ynni gwynt a datblygiadau ynni gwyrdd eraill. Yn arbennig felly, roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r Parc Cenedlaethol yn lleihau'r tebygolrwydd y byddai datblygiadau gwynt a datblygiadau adnewyddadwy eraill yn cael eu caniatáu.

### 13. Y broses

Y materion a godwyd amlaf oedd y cymariaethau negyddol â Pharciau Cenedlaethol eraill, ceisiadau am adroddiadau eraill, neu i gynnal asesiadau a dadansoddiadau ychwanegol. Roedd eraill yn ystyried y broses yn gadarnhaol, drwy ei chymharu â phrosesau Parciau Cenedlaethol eraill.

## 7.4 Dadansoddi categorïau'r rhanddeiliaid

Mae'r ymatebion wedi'u grwpio yn ôl y categorïau y mae'r rhanddeiliaid eu hunain wedi'u dewis er mwyn deall barn pob grŵp ar y Parc Cenedlaethol arfaethedig.

## Trigolion lleol

O'r **trigolion lleol** a fynegodd farn:

- Nododd y gyfran fwyaf eu cefnogaeth (47%, 471), tra nododd 4% (43) eu cefnogaeth yn amodol ar eglurhadau, ac roedd 11% (114) yn cefnogi newid i'r ffin – cyfanswm o 63% o'r ymatebwyr hynny.
- Roedd 35% arall (346) yn gwrthwynebu.
- Roedd cyfran lai o'r rheini heb benderfynu (3%, 27).

Mae ymatebion trigolion lleol yn cyfateb â'r cyfanswm cyffredinol. Fodd bynnag, mae ychydig mwy o wrthwynebiad (35% o'i gymharu â 31%), ac mae cefnogaeth gyffredinol (gan gynnwys y rhai sydd wedi cefnogi yn amodol ar eglurhad a newid i'r ffin) ychydig yn is (63% o'i gymharu â a 67%).

Y themâu lefel uchel a godwyd amlaf gan drigolion lleol oedd rheoli twristiaeth a seilwaith cyhoeddus, cwestiynu'r angen, newidiadau i'r ffiniau, a phobl leol, cymunedau a'r economi leol. Mae'r is-themâu a godwyd amlaf a'r teimladau cyfatebol wedi'u manylu isod:

**Negyddol**

Roedd y safbwyntiau negyddol a godwyd yn ymwneud â'r canlynol yn bennaf:

- effaith ar draffig, y rhwydwaith ffyrdd, parcio a gor-dwristiaeth
- effeithiau ar seilwaith ar gymunedau lleol
- costau byw a phrisiau tai, tai, a phobl ifanc
- gwerth ymddangosiadol am arian
- cyllid awdurdodau lleol, cyllid ar gyfer y Parc Cenedlaethol, ac ymrwymiadau ariannu

**Cadarnhaol**

- Safbwyntiau cadarnhaol a niwtral ar ardaloedd ychwanegol i'w cynnwys o fewn y Parc Cenedlaethol.
- Manteision i'r economi leol.

Roedd trigolion lleol yn fwy tebygol o awgrymu newidiadau i'r ffiniau na phob math arall o ymatebwyr, ac eithrio'r rhai a oedd yn ateb ar ran grŵp neu sefydliad.

**Effeithiau gor-dwristiaeth ar draffig, parcio a'r rhwydwaith ffyrdd**

Rhagwelir y bydd dynodi'r Parc Cenedlaethol yn arwain at gynnydd mewn twristiaeth, gan greu gor-dwristiaeth oherwydd capasiti ymddangosiadol gyfyngedig seilwaith yr ardal. Ystyriwyd bod hyn yn niweidiol iawn i drigolion lleol, ond roedd yn thema a rannwyd gan ffermwyr/tirfeddianwyr hefyd.

*"Gall mynd trwy Langollen gymryd amser oherwydd y twristiaid a'r amser teithio. Nid oes lle parcio i drigolion lleol hyd yn oed i fynd i siop."*

- Preswylydd lleol

*"Nid oes gan lawer o drigolion le parcio, nid oes gan fythynnod ddreifiau yn draddodiadol."*

- Preswylydd lleol

*"Rwy'n teimlo y byddai cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a chynnydd mewn traffig yn effeithio'n negyddol ar ein bywyd yn y dyffryn hwn ac y byddai'n effeithio'n negyddol ar yr ecoleg. Nid yw Dyffryn Ceiriog wedi'i gyfarparu i ymdopi â nifer fawr o ymwelwyr."*

- Preswylydd lleol

**Effaith ar dai**

Un pryder sylweddol oedd y canfyddiad y byddai dynodi'r Parc Cenedlaethol yn arwain at gynnydd sylweddol mewn twristiaeth, a fyddai'n achosi cynnydd yn nifer y tai lleol sy'n cael eu prynu fel ail gartrefi a thai gwyliau. Credai rhai trigolion lleol mai canlyniad terfynol hyn fyddai pobl leol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai leol. Ystyriwyd y byddai hyn yn effeithio mwy ar bobl ifanc gan mai nhw fyddai'n cael yr anhawster mwyaf i ymuno â'r ysgol eiddo, a bod posibilrwydd y byddai'n chwalu cymunedau Cymraeg.

*"Ni fydd pobl ifanc leol yn gallu fforddio i brynu tai yn y cwm ac felly bydd rhaid i'r genhedlaeth iau adael, fel y mae ein mab ni eisoes wedi'i wneud. Pan symudom ni i'r cwm, roedd dros 120 o blant yn ei ysgol. Nawr mae nhw'n dweud bod y ffigwr yn is na 90 ac yn lleihau."*

- Preswylydd lleol

**Cyllid a gwerth am arian**

Roedd mwyafrif yr ymatebion a fynegodd farn negyddol am y Parc Cenedlaethol yn dod o dan y thema cwestiynu'r angen. Roedd y materion allweddol o fewn y thema hon yn ymwneud â'r gwerth am arian y byddai'r Parc Cenedlaethol yn ei ddarparu, a sut y byddai'r Parc Cenedlaethol yn cael ei ariannu, gyda phryderon ynghylch cyllid hirdymor a sefyllfa ariannol bresennol awdurdodau lleol.

*"Bydd angen cyllid ychwanegol gan y cyngor, y bydd yn rhaid i ni, y trethdalwyr, ei ariannu, ar adeg pan mae ein baich treth eisoes yn cynyddu."*

- Preswylydd lleol

*"Pwy sy'n mynd i ariannu hyn?"*

- Preswylydd lleol

*"Pa gyllid a seilwaith fydd yn cael eu darparu i sicrhau nad yw'n dod yn hunllef i bobl leol?"*

- Preswylydd lleol

**Safbwyntiau cadarnhaol ar ardaloedd ychwanegol i'w cynnwys**

Roedd trigolion lleol yn fwy tebygol nag unrhyw ymatebydd arall i ofyn am i'r ffin gael ei newid, yn enwedig i ardaloedd ychwanegol gael eu cynnwys. Roedd themâu cylchol yn cynnwys ailgynnwys ardaloedd a oedd wedi cael eu tynnu o'r parc, yn ogystal â chynnwys trefi i weithredu fel trefi 'porth' i'r Parc Cenedlaethol. Roedd y rhesymu dros gynnwys ardaloedd ychwanegol gan amlaf yn gysylltiedig â chadwraeth bywyd gwyllt a thirwedd, pwysigrwydd hanesyddol yr ardal, a hygyrchedd ymwelwyr/twristiaid.

## Ffermwyr/tirfeddianwyr

O'r **ffermwyr/tirfeddianwyr** a fynegodd farn:

- Nododd 23% (55) eu cefnogaeth, tra'r oedd 9% (21) yn cefnogi newid i'r ffin a 2% (5) yn cefnogi yn amodol ar eglurhadau – cyfanswm o 34% o'r ymatebwyr hynny.

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr hynny'n gwrthwynebu (64%, 153).

Nododd cyfran lai nad oeddynt wedi penderfynu (2%, 4). O ganlyniad, roedd ffermwyr/tirfeddianwyr yn llawer mwy tebygol o wrthwynebu na'r ymatebwyr cyffredinol (64% o'i gymharu â 31%) ac yn llawer llai tebygol na'r ymatebwyr cyffredinol o fynegi cefnogaeth ddi-amod (34% o'i gymharu â 53%).

Y themâu lefel uchel a godwyd amlaf gan ffermwyr a thirfeddianwyr oedd cwestiynu'r angen, rheoli twristiaeth a seilwaith cyhoeddus, a phobl leol, cymunedau a'r economi leol. Mae'r is-themâu a godwyd amlaf a'r teimladau cyfatebol wedi'u manylu isod:

**Negyddol**

Roedd y safbwyntiau negyddol a godwyd yn ymwneud â'r canlynol yn bennaf:

- pryderon am ymrwymiadau ariannu hirdymor a chyllid awdurdodau lleol
- pryderon am yr effaith ar y rhwydwaith ffyrdd, parcio a sbwriel
- effeithiau seilwaith ar gymunedau

**Cadarnhaol**

Rhoddodd oddeutu 68% o ffermwyr/tirfeddianwyr sylwadau, ac roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau hynny'n negyddol. Fodd bynnag, y themâu lefel uchel y rhoddodd ffermwyr/tirfeddianwyr y sylwadau mwyaf cadarnhaol arnynt oedd amaethyddiaeth (20% – yn bennaf ar ba gefnogaeth sydd ar gael, megis cynlluniau ffermio cynaliadwy) a diwylliant a threftadaeth (17% – yn bennaf ar gynaliadwyedd y Gymraeg).

Roedd ffermwyr/tirfeddianwyr yn fwy tebygol nag unrhyw ymatebwr arall, ac eithrio'r rhai a oedd yn ateb ar ran grwpiau/sefydliadau, o godi materion yn cwestiynu'r angen i ddynodi'r Parc Cenedlaethol.

**Cyllid a gwerth am arian**

Mynegodd ffermwyr/tirfeddianwyr bryderon ynghylch ariannu'r Parc Cenedlaethol yn y dyfodol a sefyllfa ariannol bresennol awdurdodau lleol. Thema drawsbynciol allweddol arall oedd y gred bod y dynodiad presennol yn ddigonol i amddiffyn yr ardal ac y byddai'n well pe defnyddid y cyllid i gefnogi'r fframweithiau amddiffyn presennol yn yr ardal.

*"Mae'r awdurdodau lleol presennol eisoes o dan straen mawr yn ariannol, mae eu staff cefn gwlad yn gwneud gwaith gwych …Byddai cyllid ac adnoddau ychwanegol ar gyfer yr adrannau cefn gwlad presennol yn ffordd llawer mwy effeithiol o reoli'r ardal."*

- Ffermwr/tirfeddiannwr

**Effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd a seilwaith arall**

Rhagwelir y bydd dynodi'r Parc Cenedlaethol yn arwain at gynnydd mewn twristiaeth, gan greu gor-dwristiaeth oherwydd capasiti ymddangosiadol gyfyngedig seilwaith yr ardal. Roedd hon yn thema a rannwyd ymhlith ffermwyr/tirfeddianwyr a pherchnogion busnes.

*"Mae angen atgyweirio'r ffyrdd ac nid oes gennym doiledau cyhoeddus. Mae gormod o draffig yma fel y mae ac ni all pobl yrru'n ôl."*
- Ffermwr/tirfeddiannwr

*"Ni allai'r ardal gynnal y twristiaid ychwanegol a fyddai'n dod yma, gan nad yw'r ffyrdd yn ddigonol o gwbl fel ag y maen nhw."*
- Ffermwr/tirfeddiannwr

*"Mae'r ffyrdd wedi'u tagu, ni all pobl droi'n ôl, ni allwn gyrraedd lle mae angen i ni fod, does dim lleoedd parcio, mae'r ffyrdd yn llawn tyllau."*
- Ffermwr/tirfeddiannwr

*"Ni all y seilwaith ymdopi â nifer yr ymwelwyr sydd yno nawr."*
- Ffermwr/tirfeddiannwr

## Ymwelwyr/twristiaid

O'r **ymwelwyr/twristiaid** a fynegodd farn:

- Nododd y gyfran fwyaf eu cefnogaeth (46%, 461), tra'r oedd 12% (125) yn cefnogi yn amodol ar newidiadau i'r ffiniau, a nododd cyfran lai fod eu barn yn amodol ar eglurhad (5%, 45) – cyfanswm o 63% o'r ymatebwyr hynny.
- Roedd 33% (312) arall yn gwrthwynebu.
- Roedd 2% (7) arall heb benderfynu.

Roedd canran uwch o ymwelwyr/twristiaid yn cefnogi'r prosiect o'i gymharu â chyfanswm yr ymatebwyr (63% o'i gymharu â 53%).

Heb gynnwys diwylliant a threftadaeth, y themâu lefel uchel a godwyd amlaf gan ymwelwyr/twristiaid oedd cadwraeth tirwedd, cadwraeth bywyd gwyllt a chwestiynu'r angen. Mae'r is-themâu a godwyd amlaf a'r teimladau cyfatebol wedi'u manylu isod:

**Cadarnhaol**

- Cydnabyddiaeth i'r ardal
- Cadwraeth a gwella'r amgylchedd

O'r ymwelwyr/twristiaid a roddodd sylwadau (48%), mynegodd y mwyafrif sylweddol deimladau cadarnhaol.

**Negyddol**

Y thema lefel uchel a gafodd y sylwadau mwyaf negyddol oedd cwestiynu'r angen (11 allan o 25 ymateb), gyda rhai ymwelwyr/twristiaid yn pryderu a oedd y dynodiad presennol yn ddigonol i amddiffyn bywyd gwyllt a'r dirwedd.

Rhoddodd ymwelwyr/twristiaid lawer llai o sylwadau a chodwyd llai o bryderon ganddynt nag unrhyw ymatebwr arall. Yr unig fater y gwnaethant sylwadau arno, a hynny ar amlder tebyg i ymatebwyr eraill, oedd cadwraeth y dirwedd. Ochr yn ochr ag eraill, nhw oedd yr unig grŵp o ymatebwyr i wneud llawer llai o sylwadau ar ddiwylliant a threftadaeth.

**Cydnabyddiaeth i'r ardal**

Ar y cyfan, rhoddodd ymwelwyr a thwristiaid sylwadau cadarnhaol am ddynodi'r Parc Cenedlaethol. Y mwyaf amlwg o'r rhain oedd cymeradwyo'r ffaith bod harddwch naturiol a phwysigrwydd diwylliannol ac ecolegol yr ardal yn cael eu cydnabod.

*"Eithriadol o brydferth, gwyllt a thawel, gyda llawer o gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored fel cerdded, gwylio adar, ac ymweld â safleoedd hanesyddol ac archaeolegol."*
- Ymwelydd/twrist

*"Rwy'n byw yn AHNE Gŵyr. Mae'r dynodiad hwnnw'n hanfodol i lesiant yr ardal. Rwy'n credu y bydd manteision tebyg i ddynodi Parc Cenedlaethol Glyndŵr. Rhaid cynnal a gwarchod yr ardaloedd rhyfeddol hyn."*
- Ymwelydd/twrist

**Cadwraeth a gwella'r amgylchedd**

Yr ail fater mwyaf amlwg y gwnaeth ymwelwyr/twristiaid sylwadau amdano oedd cadwraeth a gwella'r amgylchedd a fyddai'n dod yn sgil dynodi'r Parc Cenedlaethol. Thema a gododd dro ar ôl tro yn y sylwadau hyn oedd cefnogaeth gyffredinol i gynyddu ardaloedd gwarchodedig ledled Cymru a'r DU.

*"Teimlaf fod rôl Parciau Cenedlaethol yn hanfodol i ddiogelu rhai o'n hamgylcheddau gwerthfawr. Po fwyaf sydd gennym, y mwyaf yw'r ardal o dir sy'n cael ei diogelu."*
- Ymwelydd/twrist

*"Mae angen i ni sicrhau bod natur a'r amgylchedd yn flaenoriaeth yn y DU. Bydd cael mwy o Barciau Cenedlaethol yn hyrwyddo hyn."*
- Ymwelydd/twrist

### Perchnogion busnes

O'r **perchnogion busnes** a fynegodd farn:

- Nododd 34% (43) eu cefnogaeth, tra'r oedd 13% (17) yn cefnogi newid i'r ffin, a chyfran lai yn cefnogi yn amodol ar eglurhad (4%, 5) – cyfanswm o 52% o'r ymatebwyr.

- Roedd 45% (57) yn gwrthwynebu'r cynnig.
- Dywedodd 3% (4) nad oeddynt wedi penderfynu (3%, 4).

O ganlyniad, roedd mwy o berchnogion busnes yn gwrthwynebu na'r ymatebwyr cyffredinol (45% o'i gymharu â 31%) a mynegwyd cefnogaeth ddi-amod yn yr un modd (52% o'i gymharu â 53%).

Heb gynnwys diwylliant a threftadaeth, y themâu lefel uchel a godwyd amlaf gan berchnogion busnes oedd pobl leol, cymunedau a'r economi leol, rheoli twristiaeth a seilwaith cyhoeddus, a chwestiynu'r angen.

Mae'r is-themâu a godwyd amlaf a'r teimladau cyfatebol wedi'u manylu isod:

**Negyddol**

Roedd y safbwyntiau negyddol a godwyd yn ymwneud â'r canlynol yn bennaf:
- effaith ar draffig, y rhwydwaith ffyrdd a pharcio
- effeithiau gor-dwristiaeth ar seilwaith ar gymunedau lleol
- haenau ychwanegol o fiwrocratiaeth, gwerth ymddangosiadol am arian, ac ymrwymiadau ariannu hirdymor

O'r perchnogion busnes a roddodd sylwadau (71%), mynegodd y mwyafrif farn negyddol.

**Cadarnhaol**

Y themâu lefel uchel y cafwyd y sylwadau mwyaf cadarnhaol arnynt oedd diwylliant a threftadaeth (27% – yn bennaf ar gynaliadwyedd y Gymraeg) a phobl leol, cymunedau a'r economi leol (26% – yn bennaf, cydnerthedd economaidd lleol gwell trwy gynyddu nifer y rhai sy'n ymweld â busnesau lleol).

Roedd perchnogion busnes yn fwy tebygol nag unrhyw ymatebydd arall o godi materion yn ymwneud â diwylliant a threftadaeth, pobl leol, cymunedau a'r economi leol, ac ynni adnewyddadwy. Thema nodedig ymhlith perchnogion busnesau lletygarwch oedd y canfyddiad y byddai dynodi'r Parc Cenedlaethol yn amddiffyn y dirwedd leol rhag datblygiadau ynni adnewyddadwy yn cael eu caniatáu, a ystyriwyd bod hyn yn beth da er mwyn sicrhau busnes parhaus.

**Effaith gor-dwristiaeth ar draffig, y rhwydwaith ffyrdd a seilwaith arall**

Rhagwelir y bydd dynodi'r Parc Cenedlaethol yn arwain at gynnydd mewn twristiaeth, gan greu gor-dwristiaeth oherwydd capasiti ymddangosiadol gyfyngedig seilwaith yr ardal. Thema a oedd yn codi dro ar ôl tro gan berchnogion busnes ar y mater hwn oedd y gred nad oedd y gallu na'r capasiti ar gael i ymdrin â newid yn effeithiol, a'r teimlad mai'r perchnogion busnes fyddai'n gorfod dygymod â'r effeithiau mwyaf uniongyrchol.

*"Mae seilwaith yr ardal eisoes o dan bwysau / yn anaddas. Mae'r ffyrdd mewn cyflwr gwael, mae'r meysydd parcio'n gorlifo bob penwythnos eisoes heb fawr o le i'w hehangu."*

- Perchennog busnes

*“Mae’r gallu i reoli’r effaith ar bobl sy’n byw ac yn gweithio yma yn annigonol.”*
- Perchennog busnes

*“Mae’n beryglus o llawn ar adegau prysur ac ni all y seilwaith ddygymod â mwy.”*
- Perchennog busnes

**Cyllid a gwerth am arian**

Mynegodd perchnogion busnes bryderon ynghylch y gwerth am arian y gellid ei sicrhau o ddynodi’r Parc Cenedlaethol, a chwestiynwyd yn benodol yr angen am yr hyn yr oedden nhw’n ei ystyried yn haen ychwanegol o fiwrocratiaeth. Gan fod llawer o berchnogion busnes hefyd yn ffermwyr/tirfeddianwyr, roedd yr ymdeimlad yn un cyffredin ymysg y ddau grŵp.

*“Nid wyf yn credu y byddai creu Parc Cenedlaethol ychwanegol er budd pennaf y trigolion lleol a pherchnogion busnesau. Mae’n creu haen ychwanegol o fiwrocratiaeth na fydd o fudd i’r ardal.”*
- Perchennog busnes

*“Mae’n ymddangos ei fod yn cynyddu biwrocratiaeth ddiangen y mae’n rhaid talu amdani.”*
- Perchennog busnes

## Eraill

O’r unigolion **eraill** a fynegodd farn (a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr etholedig, perchnogion ail gartrefi ac ymwelwyr rheolaidd o fewn ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol a thrigolion o bob cwr o Gymru a’r Deyrnas Unedig):

- Nododd y gyfran fwyaf eu cefnogaeth (55%, 52), tra’r oedd 11% (10) yn cefnogi newid i’r ffin a 7% yn cefnogi’r cynnig yn amodol ar eglurhadau – cyfanswm o 73% o’r ymatebwyr hynny.
- Roedd 26% arall (25) yn gwrthwynebu’r cynnig.
- Dim ond un ymatebydd (1%) oedd heb benderfynu.

Mae cefnogaeth y grŵp hwn sydd yn weddill yn sylweddol uwch yn gyffredinol (o gynnwys y rhai sydd wedi datgan eu cefnogaeth yn amodol ar eglurhad a newid i’r ffiniau) (73% o’i gymharu â 67%).

Ni ddadansoddwyd ‘Eraill’ fel grŵp unffurf oherwydd ei fod yn amrywio’n sylweddol, o ran y math o ymatebwyr a’u safbwyntiau. Felly, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad ansoddol ychwanegol ar yr ymatebwyr hyn.

## 7.5 Ymateb awdurdodau lleol

Awdurdodau lleol yw'r unig ymgyngoreion statudol mewn perthynas â dynodi Parciau Cenedlaethol. Mae pum awdurdod lleol wedi cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad a nodir safbwynt pob awdurdod lleol isod:

- Sir Ddinbych – yn gwrthod y cynnig ac yn aros am ragor o fanylion
- Sir y Fflint – ddim yn gallu cefnogi'r cynnig ac yn aros am ragor o fanylion
- Gwynedd – gwrthwynebu
- Powys – gwrthwynebu
- Wrecsam – gwrthwynebu

Cododd yr awdurdodau lleol y materion canlynol:

### Cyngor Sir Ddinbych

- Mae'r cyngor wedi datgan y gallai "dynodiad, ar y cyfan, fod yn gadarnhaol i'r amgylchedd ac adferiad natur, i'r Gymraeg a diwylliant Cymru a chymunedau Sir Ddinbych i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â dynodiad yn dibynnu ar sefydlu awdurdod Parc Cenedlaethol sydd â digon o adnoddau, a byddai angen iddo fynd i'r afael yn rhagweithiol â'r manteision, y risgiau a'r pwysau posibl, heb fod ar draul gwasanaethau neu gymunedau presennol."
- Dywedodd "nad yw'n credu bod hyn wedi'i arddangos gan nad oes manylion wedi'u darparu am lywodraethiant, ffurf na swyddogaeth ehangach Parc Cenedlaethol a fyddai'n rhoi'r hyder y gellid mynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r risgiau hyn yn ddigonol."
- Mae Cyngor Sir Dinbych o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ohirio penderfyniad ar y dynodiad tan ar ôl etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026, pan allai fod mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch adnoddau.
- Mae'r cyngor yn awgrymu y gallai dynodiad fod yn gadarnhaol i'r amgylchedd ac adferiad natur, i'r Gymraeg a'i diwylliant a chymunedau Sir Ddinbych i raddau helaeth, os oes awdurdod Parc Cenedlaethol sydd â digon o adnoddau, a byddai angen iddo fynd i'r afael yn rhagweithiol â'r manteision, y risgiau a'r pwysau posibl, heb fod ar draul gwasanaethau neu gymunedau presennol. Ar hyn o bryd, nid yw'r cyngor yn credu bod digon o fanylion wedi'u darparu am lywodraethiant, ffurf na swyddogaeth ehangach Parc Cenedlaethol a fyddai'n rhoi'r hyder y gellid mynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r risgiau hyn yn ddigonol.
- Pryderon ynghylch amserlenni, trefniadau pontio, a threfniadau ar gyfer gwasanaethau cynllunio a Chynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol, a'r ffaith y gallai Parc Cenedlaethol newydd â phwerau cynllunio llawn danseilio cynrychiolaeth ddemocrataidd leol mewn perthynas â phenderfyniadau cynllunio o fewn ffin y Parc Cenedlaethol yn Sir Ddinbych.
- Pryderon ynghylch sut y byddai dynodiad yn effeithio ar gyllid yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau allweddol a thai ac y byddai'n gwaethygu'r pwysau ar y seilwaith presennol.
- Pryder am y cynnydd mewn perchnogaeth ail gartrefi, a fyddai'n newid cydlyniant presennol cymunedau lleol – llawer ohonynt â theuluoedd a fyddai'n cael eu prisio allan o'u hardal pe bai prisiau eiddo yn cynyddu.

## Cyngor Sir y Fflint

- Mae'r cyngor yn cydnabod rhai o fanteision y cynigion hefyd, fel y'u cydnabuwyd yn ei ymateb cynharach i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024, gan gynnwys mesurau diogelwch cyfreithiol, dull cydlynol o ymdrin â'r hinsawdd a bioamrywiaeth, mwy o fynediad at gyllid, mwy o dwristiaeth, a mynediad i gefn gwlad.
- Pryderon ynghylch diffyg manylion am y mecanweithiau ariannu neu gymorth ariannol sydd eu hangen i greu a gweithredu'r Parc Cenedlaethol.
- Pryderon ynghylch trefniadau llywodraethu, yn enwedig mewn perthynas â'r swyddogaeth rheoli datblygu fyddai gan y Parc Cenedlaethol newydd, a'r risg o ddyblygu adnoddau a'r costau cynyddol fyddai ynghlwm.
- Mae'n tynnu sylw at y diffyg sicrwydd gan Lywodraeth Cymru o ran lefel y cymorth y gall ei darparu.
- Yn tynnu sylw at yr angen i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar unwaith a'r adnoddau/costau fyddai'n gysylltiedig â'r gwaith cynllunio strategol ychwanegol.
- Yn tynnu sylw at y ffaith, heb fesurau lliniaru priodol, y gallai cynnydd yn nifer yr ymwelwyr roi mwy o bwysau ar y seilwaith leol a'r amgylchedd. Er y rhoddwyd eglurhad y gellid gweithredu cynllun lliniaru, mae'r manylion a'r gost ariannol yn parhau i fod yn anhysbys ar hyn o bryd.
- Pryderon y gallai "cynnydd yn y galw am dai gan bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg ynghyd â chynnydd cysylltiedig ym mhrisiau tai … leihau gallu rhai siaradwyr Cymraeg lleol i fforddio cartref yn y Parc Cenedlaethol".

## Cyngor Gwynedd

- Yn datgan bod y cyngor yn gwrthwynebu'r cynnig am Barc Cenedlaethol newydd.
- Yn tynnu sylw at y ffaith bod y Gymraeg yn amlwg yn yr ardal sydd o fewn ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol yng Ngwynedd, ac yn ofni y bydd yn effeithio'n negyddol ar yr iaith o ddydd i ddydd ac y "gallai beryglu'r ffocws sy'n cael ei roi ar ystyried y Gymraeg yn achos cynllunio a pholisi".
- Pryder am ddiffyg eglurder ynghylch y math o wasanaeth cynllunio a fydd yn gweithredu yn y Parc Cenedlaethol a'r effaith negyddol bosibl ar wasanaethau cynllunio presennol.
- Pryderon bod aneddiadau megis Llandderfel wedi'u nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd ar hyn o bryd a bod cynnig iddynt gael eu nodi yng Nghynllun Datblygu Lleol newydd Gwynedd. Mae'r cyngor yn datgan "bod cynnwys Llandderfel yn y cynllun yn risg os bydd yr ardal y tu allan i awdurdod cynllunio Gwynedd yn y dyfodol. Gallai gorfod aros am y penderfyniad i ddynodi'r Parc Cenedlaethol newydd ai peidio gael effaith ar amserlen Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd."
- Pryderon nad yw Llywodraeth Cymru yn cael unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer y Parc Cenedlaethol, ac mae diffyg eglurder ynghylch ble y bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn dod. Pryderon am ddiffyg manylion ynghylch sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei lywodraethu.

- Yn cwestiynu'r cyfiawnhad dros gynnig cynnwys yr ardal o Wynedd ym Mharc Cenedlaethol Glyndŵr gan ei bod wedi'i nodi'n flaenorol fel tir AHNE posibl ar gyfer y Berwyn, yn hytrach na'i chynnwys ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

### Cyngor Sir Powys

- Gwnaed y sylw bod diffyg cydlyniant i'r ardal fel ardal helaeth o harddwch naturiol neu gymeriad y dirwedd, o'i chymharu â Bannau Brycheiniog, Eryri neu Arfordir Penfro.
- Pryderon ynghylch effeithiau economaidd-gymdeithasol y dynodiad, gan nodi prisiau tai uwch a phwysau fforddiadwyedd, a llai o allu i ddarparu tai.
- Yn nodi bod cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal yn gyfyngedig a bod y rhwydwaith hawliau tramwy yn dameidiog, ac y byddai'r nifer cynyddol o ymwelwyr yn gwaethygu tagfeydd.
- Pryderon y byddai angen adnoddau ychwanegol i gefnogi systemau TGCh diwygiedig awdurdodau lleol, a fyddai'n angenrheidiol er mwyn sefydlu awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Pryderon bod y posibilrwydd y bydd y dynodiad yn effeithio'n andwyol ar y gwaith o baratoi ar gyfer cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau o ran rheoli datblygu, gyda diffyg eglurder ynghylch unrhyw drefniadau pontio ac ariannu / colli incwm.
- Yn nodi bod y cyngor eisoes yn wynebu cyfyngiadau cynllunio gan fod dau Barc Cenedlaethol eisoes yn y sir.
- Pryderon y byddai'r mewnlifiad posibl o ymwelwyr yn rhoi pwysau ar y seilwaith casglu a rheoli gwastraff, yn ogystal â gosod cyfrifoldeb ychwanegol ar Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Cymru a'r cyngor i ddarparu gwasanaethau achub a chymorth hanfodol mewn ardaloedd gwledig.
- Pryderon o ran a oes unrhyw fanteision clir i gymunedau lleol, risgiau i fforddiadwyedd tai, democratiaeth leol a gwydnwch economaidd, yn ogystal â diffyg tryloywder parthed costau a llywodraethiant.
- Yn codi'r ffaith y byddai'r awdurdod Parc Cenedlaethol newydd, pe bai'n cael ei ffurfio, yn dod yn awdurdod mynediad ar gyfer y tir comin a'r tir mynediad agored yn awtomatig. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith ei bod yn debygol iawn y bydd y cyngor sir yn parhau i fod yn gyfrifol am gofrestru tir comin, gan y byddai rhannu'r cofrestrau yn broses gymhleth iawn.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

- Yn datgan y bydd angen i "awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill gyflawni dyletswyddau statudol o fewn ffin y Parc Cenedlaethol, megis cynnal a chadw priffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, darparu toiledau cyhoeddus a chasglu sbwriel. Bydd y pwysau ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn effeithio ar y galw am wasanaethau a chyllidebau awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill, nad oes darpariaeth ar ei gyfer yng nghyllid llawn Llywodraeth Cymru ar gyfer Parc Cenedlaethol."
- Yn datgan "nad oes eglurder ynghylch yr effaith ar y Gymraeg, fforddiadwyedd tai na darparu gwasanaethau cynllunio".

## 7.6 Arolwg annibynnol a gynhaliwyd gan ddau o gynghorwyr Wrecsam

Cynhaliodd dau gynghorydd yn ardal Wrecsam arolwg annibynnol, gan gyflwyno 1,017 o ymatebion i CNC. Nid oedd hyn yn rhan o ymgynghoriad CNC. Cwblhawyd yr arolygon mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd a oedd yn wahanol iawn o ran methodoleg o'i gymharu ag ymgynghoriad CNC. Roedd gan CNC bryderon ynghylch methodoleg a materion diogelu data a olygai na ellid integreiddio'r arolygon ar wahân hyn yn deg fel ymatebion unigol i'r ymgynghoriad statudol. Fodd bynnag, fe wnaeth CNC adolygu'r data a chynnwys ansensitif yr ymatebion cyn eu dychwelyd at y sawl a'u hanfonodd.

Roedd y themâu a godwyd yn fras adlewyrchu'r rhai a fynegwyd eisoes yn ymgynghoriad CNC, ac yn cyfeirio at gost a fforddiadwyedd o'i gymharu â meysydd gwasanaeth eraill megis y GIG a thoiledau cyhoeddus, biwrocratiaeth ychwanegol a chyfyngiadau cynllunio a rheoleiddio, goblygiadau'r nifer cynyddol o ymwelwyr ar aneddiadau a seilwaith, diffyg cynnal a chadw'r seilwaith ffyrdd presennol, mynediad cyhoeddus a defnydd cerbydau 4x4, goblygiadau ar gyfer ffermio, ac effaith ar fforddiadwyedd tai, i bobl ifanc yn benodol. Amlygwyd yn benodol y pwysau presennol y mae ymwelwyr yn eu rhoi ar Lanrhaeadr-ym-Mochnant, Llangollen, a Safle Treftadaeth y Byd, Froncysyllte. Gwnaed cymariaethau hefyd â'r pwysau mewn Parciau Cenedlaethol presennol megis Eryri.

Bydd effaith debygol Parc Cenedlaethol, a chynllun rheoli awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer y materion hyn a materion eraill, yn cael ei hystyried ymhellach fel rhan o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru a/neu ymchwiliad cyhoeddus lleol *(gweler 'Ystyriaethau ehangach' yn Adran 8.4*

# 8 Ymateb CNC i ganfyddiadau'r ymgynghoriad

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithio gydag Arup a Grasshopper i brosesu a dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a chyda'u cymorth mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gallu adolygu ac ystyried pob sylw, gwrthwynebiad a sylwadaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.

Mae cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r profion statudol a'r meini prawf ar gyfer dynodi. Hyn yn unig ddylai fod yn sail i benderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd materion eraill nad ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r profion statudol yn cael eu hystyried yn briodol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Asesiad Effaith Integredig, a/neu ymchwiliad cyhoeddus lleol, ac i lywio'r penderfyniad terfynol ehangach ar y dynodiad gan Lywodraeth Cymru.

O gofio'r ystod eang o faterion sy'n effeithio ar yr ardal, mae'n anochel nad oedd y mwyaf o'r ymatebion yn ymwneud yn uniongyrchol â'r profion statudol ar gyfer dynodiad. Cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o asesiadau i helpu i fynd i'r afael â thrafodaethau a llywio'r materion ehangach hyn y tu hwnt i'r profion statudol. Amlinellir y gwaith hwn yn *Adran 8.5* isod. Yr ymatebion sy'n ymwneud â'r profion statudol yw'r rheini sy'n berthnasol i gyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru, ac felly maent yn ystyriaethau perthnasol i benderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 8.1 Ystyriaethau perthnasol – y profion statudol ar gyfer dynodiad

Yr ystyriaethau perthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru o ran a ddylid dynodi Parc Cenedlaethol yw'r rheini a nodir yn adran 5 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y profion statudol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Ei harddwch naturiol; a'r
- Cyfleoedd y mae'r ardal yn eu cynnig ar gyfer hamdden awyr agored, gan ystyried ei chymeriad a'i safle mewn perthynas â chanolfannau poblogaeth;
- A yw'n arbennig o ddymunol cymryd y mesurau angenrheidiol i wneud y canlynol:

  gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal benodedig

  hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardaloedd hynny

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried pob sylw, gwrthwynebiad a sylwadaeth a gyflwynwyd i ni yn erbyn y meini prawf dynodi.

## 8.2 Dadansoddiad o ymateb yr awdurdodau lleol

Cododd yr awdurdodau lleol themâu cyffredin yn ymwneud ag ansicrwydd ynghylch cyllid a darparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol, llywodraethiant, trefniadau cynllunio, seilwaith a rheoli ymwelwyr, fforddiadwyedd tai, a'r effaith ar y Gymraeg.

Roedd Sir Ddinbych o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ohirio penderfyniad ar y dynodiad tan ar ôl etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026, pan allai fod mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch adnoddau.

Nid yw'r materion hyn o fewn cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru a rhaid eu hystyried fel rhan o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru neu ymchwiliad cyhoeddus lleol, neu yn ystod y broses sefydlu neu, o bosibl, o fewn cynllun rheoli Parc Cenedlaethol.

Cododd rhai ymgyngoreion statudol wrthwynebiadau a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r profion statudol.

Heriodd Cyngor Sir Powys y gwerthusiad o harddwch naturiol a'r cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adolygu'r sylwadau hyn a'r dystiolaeth. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon nad yw'r pwyntiau a godwyd gan Bowys yn newid ein gwerthusiad a'n tystiolaeth yn sylweddol, na'r ffordd y mae ardaloedd sy'n bodloni'r meini prawf statudol wedi'u tynnu ynghyd o fewn ardal gydlynol er mwyn dynodi Parc Cenedlaethol. I esbonio casgliadau Cyfoeth Naturiol Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi ymateb manwl yn *Atodiad 3*.

Os oes gwrthwynebiadau gan awdurdod lleol statudol nad ydynt yn cael eu tynnu'n ôl cyn cyflwyno gorchymyn i'w gadarnhau, rhaid i Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliad cyhoeddus lleol.

## 8.3 Dadansoddiad mewn perthynas â'r ffin arfaethedig

Daeth nifer o themâu ymgynghori i'r amlwg mewn perthynas â'r ffiniau arfaethedig.

### Heriau i'r asesiad, y dystiolaeth ac, yn eu tro, y tirweddau a gynhwyswyd i'w dynodi

Codwyd sylwadau gan Gyngor Sir Powys a Chyngor Sir Gwynedd, y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol, grwpiau cynrychioliadol fel y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau, RenewableUK Cymru, datblygwyr unigol (Tarmac a chynrychiolwyr tirfeddianwyr yn yr ardal), Haven Leisure Limited, ac Ystad Nant-y-clwyd.

Ar ôl adolygu'r dystiolaeth, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon nad yw'r pwyntiau a godwyd gan Bowys a Gwynedd fel ymgyngoreion statudol, neu grwpiau cynrychioliadol, datblygwyr unigol a chynrychiolwyr ystadau yn yr ardal, yn newid ein gwerthusiad a'n tystiolaeth o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yn sylweddol na'r ffordd mae ardaloedd sy'n bodloni'r meini prawf statudol wedi'u tynnu ynghyd o fewn ardal gydlynol er mwyn dynodi Parc Cenedlaethol. Mae ymatebion manwl Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u nodi yn *Atodiad 3*.

### Ceisiadau am newidiadau i'r ffiniau i gynnwys ardaloedd ychwanegol

Codwyd sylwadau gan unigolion, aelodau'r gymuned, a chynghorwyr sydd â diddordeb penodol yn eu hardal leol. Dyma rai o'r pethau a grybwyllwyd:

- Caeau gerllaw twyni Gronant a Thalacre
- Gweddillion posibl Clawdd Offa (dyffryn Aberchwiler)
- Cwm Ysgeifiog (dyffryn Aberchwiler)
- Mynydd Helygain
- Park in the Past, Castell Caergwrle a Chwm Ffridd (Mynydd yr Hôb)

- Dyffryn Clwyd
- Coedwig Clocaenog
- Dyffryn Clywedog (Coed-poeth)
- Caeau ar bwys Traphont Ddŵr y Waun
- Mynydd Mynyllod
- Dyffryn Dyfrdwy uchaf, Llandrillo ac Ystad y Rug
- Dyffryn Tanat
- Cymoedd Cain, Efyrnwy, Banwy a Meifod

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried pob cyflwyniad yn ofalus, wedi cynnal adolygiad manwl o'r dystiolaeth a gyflwynwyd, wedi'i hadolygu yn erbyn y meini prawf dynodi, ac, yn achos safleoedd mwy, wedi gwerthuso hyn yn y maes.  Mae ein hymatebion manwl wedi'u hamlinellu yn *Atodiad 3*.

### Ceisiadau am newidiadau i'r ffiniau i amddiffyn y dirwedd rhag datblygiad

Daeth sylwadau gan grwpiau gweithredu lleol fel Dee Valley Environmental Network a Sir Drefaldwyn yn Erbyn Peilonau.

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru: nid yw'r ffaith bod tirweddau mewn perygl o gael eu datblygu yn rhywbeth y gellir defnyddio dynodiad i fynd i'r afael ag ef gan nad oes lle i ystyried ffactorau y tu allan i'r profion statudol. Mae ymatebion manwl Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hamlinellu yn *Atodiad 3*.

At ei gilydd, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon bod y ffiniau arfaethedig yn diffinio ardal briodol y gellir ei chyfiawnhau ar gyfer Parc Cenedlaethol Glyndŵr. Felly nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig diwygio'r ffiniau arfaethedig.

### Sylwadau a wnaed mewn perthynas â mecanweithiau rheoli amgen

Fel rhan o asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru, ystyriodd Cyfoeth Naturiol Cymru a oes mecanweithiau rheoli amgen. Gwerthusodd adolygiad gan Land Use Consultants (LUC) bum mecanwaith amgen yn yr adroddiad Grymoedd dros Newid. Roedd y rhain fel a ganlyn: busnes fel arfer, partneriaethau tirwedd megis Parc Rhanbarthol y Cymoedd a Bwrdd Rhanbarthol De'r Penwynion, Tirwedd Genedlaethol a chanddi / heb fwrdd cadwraeth, a Pharc Cenedlaethol.

Daeth adroddiad LUC i'r casgliad bod y mecanweithiau, y pwerau a'r dyletswyddau rheoli sydd ynghlwm wrth Barc Cenedlaethol statudol yn cynnig y mecanwaith mwyaf cadarn ar gyfer rheoli materion cyfredol a materion y dyfodol yn effeithiol yn yr hirdymor, a hynny'n well na'r trefniadau presennol, trwy ddiogelwch cyllid hirdymor, swyddogaethau cynllunio a'i gynllun rheoli.

#### Dynodi Parc Cenedlaethol yn erbyn dynodi Tirwedd Genedlaethol, a'r 'dymunoldeb' i'w ddynodi

Wrth benderfynu a ddylid cynnig Parc Cenedlaethol neu Dirwedd Genedlaethol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal prawf cymalog ac wedi ystyried a yw'r achos dros ddynodi yn 'ddymunol' neu'n 'arbennig o ddymunol'.

Mae’r prawf cymalog yn ymwneud â’r meini prawf dynodi statudol. Er mwyn i ardal gael ei hystyried yn Dirwedd Genedlaethol, mae’n rhaid meddu ar dystiolaeth bod gan yr ardal harddwch naturiol o arwyddocâd cenedlaethol. Er mwyn i ardal gael ei hystyried yn Barc Cenedlaethol, mae’n rhaid meddu ar dystiolaeth bod gan yr ardal harddwch naturiol o arwyddocâd cenedlaethol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored.  Yn erbyn y prawf cymalog hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon bod yr ardal arfaethedig yn bodloni meini prawf statudol i’w dynodi’n Barc Cenedlaethol.

Wrth ystyried a yw’n ‘ddymunol’ neu’n ‘arbennig o ddymunol’ i’w dynodi, mae arwyddocâd harddwch naturiol yr ardal, ei rhinweddau arbennig, y grymoedd dros newid, anghenion cadwraeth a gwella’r ardal, a pha mor effeithiol yw’r mecanweithiau rheoli sydd ar gael i gyd yn berthnasol.

Fel yr amlinellwyd uchod, fe ddaeth adroddiad LUC i’r casgliad mai Parc Cenedlaethol statudol oedd yn cynnig y mecanwaith mwyaf cadarn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried ei bod yn ‘arbennig o ddymunol’ dynodi Parc Cenedlaethol.

I gloi, glynodd proses CNC wrth y weithdrefn statudol, gan ddilyn cyngor cyfreithiol. Mae hyn wedi golygu, pan fo’r profion statudol ar gyfer dynodi Parc Cenedlaethol wedi’u bodloni, yna Parc Cenedlaethol yw’r dynodiad perthnasol. Dim ond pe na bai’r prawf statudol ar gyfer Parc Cenedlaethol wedi’i fodloni y byddai dynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (Tirwedd Genedlaethol) wedi cael ei ystyried.

## 8.4 Enwi’r Parc Cenedlaethol arfaethedig

Roedd rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru nodi enw ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd posibl er mwyn galluogi paratoi gorchymyn dynodi, pe bai Gweinidogion yn penderfynu bwrw ymlaen â’r dynodiad yn y pen draw. Yn 2024, bu Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid perthnasol i lunio rhestr fer o’r opsiynau addas ar gyfer yr enw a oedd yn bodloni meini prawf allweddol, gan gynnwys bod yn Gymraeg neu’n ddwyieithog, a bod â pherthnasedd daearyddol, hanesyddol neu ddiwylliannol clir i’r ardal dan sylw. Defnyddiwyd adborth gan Banel Safoni Enwau Lleoedd Cymru i fireinio’r rhestr hon i ddau opsiwn a ffefrir. Cyflwynwyd y rhain mewn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024, gan wahodd ymatebwyr i gynnig awgrymiadau ychwanegol hefyd.

Dangosodd ymgynghoriad 2024 mai Glyndŵr oedd yr enw a ffefrid yn bennaf. Cyhoeddwyd manylion llawn y broses arfarnu, yr enwau a ystyriwyd, a chanlyniadau’r ymgynghoriad fel rhan o’r deunyddiau ategol ar gyfer ymgynghoriad statudol 2025.

Yn ystod ymgynghoriad statudol 2025, fe wnaeth 21 o ymatebwyr sylwadau ynghylch yr enw arfaethedig: 10 o blaid ac 11 yn erbyn. Tynnodd y sylwadau cefnogol sylw at botensial yr enw i hyrwyddo’r Gymraeg ac adlewyrchu hanes y rhanbarth. Awgrymodd y sawl a fynegodd bryderon y gallai’r enw fod yn gynhennus, ac y gallai enw sy’n canolbwyntio’n fwy ar ddisgrifio’r ddaearyddiaeth fod yn fwy priodol. Roedd Panel Safoni Enwau Lleoedd Cymru eisoes wedi ystyried yr ymholiad hwn yn 2024, a ddaeth i’r casgliad bod y defnydd o “Glyndŵr” eisoes wedi’i hen ymsefydlu mewn sawl cyd-destun cyfoes, yn hanesyddol ac yn ddaearyddol, ac felly nad oedd yn rhwystr i’w fabwysiadu.

Yn seiliedig ar ddadansoddiad o dystiolaeth yr ymgynghoriad, ni ddaeth unrhyw sail resymegol newydd i'r amlwg i warantu ailystyried yr enw Glyndŵr.

## 8.5 Ystyriaethau ehangach

Nid oedd y mwyaf o'r materion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ymwneud yn uniongyrchol â'r profion statudol sy'n ofynnol i gyfiawnhau'r gorchymyn dynodi. Gellid disgwyl yn rhesymol hefyd y byddai llawer o ardaloedd yn dod o dan, neu'n elwa ar, y rheolaeth integredig a diogelwch ariannu dros yr hirdymor y mae awdurdod Parc Cenedlaethol yn eu darparu. Er eu bod y tu allan i'r profion statudol, ac felly y tu allan i'r ystyriaethau perthnasol ar gyfer penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru, gallant fod yn berthnasol i benderfyniad terfynol Llywodraeth Cymru. Felly, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o asesiadau i helpu i lywio'r ddadl gyhoeddus ar y materion hyn yn well. Roedd yr asesiadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Adroddiad Buddion i Natur
- Adroddiad o'r Effaith Economaidd
- Adolygiad o'r broses gynllunio yng nghyd-destun Parc Cenedlaethol
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yn gyffredinol, roedd yr asesiadau hyn yn nodi risgiau a chyfleoedd; ni wnaethant nodi unrhyw effaith negyddol y gall CNC yn rhesymol dybio na fyddai Parc Cenedlaethol yn gallu ei rheoli, ac mae llawer o'r cyfleoedd o fewn gallu realistig awdurdod Parc Cenedlaethol sydd wedi'i ariannu a'i lywodraethu'n briodol i fynd i'r afael â hwy'n gadarnhaol.

Fodd bynnag, nid Cyfoeth Naturiol Cymru yw cynghorydd Llywodraeth Cymru ar yr holl faterion hyn, ac felly nid bwriad yr asesiadau yw gwasanaethu fel yr unig sail ar gyfer penderfyniad, ond yn hytrach i helpu i lywio dadl gyhoeddus yn ystod ymgynghoriadau Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei Hasesiad Effaith Integredig ei hun i lywio'r broses ddilynol o wneud penderfyniadau os bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno gorchymyn dynodi.

Am y rheswm hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adolygu pob ymateb, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn ymwneud â'r meini prawf y mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gyfyngu ei ystyriaethau iddynt.

# 9 Crynodeb

Mae'r asesiad a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod y Parc Cenedlaethol arfaethedig, sef Parc Cenedlaethol Glyndŵr, yn cwmpasu ardal helaeth sy'n bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer dynodi, o ran ei harddwch naturiol a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig ar gyfer hamdden awyr agored. Ar ôl adolygu pob ymateb i'r

ymgynghoriad a'r dystiolaeth ategol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon bod y ffiniau arfaethedig yn ffurfio ardal gydlynol y gellir ei chyfiawnhau i'w dynodi.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy gydol y broses ddynodi, gan gynnwys yr adroddiad ar rinweddau arbennig, yr adroddiad Grymoedd dros Newid, a chanfyddiadau o'r gwahanol gamau ymgysylltu ac ymgynghori, yn tynnu sylw at nifer o bwysau sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n dod i'r amlwg ar y dirwedd a'i rhinweddau arbennig. Daeth dadansoddiad o'r opsiynau rheoli i'r casgliad bod Parc Cenedlaethol, gyda'i bwerau, ei ddyletswyddau a'i gyllid hirdymor pwrpasol, yn cynnig y fframwaith mwyaf cadarn ac effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â'r pwysau hyn yn y dyfodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod safbwyntiau ar y cynnig yn parhau i fod yn amrywiol. Roedd pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn ymwneud â chyllid, cynllunio, ffermio a'r defnydd o'r tir, rheoli ymwelwyr, seilwaith, tai, a'r Gymraeg. Pwysleisiodd ymatebwyr eraill, yn enwedig y rheini a oedd yn cynrychioli buddiannau amgylcheddol, treftadaeth a hamdden, y cyfleoedd y gallai Parc Cenedlaethol eu darparu ar gyfer adfer natur, gwydnwch hinsawdd, mynediad gwell, a rheoli ymwelwyr yn well. Drwy'r broses, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ceisio rhoi eglurder ar faterion y tu allan i'w gylch gwaith statudol, gan dynnu ar asesiadau allanol, gan gynnwys gwaith ARUP ar y goblygiadau o ran yr economi a'r broses gynllunio, a'r asesiadau o effaith a gyhoeddwyd i wella dealltwriaeth y cyhoedd. Cynigiodd datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog eglurder ychwanegol hefyd ynghylch y cyllid y byddai ar gael yn y dyfodol ar gyfer awdurdodau lleol a'r awdurdodau Parciau Cenedlaethol sy'n bodoli eisoes.
Cyflwynwyd crynodeb dadansoddi i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i ategu ei benderfyniad ar 12 Ionawr ynghylch gwneud gorchymyn dynodi.

Ar ôl ystyriaeth ofalus, fe gytunodd y bwrdd i wneud y gorchymyn dynodi ac i ddechrau'r cyfnod hysbysu cyhoeddus statudol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r gorchymyn, a'r map cysylltiedig, wedi bod ar gael yn lleol ac ar-lein, gan roi cyfle pellach i gyflwyno sylwadau ffurfiol cyn eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w hystyried ymhellach.

Wrth gyflwyno'r gorchymyn, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn darparu'r sail dystiolaeth lawn sy'n ymwneud â'r meini prawf dynodi statudol, yr asesiadau ehangach a gynhyrchwyd i lywio'r dadl gyhoeddus, a'r dadansoddiad cyflawn o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, yn ogystal â'r gwrthwynebiadau. Bydd yr wybodaeth hon yn cefnogi Llywodraeth Cymru i ddod i benderfyniad ar sail gwybodaeth, a bydd hefyd ar gael i gefnogi unrhyw ymchwiliad cyhoeddus lleol sy'n dilyn hyn, y broses sefydlu, a datblygu cynllun rheoli, pe bai Gweinidogion yn penderfynu cadarnhau'r dynodiad.

# 10 Sylwadau i gloi

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiolchgar i bob unigolyn, sefydliad ac ymgynghorai statudol a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad, ac i Arup a Grasshopper am eu gwaith yn dadansoddi'r ymatebion.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



# Ymateb i'r Ymgynghoriad Statudol

15 Medi – 8 Rhagfyr 2025

Gorchymyn (Dynodi) Parc Cenedlaethol Glyndŵr 2025 (arfaethedig)

cyfoethnaturiol.cymru



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Rhan 1 | |
| Cefndir y Cynnig | 6 |
| Ardal Chwilio ar gyfer Parc Cenedlaethol Newydd Posibl | 8 |
| Cyfnod Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2023 | 8 |
| Nodweddion Arbennig yr Ardal Chwilio | 8 |
| Grymoedd dros Newid yn yr Ardal Chwilio | 10 |
| Gwerthuso Opsiynau Rheoli | 11 |
| Gwerthuso Ardaloedd Tirwedd | 12 |
| Ardal Ymgeisiol | 12 |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024 | 12 |
| Dadansoddiad Ffiniau 2025 | 13 |
| Map Parc Cenedlaethol Glyndŵr Arfaethedig (2025) | 14 |
| Enw ar Gyfer y Dynodiad Arfaethedig | 15 |
| Tystiolaeth Gefnogol | 16 |
| Manteision ac Anfanteision Posibl Parc Cenedlaethol Newydd | 18 |
| Sylwadau Cloi | 26 |
| Rhan 2 | |
| Ymateb i'r Ymgynghoriad Statudol | 28 |
| Ynglŷn â'ch Adborth | 30 |
| Parc Cenedlaethol Glyndŵr Arfaethedig | 32 |
| Ystyriaethau o Ran y Gymraeg | 34 |
| Amdanoch Chi | 36 |



# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon wedi'i rhannu'n ddwy ran.

## RHAN 1

Mae'r rhan gyntaf yn cyflwyno crynodeb byr o'r asesiadau a gynhaliwyd a'r dystiolaeth a gasglwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wrth werthuso'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd arfaethedig.

## RHAN 2

Yr ail ran yw lle gallwch ymateb i'r ymgynghoriad statudol ar Gorchymyn (Dynodi) Parc Cenedlaethol Glyndŵr 2025 (arfaethedig).



**Hygyrchedd:** Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, anfonwch e-bost at **rhaglen.tirweddau.dynodedig@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** a bydd CNC yn gwneud eu gorau i helpu.

RHAN 1

# Cefndir y Cynnig

Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021-2026), nododd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd i Gymru. CNC yw cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar dirwedd a'r awdurdod dynodi ar gyfer unrhyw Barciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol newydd.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru CNC i werthuso'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gynt).


Mae CNC yn sefydliad annibynnol a bydd yn gwneud argymhelliad annibynnol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd a'r goblygiadau i ddinasyddion Cymru. Bydd y broses a'r profion statudol yn cael eu cymhwyso.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae CNC wedi bod yn gwerthuso'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd yng Nghymru. Mae'r gwaith wedi cynnwys casglu data a thystiolaeth, ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill.

Mae canllawiau gweithdrefnol CNC: GN010 wedi llywio'r weithdrefn asesu. Gweler y ddogfen *Canllawiau Gweithdrefnol* am fanylion llawn (sydd ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).



## Proses CNC o Werthuso'r Parc Cenedlaethol



# Ardal Chwilio ar gyfer Parc Cenedlaethol Newydd

Yn 2023, fe wnaethon ni nodi Ardal Chwilio ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd posibl, gan ddechrau gyda Thirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, sydd eisoes wedi'i chydnabod am ei Harddwch Naturiol. Fe wnaethom gymhwyso dadansoddiad gofodol, a mapio gan gynnwys y set ddata LANDMAP i nodi ardaloedd a allai fod yn haeddu cael eu cynnwys.

Gweler yr *Adroddiad Ardal Chwilio* am fanylion llawn (ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).

# Cyfnod Ymgysylltu a'r Cyhoedd 2023

Fe wnaethon ni gynnal cyfnod ymgysylltu cyhoeddus am 7 wythnos yn 2023 a oedd yn cynnwys digwyddiadau ar-lein a galw heibio ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid targedig. Bwriad hyn oedd meithrin dealltwriaeth o faterion lleol, ac roedd yn cynnwys rhannu Map Ardal Chwilio cychwynnol. Cafwyd 966 o ymatebion i'r holiadur, ac roedd mwyafrif bach o'r ymatebwyr o blaid Parc Cenedlaethol newydd.

Y themâu a grybwyllwyd amlaf a nodwyd o'r dadansoddiad oedd:

1. Cadwraeth tirwedd, Cydnabyddiaeth i'r ardal, Tawelwch.
2. Bywyd Gwyllt, Amaethyddiaeth a rheoli tir, Amgylchedd a Chynaliadwyedd.
3. Twristiaeth, Gwasanaethau cyhoeddus, a Seilwaith.
4. Angenrheidrwydd am newid, Rheoli a rheolaethau, Costau, Cyllid, Biwrocratiaeth.
5. Pobl leol a chymunedau, Economi Leol.
6. Materion mynediad a Hamdden awyr agored.
7. Tai.
8. Diwylliant a Threftadaeth.
9. Goblygiadau cynllunio.
10. Ymholiadau ynghylch ffiniau.
11. Angen am fwy o wybodaeth.

O ganlyniad i adborth gan randdeiliaid, ychwanegwyd nifer o feysydd i'w hasesu ymhellach i lywio'r Ardal Ymgeisiol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024.

Gweler *Adroddiad Cyfnod Ymgysylltu 2023* am fanylion llawn (ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).



# Rhinweddau Arbennig yr Ardal Chwilio

Fe wnaethom gomisiynu Craggattack Consulting i nodi rhinweddau arbennig yr Ardal Chwilio. Defnyddiodd y broses ymchwil bwrdd gwaith, gweithdai, ymgysylltiad diwylliannol, adroddiadau hanesyddol, data LANDMAP, strategaethau lleol, a mewnbwn y cyhoedd.

Nodwyd chwe rhinwedd ddiffiniol:

- Gofod ysbrydoledig sy'n hyrwyddo iechyd a lles meddyliol, corfforol ac ysbrydol.
- Lle gyda chymunedau cydlynol a phatrymau anheddu nodedig.
- Stori am ryngweithio dynol â'r dirwedd dros filoedd o flynyddoedd.
- Cartref i rywogaethau a chynefinoedd pwysig yn rhyngwladol ac yn lleol.
- Tirwedd nodedig, ategol a chyferbyniol.
- Tirwedd sy'n darparu manteision y tu hwnt i'w ffiniau.

Gweler yr *Adroddiad Rhinweddau Arbennig* am fanylion llawn (sydd ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).



# Grymoedd dros Newid yn yr Ardal Chwilio

Yn 2024, fe wnaethom gomisiynu Ymgynghorwyr Defnydd Tir i asesu'r grymoedd dros newid, presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg, sy'n effeithio ar y rhinweddau arbennig o fewn yr Ardal Chwilio.

Nodwyd pum prif gategori newid:

1. **Newid hinsawdd** – grym trawsbynciol sy'n dylanwadu ar bob un arall, gan gynnwys effeithiau ac ymdrechion addasu/lliniaru.

2. **Datblygiad adeiledig a seilwaith** – sy'n cwmpasu tai, diwydiant, trafnidiaeth, ynni adnewyddadwy, mwynau a gwastraff.

3. **Rheoli tir a'r amgylchedd naturiol** – gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, arallgyfeirio incwm a stiwardiaeth amgylcheddol.

4. **Cymunedau cynaliadwy a threftadaeth ddiwylliannol** – mynd i'r afael â newidiadau demograffig, tai, cyflogaeth, traddodiadau diwylliannol a defnydd o'r iaith Gymraeg.

5. **Rheoli ymwelwyr a thwristiaeth** – sy'n cwmpasu mwy o hamdden, ei bwysau ar gymunedau lleol a natur, a'r seilwaith sydd ei angen i'w gefnogi.

Gweler yr *Adroddiad Grymoedd Dros Newid* am fanylion llawn (ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).





# Gwerthusiad o Opsiynau Rheoli

Comisiynwyd Ymgynghorwyr Defnydd Tir hefyd i gymharu pum opsiwn rheoli ar gyfer mynd i'r afael â'r grymoedd dros newid a nodwyd:

1. **Busnes fel arfer** – dim newid i'r trefniadau presennol.

2. **Parc Rhanbarthol y Cymoedd** – enghraifft o fodel partneriaeth sydd wedi'i anelu at wella'r amgylchedd a chymdeithas.

3. **Parc Rhanbarthol De'r Pennines** – enghraifft o barc cenedlaethol blaenorol a ddarparwyd a ddygwyd ymlaen fel parc rhanbarthol trwy ddull partneriaeth.

4. **Bwrdd Cadwraeth Tirwedd Cenedlaethol** – model Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gwell gyda'i ddyletswyddau llywodraethu a hamdden ei hun, e.e. y Chilterns a'r Cotswolds.

5. **Parc Cenedlaethol** – yn cynnig pwerau ehangach, cefnogaeth statudol, a mwy o ddiogelwch ariannu.

Daeth y dadansoddiad cymharol i'r casgliad mai Parc Cenedlaethol a Bwrdd Tirwedd Cenedlaethol estynedig gyda Cadwraeth oedd yr unig fframweithiau hyfyw ar gyfer rheoli'r grymoedd dros newid. Mae'r Parc Cenedlaethol yn fwy cadarn oherwydd ei bwerau cynllunio statudol, cyllid llywodraeth diogel, a strwythurau rheoli profedig.

Gweler yr *Adroddiad Opsiynau Rheoli* am fanylion llawn (sydd ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).



# Gwerthusiad o Ardaloedd Tirwedd

Er mwyn sefydlu a oes darn addas a helaeth o dir sy'n bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer dynodiad, fe wnaethom gomisiynu Gillespies LLP (mewn partneriaeth â Ffiona Fyfe Associates Ltd a Countryscape) i gynnal gwerthusiad tirwedd manwl. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau safle helaeth a dadansoddiad o ddata o bell ac arweiniodd at rai ardaloedd, o fewn yr Ardal Chwilio gychwynnol, yn cael eu heithrio a rhai ardaloedd yn cael eu hychwanegu i greu'r Ardal Ymgeisiol.

Gweler yr *Adroddiad Meysydd Gwerthuso* am fanylion llawn (ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).

# Ardal Ymgeisiol

Darparodd adroddiad a map yr Ardal Ymgeisiol y manylion ar gyfer ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol a ffurfiodd y sail ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024.

Gweler yr *Adroddiad Ardal Ymgeisiol* am fanylion llawn (ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).

# Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024

Fe wnaethon ni gynnal ymgynghoriad cyhoeddus am 10 wythnos yn 2024, ar yr Ardal Ymgeisiol a derbyniodd 1,960 o ymatebion. Roedd cydnabyddiaeth gref o'r meini prawf cymhwyso ar gyfer Parc Cenedlaethol er nad oedd hyn bob amser yn trosi'n gefnogaeth i'r dynodiad. Roedd mwyafrif o tua 10% o'r ymatebwyr o blaid Parc Cenedlaethol newydd.

Roedd y materion allweddol yn fras yn debyg i'r rhai a nodwyd yn 2023. Llywiodd adborth lawer o'r asesiadau canlynol ac fe ysgogodd adolygiad o'r dystiolaeth yn ymwneud â'r ffin.

Gweler *Adroddiad Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024* am fanylion llawn (ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).



# Dadansoddiad Ffiniau 2025

Mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd yn ymgynghoriad cyhoeddus 2024, fe wnaethom adolygu dadansoddiad Tirwedd Gillespie, canfyddiadau'r adroddiad Manteision Natur a chynnal cyfres o ymweliadau safle.


O ganlyniad, mae ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr:

- Bellach yn cynnwys Twyni Gronant a Thalacre.
- Wedi'i mireinio i ddal ardal gydlynol o harddwch naturiol yn well o fewn ucheldiroedd yr ardal, dyffrynnoedd croestoriadol ac ymyl arfordirol.
- Yn eithrio ardal fawr o iseldiroedd sefydlog o fewn Powys.

Mae ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol 2025 yn cynrychioli bar uwch ar gyfer bodloni'r meini prawf statudol. Rydym o'r farn bod y diwygiadau'n gwella cydlyniant ac amddiffynadwyedd y ffin arfaethedig ac yn gwella aliniad â gofynion dynodiad statudol.

Gweler yr *adroddiad Asesiad Terfynol o dir i'w ddynodi* am fanylion llawn (sydd ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).






# Enw ar Gyfer y Dynodiad Arfaethedig

Os bydd y dynodiad yn mynd rhagddo, yna rhaid i CNC gynnwys enw yn y Gorchymyn Dynodi. Felly mae proses ymgynghori drylwyr ar enw addas wedi digwydd. Mae hyn wedi cynnwys:

- Grŵp 'Enwi safleoedd a lleoedd a Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol' CNC
- Y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Hynafol a Hanesyddol Cymru
- Llywodraeth Cymru (CADW, Croeso Cymru a Pholisi'r Iaith Gymraeg)
- Panel Safoni Enwau Lleoedd Cymru
- Ymgynghoriad cyhoeddus 2024

Roedd adborth gan gynghorwyr a'r mwyafrif yn yr ymgynghoriad cyhoeddus o blaid:

## Parc Cenedlaethol – Glyndŵr

Felly, rydym wedi defnyddio'r enw hwn at ddiben paratoi Gorchymyn Dynodi Drafft.

Gweler yr *Adroddiad Enwi'r Parc Cenedlaethol* newydd arfaethedig yng Nghymru am fanylion llawn (sydd ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).



# Tystiolaeth Gefnogol

Cwblhawyd cyfres o asesiadau cefnogol er mwyn llywio gwneud penderfyniadau ac ymdrin â phryderon a godwyd gan randdeiliaid.

Crynhoir y gwaith hwn yn fyr yma, mae'r adroddiadau llawn hefyd ar gael ar ein gwefan.

## Natur

Fe wnaethom asesu sut y gallai Parc Cenedlaethol newydd gefnogi bioamrywiaeth, adferiad natur, a gwasanaethau ecosystem o fewn fframweithiau polisi Cymru. Gyda dim ond 31% o dir yn gynefin lled-naturiol a dros 60% o nodweddion allweddol yn dirywio ar hyn o bryd, mae angen gweithredu ar frys yn yr ardal i atal a gwrthdroi'r duedd bryderus hon. Mae'r ardal yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau hanfodol sy'n peri pryder. Mae statws Parc Cenedlaethol yn cynnig llwyfan cyfreithiol i gyflawni adferiad cydlynol, gwydnwch hinsawdd, a lles, gyda chefnogaeth Cynllun Adfer Natur, cyllid, a llywodraethu. Mae astudiaethau achos yn dangos sut mae llwyddiant mewn adferiad, ffermio, a chadwraeth yn gyraeddadwy gyda statws Parc Cenedlaethol.

Gweler yr *Adroddiad Manteision Natur* am fanylion llawn (ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).

## Iechyd

Mae'r Asesiad Effaith Iechyd yn archwilio sut y gallai dynodiad Parc Cenedlaethol effeithio ar iechyd y cyhoedd, ansawdd yr amgylchedd, a chyfle economaidd, gan gefnogi nodau polisi Cymru. Mae'r manteision yn cynnwys gwell mynediad at natur, gwydnwch hinsawdd, creu swyddi, a chadwraeth ddiwylliannol. Mae'r heriau'n cynnwys risgiau allgáu cymdeithasol, pwysau tai, a straen ar seilwaith a gwasanaethau brys. Er bod llawer o'r problemau eisoes yn bodoli, mae Parc Cenedlaethol sy'n cael ei reoli'n dda yn cynnig offeryn strategol i gydlynu atebion, cefnogi amaethyddiaeth gynaliadwy, a chyflawni canlyniadau iechyd ac amgylcheddol mwy integredig. Mae llwyddiant yn dibynnu ar weithredu polisïau priodol yn effeithiol ac yn gynhwysol mewn cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol.

Gweler yr *Asesiad Effaith Iechyd* am fanylion llawn (sydd ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).

## Y Gymraeg

Canfu Asesiad Effaith ar y Iaith Gymraeg y gallai dynodiad Parc Cenedlaethol wella gwelededd a defnydd y Gymraeg drwy wasanaethau dwyieithog, cyflogaeth a hyrwyddo diwylliannol. Bydd Strategaeth y Iaith Gymraeg yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol a gallai hyn helpu i gynnal cymunedau sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r risgiau'n cynnwys mwy o dwristiaeth ac ail gartrefi sy'n lleihau defnydd y Gymraeg. I liniaru hyn, dylai Awdurdod Parc fabwysiadu polisïau cynllunio cryf, hyrwyddo'r Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus a chefnogi tai lleol. Gyda rheolaeth effeithiol, gallai'r Parc alinio ymdrechion dameidiog a chefnogi gwydnwch ieithyddol a diwylliannol hirdymor.

Gweler yr *Asesiad Effaith ar y Iaith Gymraeg* am fanylion llawn (ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).

## Economi

Comisiynwyd Arup i asesu effeithiau economaidd posibl Parc Cenedlaethol arfaethedig. Mae'r ardal eisoes yn denu tua 3.3 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn; gallai dynodiad gynyddu hyn 10–40%, gan ychwanegu £26 miliwn o refeniw twristiaeth o bosibl, er bod straen ar seilwaith yn bryder. Gall dynodiad hybu swyddi mewn twristiaeth a chadwraeth ond gallai gyfyngu ar rai sectorau. Mae ffermio, sy'n allweddol i'r economi leol, yn cynnig potensial arallgyfeirio. Mae fforddiadwyedd tai a dibyniaeth ar geir yn risgiau, ond mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol y modd i reoli'r rhain trwy offer cynllunio. Mae llwyddiant yn dibynnu ar lywodraethu rhagweithiol, buddsoddiad a gweithredu strategol.

Gweler yr *Adroddiad Asesiad Economaidd* am fanylion llawn (ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).

## Cydraddoldeb

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb i sicrhau bod proses dynodi Parciau Cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru yn bodloni rhwymedigaethau cydraddoldeb cyfreithiol ac yn ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig. Roedd ymgynghoriadau cyhoeddus yn 2023 a 2024 yn hygyrch, yn ddwyieithog, ac yn gynhwysol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol; dangosodd y broses gynrychiolaeth gref ar draws demograffeg. Cynigir camau gweithredu i wella ymgysylltiad ieuenctid a lleiafrifoedd.

Gweler yr *Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb* am fanylion llawn (sydd ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).

## Cynllunio

Fe wnaethom gomisiynu Arup i asesu effaith bosibl creu Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol newydd. Mae'r adroddiad yn archwilio goblygiadau i bum awdurdod cynllunio lleol, gan gynnwys cyllid, darparu gwasanaethau, a phwysau adnoddau. Mae pryderon yn cynnwys amharu ar Gynlluniau Datblygu Lleol, prinder staff, a'r posibilrwydd o ddadleoli tai a datblygu ynni adnewyddadwy. Adolygwyd modelau cynllunio amgen, ac mae rhanddeiliaid wedi'u rhannu ynghylch y dull a ffefrir. Er y gallai dynodiad wella cysondeb polisi a diogelu tirwedd, mae mewn perygl o rannu swyddogaethau cynllunio presennol a chynyddu'r galw ar arbenigedd cynllunio sydd eisoes yn gyfyngedig oni bai ei fod yn cael ei reoli'n ofalus.

Gweler yr *Adroddiad Adolygiad Cynllunio* am fanylion llawn (sydd ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).

# Manteision ac Anfanteision Posibl Parc Cenedlaethol Newydd

Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus (2023) a'r ymgynghoriad cyhoeddus (2024), rydym wedi datblygu dealltwriaeth fanwl o'r materion cymhleth sy'n ymwneud â dynodiad posibl Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru.

Rydym wedi comisiynu asesiadau annibynnol ac wedi ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid i archwilio manteision a goblygiadau dynodiad. Casglwyd adborth trwy filoedd o ymatebion a channoedd o sgyrsiau wyneb yn wyneb, gan ddatgelu ystod eang o safbwyntiau, a luniwyd yn aml gan dybiaethau amrywiol, mynediad at wybodaeth, a blaenoriaethau personol.

Cyn amlinellu'r manteision a'r anfanteision, mae'n hanfodol egluro tair rhagdybiaeth allweddol sydd wedi dylanwadu'n gyson ar farn:

### 1. Y Sefyllfa Bresennol
### 2. Beth Yw Parc Cenedlaethol (a Beth Nad Yw)
### 3. Beth Ydym Ni'n Ceisio'i Gyflawni?



## 1. Y Sefyllfa Bresennol

Mae llawer o bobl, cefnogwyr a gwrthwynebwyr, yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r ardal. Mae rhai'n tybio y bydd y status quo yn aros yr un fath os na wneir dim. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r broses asesu bod yr ardal eisoes yn profi pwysau sylweddol.

Yn 2024, fe wnaethon ni gomisiynu Ymgynghorwyr Defnydd Tir i nodi "Grymoedd allweddol dros Newid." Grwpiodd yr adroddiad canlyniadol y rhain fel a ganlyn:

- Newid Hinsawdd
- Datblygiad Adeiledig a Seilwaith
- Rheoli Tir a'r Amgylchedd Naturiol
- Pobl, Cymunedau, a Threftadaeth Ddiwylliannol
- Hamdden, Twristiaeth, a Mynediad

Nid yw'r rhain yn statig, mae llawer yn gwaethygu. Er enghraifft, mae newid hinsawdd yn dwysáu a bydd yn effeithio fwyfwy ar fioamrywiaeth, risg llifogydd ac amaethyddiaeth yn y dyfodol. Mae cymunedau lleol hefyd wedi codi pryderon ynghylch tagfeydd traffig, erydiad treftadaeth ddiwylliannol, a diffyg rheolaeth canfyddedig dros newid. Er bod rhai yn ofni y gallai Parc Cenedlaethol gynyddu'r pwysau hyn, ychydig sy'n awgrymu dewisiadau amgen credadwy.

Er y gall dynodiad gyflwyno'r risg o bwysau newydd (e.e., mwy o ymwelwyr), mae hefyd yn cynnig pwerau cynllunio, cyllid a chyfrifoldebau statudol gwell i'w rheoli. Heb ddiwygio, gall systemau presennol, sydd eisoes dan bwysau, fod yn fwyfwy annigonol neu anghynaladwy wrth i'r rhain ddwysau yn y dyfodol.





## 2. Beth Yw Parc Cenedlaethol (a Beth Nad Yw)

Mae dryswch ynghylch beth fyddai Parc Cenedlaethol newydd yn ei wneud mewn gwirionedd. Yn seiliedig ar Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, y ddau ddiben statudol yw:

- **I warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal**
- **I hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau ei rhinweddau arbennig,** *ar yr amod nad yw hyn yn gwrthdaro â'r pwrpas cyntaf (Egwyddor Sandford)*

Mae'r dibenion craidd hyn bellach yn cael eu dehongli yng nghyd-destun heriau modern megis colli bioamrywiaeth, newid hinsawdd, datblygu cynaliadwy, a diwygio amaethyddol ar ôl Brexit.

Mae Parciau Cenedlaethol yn cael eu gweld fwyfwy nid yn unig fel tirweddau gwarchodedig ond fel mecanweithiau cyflawni ar gyfer nwyddau cyhoeddus, yn enwedig yn unol â deddfwriaeth Gymreig ddiweddar megis

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)
- Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) (2023)
- Bil yr Amgylchedd (Cymru) (2025)

Mae'r fframweithiau hyn yn gosod Parciau Cenedlaethol fel rhai canolog i gyflawni nodau Cymru o ran cynaliadwyedd, sero net, ac adfer natur yn y dyfodol.

## 3. Beth Ydym Ni'n Ceisio'i Gyflawni?

Mewn trafodaethau gyda thrigolion, ffermwyr, datblygwyr, amgylcheddwyr a chynghorwyr, mae un patrwm cyson yn dod i'r amlwg: er gwaethaf anghytundebau arwynebol, mae'r rhan fwyaf o bobl yn fras eisiau'r un pethau, cymunedau ffyniannus, tirweddau iach a dyfodol cynaliadwy.

Dylid gweld dynodiad Parc Cenedlaethol fel modd i gyflawni diben, nid diben ynddo'i hun. Mae'n cynnig strwythur i integreiddio nodau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd mewn ffordd gydlynol, nad yw wedi digwydd yn yr ardal hyd yn hyn.

Ar ôl deall y rhagdybiaethau hyn, ac ar ôl cynnal dadansoddiad helaeth, dyma'r hyn yr ydym bellach yn credu yw manteision ac anfanteision Parc Cenedlaethol newydd:

## Manteision Posibl Parc Cenedlaethol Newydd

1. **Gwarchodaeth Well o Dirweddau**
   Yn darparu diogelwch cyfreithiol ar gyfer harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, gan eu hamddiffyn rhag datblygiad amhriodol.
2. **Hybu Adferiad Hinsawdd a Natur**
   Gall Parc Cenedlaethol gefnogi ymdrechion hirdymor i addasu i'r hinsawdd ac adfer ecosystemau, wedi'u cefnogi gan bolisïau, cyllid a chynllunio strategol presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Mae'r 'fframwaith 30x30 i Gymru' yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ac yn cynnwys rôl adfer natur well ar gyfer Tirweddau Dynodedig.
3. **Cyfleoedd Amaethyddol**
   Mae diwygiadau ariannu ar ôl Brexit yn hyrwyddo "arian cyhoeddus ar gyfer nwyddau cyhoeddus." Mae dynodiad yn alinio ffermwyr yn yr ardal â chynlluniau a chyfleoedd grant newydd (e.e., Ffermio Bro, Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Cronfa Adfer Mawndiroedd ac ati). Mae newidiadau ffiniau diweddar yn adlewyrchu ffermio ucheldir a'i addasrwydd ar gyfer cyfleoedd o'r fath yn well.
4. **Cyllid Hirdymor Diogel**
   Mae Parciau Cenedlaethol yn derbyn cyllid uniongyrchol, rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ac maent mewn gwell sefyllfa i sicrhau cyllid cyfatebol a grantiau ar raddfa fawr. Mae hyn yn creu piblinell fuddsoddi gyson a strategol. Mae'n sylweddol fwy na'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (Tirwedd Genedlaethol) ac mae'n ategu yn hytrach na disodli cyllid rhanbarthol arall fel dyraniad yr awdurdod lleol.
5. **Pwerau Cynllunio**
   Mae swyddogaethau cynllunio statudol yn galluogi Parciau Cenedlaethol i reoli defnydd tir yn well. Bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r Parc i sicrhau bod penderfyniadau'n dryloyw, yn gytbwys, ac yn cyd-fynd ag anghenion cymunedol ac amgylcheddol.
6. **Twf Economaidd a Manteision Twristiaeth**
   Gall twristiaeth gynaliadwy ysgogi busnesau lleol, hybu creu swyddi, a chefnogi gwasanaethau. Mae ein hasesiad yn awgrymu y gallai'r dynodiad ychwanegu tua £26 miliwn o refeniw i'r economi leol. (Gweler yr *Adolygiad Effaith Economaidd* am fwy o fanylion).
7. **Mynediad a Manteision Iechyd**
   Mae mynediad gwell i gefn gwlad yn cefnogi lles corfforol a meddyliol, a gall buddsoddiad sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gynaliadwy. (Gweler yr Asesiad Effaith Iechyd am fanylion llawn).
8. **Gwarchodaeth Dreftadaeth Ddiwylliannol Gwell**
   Byddai dynodiad yn cefnogi cadwraeth yr iaith, traddodiadau, a thirweddau, adeiladau ac archaeoleg hanesyddol Cymru drwy gynllunio pwrpasol a mentrau cymunedol. (Gweler yr *Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg* am fwy o fanylion).
9. **Cyfle i Ymgysylltu'n Fwy â'r Gymuned a Llywodraethu Rhanbarthol Da**
   Mae'n ofynnol i Barciau Cenedlaethol gynnwys rhanddeiliaid lleol, gan greu llwyfannau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynhwysol, sy'n seiliedig ar le a chynrychiolaeth leol.
10. **Etifeddiaeth Hirdymor i Genedlaethau'r Dyfodol**
    Mae effaith gronnus cyllido, cynllunio a chadwraeth dros ddegawdau yn sicrhau buddion parhaus a fydd yn cronni dros amser fel eu bod yn arbennig o fuddiol i bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol sy'n wynebu argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth.

# Anfanteision Posibl Parc Cenedlaethol Newydd

1. **Pwysau Twristiaeth**
   Mae straen lleol ar seilwaith a seilwaith presennol nad yw wedi'i gynllunio i gymryd nifer fawr o ymwelwyr. Bydd angen i gynllun rheoli fynd i'r afael yn rhagweithiol â pharcio, tagfeydd, a diogelu ecosystemau sensitif fel blaenoriaeth uniongyrchol.
2. **Fforddiadwyedd Tai**
   Mae pryder y gallai prisiau tai gynyddu. Er bod dadansoddiad o'r dystiolaeth yn awgrymu effaith gyfyngedig yn y maes hwn, byddai angen i Barc newydd reoli polisi tai yn weithredol gyda chynghorau lleol trwy ddulliau fel polisïau cynllunio lleol ac Erthygl 4 i gyfyngu ar dai gwyliau os oes angen, ochr yn ochr â mesurau ehangach fel premiymau treth gyngor a chyfleoedd cefnogi i wella argaeledd llety twristaidd dibreswyl. (Gweler yr *Adroddiad Effaith Economaidd* am fwy o fanylion).
3. **Cyfyngiadau Cynllunio**
   I'r rhan fwyaf o drigolion sydd eisoes o fewn Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol) ni fydd unrhyw newid sylweddol yn y fframwaith cynllunio. Fodd bynnag, i'r rhai sydd y tu allan i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar hyn o bryd, bydd polisi cynllunio cenedlaethol sy'n ymwneud â datblygiadau mawr yn berthnasol ynghyd â newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir. Mae rhai yn ystyried hyn yn fantais (atal datblygiad amhriodol), ond i eraill gall deimlo fel cyfyngiad a gwneud y broses o gael caniatâd cynllunio yn fwy beichus. Fodd bynnag, mae dadansoddiad cymharol o gyfraddau cymeradwyo awdurdodau cynllunio lleol yn dangos bod gan Barciau Cenedlaethol ledled Cymru gyfraddau cymeradwyo tebyg neu ychydig yn well nag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill, sy'n dangos ei bod yn fwy o fater o wneud ceisiadau'n briodol yn hytrach na rhoi'r gorau i ddatblygu'n gyfan gwbl, ond bydd y broses yn dal i ymddangos yn fwy trylwyr i'r rhai y tu hwnt i'r Dirwedd Genedlaethol bresennol.
4. **Colli Rheolaeth Leol Canfyddedig**
   Mae rhai cymunedau'n ofni penderfyniadau sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n cael eu gwneud gan bobl o'r tu allan heb unrhyw fewnbwn lleol. Er gwaethaf ymgysylltu helaeth yn 2023 a 2024, mae pryderon yn parhau mewn rhai ardaloedd. Pe bai'n cael ei sefydlu, byddai angen i Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd wneud ymdrechion priodol i annog cyfranogiad lleol gan ei fod yn darparu mecanwaith i hybu dylanwad pobl leol.
5. **Gwrthdaro Mynediad**
   Mae materion sy'n ymwneud â thresmasu ac ymddygiad anghyfrifol ymwelwyr eisoes yn broblem waeth beth fo'r dynodiad, ac nid yw'n unigryw i'r ardal. Bydd cydbwyso'r angen i warchod a chynnal y mynediad cyhoeddus presennol â chadwraeth a ffermio yn gofyn am reolaeth briodol a sensitif gan Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae'n debygol y bydd camau gweithredu cryf i hyrwyddo a gorfodi ymddygiad ymwelwyr mwy cyfrifol yn briodol.
6. **Pontio**
   Bydd yn cymryd amser i sefydlu Awdurdod y Parc Cenedlaethol a chyflawni canlyniadau gweladwy. Ni fydd newid yn digwydd dros nos ar ôl ei sefydlu. Gallai disgwyliadau tymor byr afrealistig arwain at rwystredigaeth neu siom gan rai rhannau o'r gymuned a dylid lleihau a rheoli hyn gyda chyfathrebu clir.
7. **Cymhlethdod Gweinyddol**
   Bydd angen dylunio a gweithredu strwythurau llywodraethu newydd yn ofalus i leihau'r risg o orgyffwrdd a darparu ar gyfer rolau clir a chydweithio rhwng sefydliadau.



# Sylwadau Cloi

Mae'n amlwg o'r broses asesu, fel mewn sawl rhan o'r wlad, nad oes opsiwn "dim newid". Nid yw'r status quo yn sefydlog, mae newid heb ei reoli eisoes yn digwydd ac mae'n erydu rhinweddau arbennig yr ardal flwyddyn ar ôl blwyddyn. Gyda'r bwriadau gorau, mae'r trefniadau presennol wedi profi i fod yn annigonol ar gyfer rheoli'r newid hwn sydd ar y gweill.

Mae Parc Cenedlaethol yn cynnig mecanwaith sydd wedi'i ariannu'n dda ac sy'n gadarn yn gyfreithiol i reoli'r newidiadau hyn.

Er na all dynodiad ddatrys y problemau presennol dros nos, a gall hyd yn oed ddod â'i heriau ei hun, mae o leiaf yn darparu'r offer a'r strwythur sydd eu hangen i ymateb yn strategol ac mewn ffordd gydlynol yn rhanbarthol, i'r pwysau sy'n wynebu'r dirwedd a'i phobl.





RHAN 2

# Ymateb i'r Ymgynghoriad Statudol

Cyngor ar wneud sylwadau ar neu wrthwynebiadau i'r Gorchymyn Dynodi arfaethedig.

## Sylwadau

Gall unrhyw berson neu sefydliad sy'n dymuno gwneud sylwadau ynghylch y Gorchymyn Dynodi arfaethedig wneud hynny ar-lein neu yn ysgrifenedig. Gall hyn gynnwys cefnogaeth neu gefnogaeth gymwys i Barc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr.



## Gwrthwynebiadau

Gall unrhyw berson neu sefydliad wrthwynebu'r Gorchymyn Dynodi arfaethedig yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen bapur hon neu'r fersiwn ar-lein.

Er mwyn cynorthwyo gyda phrosesu sylwadau a gwrthwynebiadau, mae'n bwysig bod gwrthwynebwyr yn rhoi' rrheswm (rhesymau) dros y gwrthwynebiad yn glir.

Rhaid i wrthwynebiadau i'r Gorchymyn ymwneud â'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer dynodi Parciau Cenedlaethol. Gellir crynhoi'r meini prawf a nodir yn y gyfraith fel a ganlyn:

- darn helaeth o gefn gwlad
- harddwch naturiol
- cyfleoedd y mae'n eu cynnig ar gyfer hamdden awyr agored

## Cyflwyno gwrthwynebiadau, cynrychiolaethau a sylwadau

Rhaid cyflwyno a derbyn cynrychiolaethau, gwrthwynebiadau neu sylwadau yn briodol erbyn dydd Llun 8 Rhagfyr 2025 fan bellaf.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad statudol drwy:

- Cwblhau a chyflwyno'r ffurflen ymateb drwy wefan y prosiect. Sganio'r cod QR
- Cwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb hon i Freepost Plus RTJJ-AAKE-HKKU, Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW

Lle bynnag y bo modd, dylid defnyddio'r ffurflen hon, bydd yn helpu effeithlonrwydd prosesu cynrychiolaethau a gwrthwynebiadau.



# Ynglŷn â'ch Adborth

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ein helpu i ddeall pwy sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

**C1 Ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad statudol hwn fel:**

Dewiswch un yn unig

- ☐ Unigolyn?
- ☐ Ar ran sefydliad? (nodwch pa un):
- ☐ Ar ran grŵp neu gymuned? (nodwch pa un):

**C2 Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau?**

Dewiswch yr holl atebion sy'n berthnasol

- ☐ Preswylydd lleol
- ☐ Ffermwr/tirfeddiannwr
- ☐ Ymwelydd/twrist
- ☐ Perchennog busnes
- ☐ Arall (nodwch):
- ☐ Cynrychiolydd sefydliad/grŵp (nodwch eich rôl):
- ☐ Unrhyw sylwadau pellach?

**C3 Beth yw eich cod post? Hoffem gasglu faint o ymatebwyr sy'n byw o fewn ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol neu y tu allan.**

Cod post

***Tudalen nesaf.***

# Parc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr

**C4 Hoffwn i/Rydym ni wneud sylwadau ar y canlynol.**

Dewiswch yr opsiwn(opsiynau) sydd fwyaf priodol:

- ☐ Rwyf/Rydym ni'n cefnogi'r cynnig presennol ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd
- ☐ Rwyf/Rydym ni'n cefnogi egwyddor Parc Cenedlaethol ond yn awgrymu newid i'r ffin (rhowch fanylion isod)
- ☐ Rwyf/Rydym ni'n cefnogi egwyddor Parc Cenedlaethol yn amodol ar ymdrin â phwyntiau penodol neu eu hegluro'n briodol (rhowch fanylion isod)
- ☐ Rwyf/Rydym ni'n gwrthwynebu'r cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd
- ☐ Rwyf/Rydym ni'n dal heb benderfynu / ddim yn gwybod

Rhowch fanylion pellach yn ôl yr angen:

# Ystyriaethau o Ran y Gymraeg

**C5 Beth yw eich gallu yn y Gymraeg?**
Dewiswch un yn unig

- ☐ Gallu siarad Cymraeg yn rhugl
- ☐ Gallu deall a siarad peth Cymraeg
- ☐ Yn dysgu Cymraeg
- ☐ Dim dealltwriaeth o'r Gymraeg

Rydym wedi cwblhau Asesiad Effaith ar y Gymraidd (mae'r ddogfen ar gael yn llawn yn y digwyddiadau ac ar y wefan). Oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w hychwanegu? Os felly, atebwch y cwestiynau canlynol.

**C6 Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

Hoffem wybod eich barn ar effeithiau posibl y cynnig hwn ar y Gymraeg, fel a ganlyn:

- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**C7 Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei newid i gael y canlynol:**

- Effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

*Tudalen nesaf.*

# Amdanoch Chi

Wrth ateb y cwestiynau isod rydych chi'n cydsynio i'r Rhaglen Tirweddau Dynodedig gasglu data personol penodol at ddibenion monitro pa mor dda yr ydym yn cyrraedd yr holl randdeiliaid a chymunedau yn yr ardal. Bydd y data hwn yn cael ei gadw yn unol â GDPR, gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn ein datganiad preifatrwydd (ar gael yn y digwyddiadau neu ar y wefan).

**C8 Faint oed ydych chi?**
Dewiswch un yn unig

- ☐ O dan 18
- ☐ 18 - 24
- ☐ 25 - 34
- ☐ 35 - 44
- ☐ 45 - 54
- ☐ 55-64
- ☐ 65+
- ☐ Yn well gen i beidio â dweud

**C9 Beth yw eich gender?**
Dewiswch un yn unig

- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw
- ☐ Yn well gen i beidio â dweud
- ☐ Arall (nodwch); ______

**C10 Beth yw eich crefydd?**
Dewiswch un yn unig

- ☐ Dim crefydd
- ☐ Cristnogol
- ☐ Bwdhaidd
- ☐ Hindŵaidd
- ☐ Iddewig
- ☐ Mwslimaidd
- ☐ Sicaidd
- ☐ Crefydd neu gred arall
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**C11 Beth yw eich ethnigrwydd?**
Dewiswch un yn unig

- ☐ Gwyn
- ☐ Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
- ☐ Roma
- ☐ Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch); ______
- ☐ Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog
- ☐ Gwyn a Du Caribïaidd
- ☐ Gwyn a Du Affricanaidd
- ☐ Gwyn ac Asiaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Cymysg neu Luosog arall (nodwch); ______
- ☐ Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Brydeinig
- ☐ Indiaidd
- ☐ Pacistanaidd
- ☐ Bangladeshi
- ☐ Tsieineaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch); ______
- ☐ Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd
- ☐ Caribïaidd
- ☐ Cefndir Affricanaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall (nodwch); ______
- ☐ Grŵp ethnig arall
- ☐ Arabaidd
- ☐ Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch); ______

**C12 Sut ydych chi'n hunan-adnabod eich cyfeiriadedd rhywiol?**

Dewiswch un yn unig

- ☐ Deurywiol
- ☐ Heterorywiol/syth
- ☐ Dyn hoyw
- ☐ Menyw hoyw/Lesbiaidd
- ☐ Arall
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**C13 A ydych chi'n ystyried bod gennych chi unrhyw un o'r canlynol?**

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- ☐ Nam ar y Clyw
- ☐ Nam Corfforol
- ☐ Nam ar y Golwg
- ☐ Anabledd Dysgu
- ☐ Anabledd Gwybyddol
- ☐ Anabledd Synhwyraidd
- ☐ Iechyd Meddwl
- ☐ Cyflwr Iechyd (sy'n para 12 mis neu fwy)
- ☐ Arall (nodwch);

**C14 Ydych chi ar hyn o bryd yn gyfrifol am ofalu am berthynas/partner sy'n oedolyn, plentyn anabl neu un arall?**

Dewiswch un yn unig

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**Diolch am lenwi'r ffurflen adborth hon.**





# Atodiad 2: Categorïau codio ar gyfer arolwg CNC yn ymwneud â'r Parc Cenedlaethol newydd

Cafodd yr ymatebion agored i'r cwestiwn ar y ffurflen adborth a'r ymatebion ar ffurf neges e-bost eu codio gan ddefnyddio'r matrics codio hwn i ddeall pa faterion allweddol a godwyd yn gyffredinol a chan pa un o'r categorïau o randdeiliaid.

| Cod rhiant | Codau plentyn |
|---|---|
| Gwarchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal, llonyddwch | • Gwarchod y dirwedd<br>• Unigolion/sefydliadau sy'n gyfrifol am gadwraeth<br>• Cydnabyddiaeth o'r ardal<br>• Llonyddwch a heddwch |
| Bywyd gwyllt, yr amgylchedd a chynaliadwyedd | • Rhywogaethau cynhenid<br>• Ymyrraeth ymwelwyr<br>• Dynodiad cadwraeth bywyd gwyllt<br>• Adferiad byd natur<br>• Gwarchod a gwella'r amgylchedd |
| Amaethyddiaeth a rheoli tir | • Cynlluniau ffermio cynaliadwy<br>• Arferion ffermio<br>• Gwrthdaro â thwristiaeth<br>• Goblygiadau cynllunio<br>• Defnydd tir ffermio<br>• Seilwaith ffermio<br>• Ffyrdd a logisteg<br>• Hunangynhaliaeth o ran bwyd<br>• Costau uwch<br>• Effaith ar fywyd gwyllt / bioamrywiaeth / yr amgylchedd<br>• Ffermio cynaliadwy |
| Rheoli twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus, a seilwaith | • Trafnidiaeth gyhoeddus<br>• Rhwydwaith ffyrdd<br>• Y gwasanaethau brys<br>• Sbwriel<br>• Parcio<br>• Toiledau cyhoeddus<br>• Hawliau tramwy cyhoeddus<br>• Tresmasu<br>• Twristiaeth<br>• Da byw<br>• Cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus / seilwaith<br>• Gor-dwristiaeth<br>• Traffig<br>• Sgiliau gyrru<br>• Gwrthdaro â ffermwyr<br>• Llygredd<br>• Llety twristiaeth<br>• Trafnidiaeth ar gyfer y boblogaeth leol |

| | |
|---|---|
| Cwestiynu’r angen am newid, rheolaeth a rheolaethau, costau, cyllid, biwrocratiaeth | • Cyllid ar gyfer rheoli a chostau’r Parc Cenedlaethol<br>• Cyllid ac ymrwymiad hirdymor<br>• Adferiad byd natur<br>• Adfer yr amgylchedd<br>• Cost yn erbyn angenrheidrwydd, gwerth am arian<br>• Enillion ar fuddsoddiad<br>• Costau byw, prisiau tai<br>• Haen arall o lywodraeth/biwrocratiaeth<br>• Goblygiadau cynllunio<br>• Cyllid y cynghorau<br>• Cynlluniau rheoli’r Parc Cenedlaethol<br>• Y gwasanaethau brys<br>• Rheolaeth ganolog yn erbyn perchnogion/rheolwyr tir yn parhau fel y maent |
| Pobl a chymunedau lleol, yr economi leol | • Pobl ifanc a thai<br>• Swyddi lleol<br>• Effaith seilwaith ar gymunedau<br>• Busnesau/swyddi yn y sector twristiaeth<br>• Buddion i'r economi leol<br>• Effeithiau ar yr economi leol<br>• Economi twristiaeth<br>• Datblygu’r economi leol gyda a heb ddatblygiadau ‘gwyrdd’ mawr<br>• Swyddi cyflog uchel / sgiliau uwch<br>• Cysylltu cymunedau / trafnidiaeth / gwasanaethau<br>• Cymunedau gweithredol<br>• Yr economi a thwristiaeth, a gwydnwch |
| Materion yn ymwneud â mynediad a hamdden awyr agored | • Hawliau tramwy cyhoeddus<br>• Seilwaith priffyrdd<br>• Mynediad cynaliadwy<br>• Llwybrau cerdded<br>• Gwrthdaro â ffermwyr / da byw<br>• Cod Cefn Gwlad<br>• Mynediad a rennir (cerdded, beicio, marchogaeth, lonydd gwyrdd)<br>• Iechyd a llesiant<br>• Hobïau newydd (dronau ac ati)<br>• Hobïau a gweithgareddau hamdden<br>• Cynnal a chadw llwybrau troed / llwybrau ceffylau<br>• Mynediad i unigolion anabl<br>• Arwyddion<br>• Swyddi yn y sector hamdden / llety |
| Goblygiadau tai | • Datblygu stoc dai newydd, prinder stoc dai<br>• Prisiau eiddo<br>• Ail gartrefi<br>• Llety Airbnb<br>• Effaith argaeledd a chost tai ar gymunedau lleol |
| Diwylliant a threftadaeth | • Adeiladau hanesyddol<br>• Henebion<br>• Cadwraeth<br>• Mynediad i adeiladau a henebion |

| | |
|---|---|
| | • Cynnal a chadw adeiladau a henebion<br>• Twristiaeth<br>• Arwyddion<br>• Adnoddau dehongli<br>• Treftadaeth ddiwydiannol<br>• Beirdd, artistiaid<br>• Cynaliadwyedd y Gymraeg a diwylliant Cymru<br>• Addysg<br>• Cymunedau gwledig<br>• Traddodiadau |
| Goblygiadau cynllunio | • Awdurdod cynllunio<br>• Swyddogion cynllunio<br>• Rheolaethau cynllunio<br>• Biwrocratiaeth<br>• Costau<br>• Amserlenni<br>• Heriau<br>• Cyfyngiadau<br>• Datblygu a ganiateir |
| Lleoliad y ffin – ardaloedd eraill i'w cynnwys | • Cadw tirweddau gyda'i gilydd<br>• Lleoliadau ffiniau yn rhannu cymunedau<br>• Cynnwys ardaloedd eraill<br>• Cwestiynau ynghylch addasrwydd ardaloedd i'w dynodi |
| Arall | • Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Enwi'r Parc Cenedlaethol<br>• Proses ymgynghori ac ymgysylltu<br>• Arall |
| Y broses | • Sylwadau am y cwestiwn<br>• Cymhariaeth â Pharciau Cenedlaethol eraill<br>• Adroddiadau/dadansoddiadau eraill sydd eu hangen / y gofynnwyd amdanynt |
| Na i'r Parc Cenedlaethol | • Gwrthwynebiadau i fodolaeth neu gysyniad y Parc Cenedlaethol |
| Lleoliad y ffin – tynnu ardal | • Awgrymiadau i dynnu ardaloedd o ardal y Parc Cenedlaethol |
| Ynni adnewyddadwy a datblygiadau cysylltiedig | • Gwynt<br>• Solar<br>• System storio ynni batri<br>• Trosglwyddo<br>• Ynni 'gwyrdd' |
| Iechyd a llesiant | • Iechyd a llesiant |

# Atodiad 3: Ymateb CNC i sylwadau'r ymgynghoriad statudol ynghylch yr asesiad, y ffin, y cwmpas, a'r mecanweithiau rheoli

| 1. Heriau i'r asesiad, y dystiolaeth, ac, yn eu tro, y tirweddau a gynhwyswyd i'w dynodi |
|---|
| 1052 |
| **Twyni Gronant a Thalacre**<br>Mae Haven Leisure Limited yn berchen ar ac yn gweithredu Presthaven Beach Resort ger Prestatyn, sy'n ymestyn i 137 hectar ac sy'n cwmpasu ardal weithredol y parc presennol, twyni tywod, tir amaethyddol, a thir yn y parth llanwol.<br><br>Nid oes gan Haven unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r dynodiad ehangach ond mae'n pryderu nad oes digon o gyfiawnhad dros yr ardaloedd o amgylch y parc, yn enwedig gan fod hyn yn wahanol i gwmpas y dynodiad yn y cynigion cynharach.<br><br>Daeth astudiaeth Gillespies i'r casgliad bod tirwedd ac ansawdd golygfaol yr ardal yn gyffredinol o ansawdd llawer is am ei bod yn cynnwys datblygiadau adeiledig ymwthiol a defnyddiau tir anghydnaws. Ynghyd â'i drafodaeth ehangach ynghylch rhinweddau cynnwys yr ardal hon, argymhellodd Gillespies y dylid eithrio'r ardal.<br><br>Mae dogfen Asesiad Terfynol o Dir i'w Ddynodi (11 Medi 2025) yn nodi bod y newid wedi'i wneud oherwydd cefnogaeth leol sylweddol yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus ac er mwyn diogelu a gwella nifer o rywogaethau prin yn yr ardal hon.<br><br>Nid yw'r rheswm hwn yn ddigonol o ystyried bod y dystiolaeth a gasglwyd i asesu'r safle dynodedig yn seiliedig ar yr ardal lai, nad oedd yn cynnwys ardal Gronant/Talacre. Mae'r dystiolaeth ategol, fel yr eglurir ar wefan CNC, yn darparu adroddiadau asesu a baratowyd i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'n anodd gweld sut y defnyddiwyd y rhain wedyn i baratoi'r 'adroddiadau hanesyddol', y mae rhai ohonynt yn cynnwys yr ardal dan sylw.<br><br>Mae'r dystiolaeth newydd o rywogaethau a nodwyd wedi bod yn destun dadansoddi cyfyngedig, ac nid yw'n glir sut mae yna cyfle sylweddol i fod o fudd i fyd natur drwy fecanwaith y Parc Cenedlaethol, fel y nodir gan CNC yn yr Adroddiad Asesu Terfynol.<br><br>Yn olaf, gan fod yr ardal hon wedi'i hychwanegu'n gymharol hwyr, ni fu unrhyw ymgysylltiad â'r tirfeddiannwr i drafod y ffin fanwl gywir. Ymddengys fod lleoli'r ffin sy'n ffinio ag ardaloedd gweithredol presennol y parc wedi'i wneud yn dilyn diffyg dadansoddiad yn y dystiolaeth ategol. Nid yw'n ymddangos bod y goblygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn nac ychwaith bod y ffin wedi'i mireinio'n fanwl.<br><br>Dylid naill ai cael gwared ar yr ardal hon neu wneud gwaith pellach, gan gynnwys gyda'r tirfeddiannydd, i adolygu'r rhan hon o'r Parc Cenedlaethol arfaethedig. |
| **Ymateb CNC:**<br>Cadarnhaodd adroddiad gwerthuso Gillespie 2024 ar gyfer Ardal Werthuso 1 Twyni Talacre a Gronant dystiolaeth nodedig o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Rhai pwyntiau allweddol o'r asesiad: |

- Mae unedau'r twyni a llaciau twyni, yr aber, a'r gwlyptir yn arddangos cyfanrwydd ac ansawdd ‘uchel’, ac mae’r unedau tir ffermio ar lawr gwlad sy’n agored a gwastad wedi'u hasesu fel ‘isel’ a ‘chymedrol’.
- Ystyrir bod prinder uned yr aber yn ‘rhagorol’ gan ei bod yn cynnwys nodweddion a rhinweddau nodweddiadol sy'n unigryw, yn eithriadol o anghyffredin, neu’n sy’n cynrychioli’r enghraifft orau. Asesir bod gan yr unedau gwlyptir a thwyni a llaciau twyni brinder ‘uchel’, gyda'r unedau tir ffermio ar lawr gwlad sy’n agored a gwastad wedi'u hasesu fel rhai ‘cymedrol’.
- Asesir bod gan yr uned gwlyptir nodweddion unigryw ‘rhagorol’, yr unedau twyni a llaciau twyni, a’r aber nodweddion unigryw ‘uchel’, ac asesir yr unedau tir ffermio ar lawr gwlad yn ‘gymedrol’.
- Mae'r cyfansoddiad helaeth o gynefinoedd arfordirol lled-naturiol a naturiol yn cyfrannu at ymdeimlad cryf o wylltineb ar draws y rhan fwyaf o rannau gogleddol yr ardal werthuso.
- Er y gall rhannau o'r traeth a'r twyni tywod gynnig ymdeimlad o heddwch a thawelwch ar adegau, gan fod parciau carafannau gerllaw a mynediad da o Brestatyn, gall y traeth fod yn brysur iawn yn ystod cyfnodau o dywydd da.
- Mae yna gyfres o ddynodiadau cadwraeth byd natur o bwys cenedlaethol a rhyngwladol (yn ogystal â gwarchodfa natur) yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r ardal werthuso, ac mae amrywiaeth a chyfoeth y diddordeb naturiol yn cyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad cryf o fod yn agos at fyd natur.
- Mae rhywogaethau nodedig yn cynnwys llyffantod y twyni, sy'n bridio mewn pyllau bas, a chytref o fôr-wenoliaid bach sy'n mudo ac yn bridio yn y twyni. Mae planhigion twyni diddorol yn cynnwys moresg, celynnen y môr, a llyrlys. Mae'r fflatiau llaid hefyd yn denu llawer o adar megis y pioden fôr.
- Mae cyfansoddiad y systemau twyni tywod, y moresg, y gwlyptiroedd, a’r blodau gwyllt brodorol yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad naturiol nodedig yr ardal, ac ar hyd yr arfordir, mae dynameg naturiol yr amgylchedd morol yn cynyddu'r ymdeimlad fod yr amgylchedd yn amgylchedd naturiol.
- Darpariaeth hamdden uchel – Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Beicio Cenedlaethol 5, sawl hawl tramwy cyhoeddus, mynediad da i'r twyni tywod, y traeth, a'r warchodfa natur leol, llwybrau hygyrch drwy'r twyni tywod, wedi'u lleoli'n agos at ganolfannau poblogaeth mawr.

Agosrwydd elfennau niweidiol – parciau carafannau, y ffaith bod mannau parcio yn y twyni yn Nhalacre a’u bod yn cael eu defnyddio at ddibenion hamdden, tir ffermio, cwrs golff, a ffordd brysur yr A548 – a arweiniodd Gillespies i eithrio'r ardal o'r Ardal Ymgeisiol yn 2024.

Arweiniodd ymgynghoriad ar yr Ardal Ymgeisiol yn 2024 at sylwadau gan y cyhoedd, yr RSPB, ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn cefnogi ailgynnwys yr ardal. Cadarnhaodd adroddiad Buddion Natur 2025 CNC werthusiad Gillespies o werth treftadaeth naturiol yr ardal, ond, yn ogystal â hynny, tynnodd sylw at arwyddocâd a phrinder yr ardal hon ar lefel genedlaethol – dyma’r unig ran o dwyni naturiol sydd ar ôl ar hyd arfordir Gogledd Cymru a dyma’r unig safle yng Nghymru ar gyfer môr-wenoliaid bach. Roedd agosrwydd at ganolfannau poblogaeth mawr (Prestatyn a threfi a phentrefi arfordirol eraill) ac at ymwelwyr â'r parciau carafannau a hygyrchedd yr ardaloedd hefyd yn ystyriaeth bwysig o ran y ddarpariaeth a gynigiwyd gan yr ardal hon.

Ailwerthusodd CNC yr ardal yn haf 2025 a chynhaliodd ymweliadau â'r safle. Daethom i'r casgliad bod llawer o'r ymyl arfordirol, y twyni a'r llaciau twyni yn darparu profiad uchel a nodedig iawn o harddwch naturiol – ansawdd golygfaol, lled-naturioldeb, gwylltineb, a llonyddwch. Tua'r ymyl deheuol ger yr ardal gyfagos i'r parciau carafannau, dechreuodd datblygu ddod yn amlwg, gan ddylanwadu ar ganfyddiadau o'r dirwedd, ond mae ardal graidd sylweddol o dirwedd yn parhau i fod heb ei heffeithio. Wrth adolygu'r cwrs golff, ac eithrio'r clwb, mae ganddo gymeriad sy’n cysylltu â’r arfordir ac mae'n uno ag elfennau naturiol y twyni tywod ar hyd ei ymylon. Mae egwyddor ‘golchi drosodd’ – sef cynnwys tir o ansawdd is pan mae wedi’i leoli rhwng tirweddau

sy'n bodloni'r meini prawf statudol – yn ffordd dderbyniol o lunio ardal gyffiniol i'w dynodi (Canllawiau Gweithdrefnol CNC GN010, tudalen 18).

Gwnaeth hyn ein harwain ni i'r casgliad nad oedd yr effeithiau negyddol a nodwyd yng ngwerthusiad Gillespies yn ddigon arwyddocaol i warantu eithrio'r ardal hon o harddwch naturiol a darpariaeth hamdden nodedig.

Cynhaliodd CNC ymweliad â'r safle i brofi lleoliad posibl y ffin. Mae Canllawiau Gweithdrefnol CNC GN010 yn ei gwneud yn ofynnol i nodweddion ffisegol megis ffyrdd, ffiniau a ffensys gael eu dilyn pan fo modd. Mae'r darn canlynol wedi'i gymryd o adroddiad ffiniau 2025 CNC. Mae'n dechrau ym maes parcio Traeth Barkby ac yn ymestyn yn glocwedd ar hyd y ffin i bentref Gronant:

mae meysydd parcio Traeth Barkby wedi'u heithrio. Mae'r ffin yn ymestyn allan at lefel distyll cymedrig y môr, a nodir gan bostyn yn y môr, cyn troi tua'r dwyrain ar hyd rannau distyll traeth/traethlin Twyni Gronant a Thalacre. Ger goleudy'r Parlwr Du, sy'n nodi aber afon Dyfrdwy, mae'r ffin yn troi tua'r de nes iddi gael ei rhyngdorri gan Gwter Tŷ'r Llifddor. Dilynir ei gwrs troellog yn ôl i'r lan tuag at derfynfa nwy'r Parlwr Du. Mae'r ffin yn troi tua'r gogledd i gwrdd â Llwybr Arfordir Cymru wrth dro tynn wedi'i farcio gan fwi/cerflun. Darn 'am y tro' o'r ffin yw hwn oherwydd prosesau naturiol.

Mae'r ffin yn parhau tua'r gogledd ar hyd Lwybr Arfordir Cymru hyd at y pwynt lle mae'n cwrdd â phen gogleddol Heol yr Orsaf. Mae'r ffin yn troi'n sydyn tua'r gorllewin, gan ddilyn llinell ffens sy'n nodi ymyl datblygiadau preswyl a pharciau carafannau a'r gwningar, y coetir gwasgaredig, y twyni, ac arfordir y Parc Cenedlaethol arfaethedig i'r gogledd. Gan barhau tua'r gorllewin ac ychydig cyn y parc carafannau nesaf, mae'r ffin yn ymuno â llwybr beicio, heb gynnwys cae gyda chorlan stoc a glaswelltir wedi erydu. Mae'r ffin yn parhau o amgylch ymyl gogleddol y parc carafannau mewn ardal lle nad oes ffin ddiffiniedig a lle mae'r twyni tywod yn cyfyngu ar leoliad y carafannau.

Wrth gyrraedd pen dwyreiniol y parc carafannau, mae'r ffin yn troi tua'r de i ddilyn Heol y Traeth. Wrth groesi'r rheilffordd, mae plot bach a ddefnyddir ar gyfer storio a maes parcio a chae hamdden heb eu cynnwys. Wrth groesi Ffordd Prestatyn, sef yr A545, mae'r ffin yn dilyn y gwrychoedd cyfan a chryf, a'r llinellau coed wrth ymyl pentref Gronant, cyn ailymuno â ffin y Dirwedd Genedlaethol yn Ffordd Gronant.

I gloi, mae CNC yn fodlon bod yr ardaloedd sydd wedi'u cynnwys o fewn y ffin arfaethedig yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer dynodiad Parc Cenedlaethol.

824; 1622

Mae'r ymatebydd yn cwestiynu'r cyfiawnhad dros gynnwys **Ardal Werthuso 16 Pwll-glas** (EA16) o fewn ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol ac yn cynghori'n gryf ei thynnu.

**Heriau i asesiad CNC:**

- Cyfiawnhad gwan: Ymddengys fod ei chynnwys yn seiliedig i raddau helaeth ar agosrwydd at SoDdGAau, ac mae'r ymatebydd yn dadlau nad yw hynny'n sail ddigonol dros ei dynodi.
- Gwerth hamdden cyfyngedig: Mae cyfleoedd hamdden presennol wedi'u cyfyngu i fwynhad tawel trwy rwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus sefydledig; ystyrir bod seilwaith pellach yn ddiangen ac yn niweidiol o bosibl.

**Pryderon:**

- Yr effaith ar lonyddwch: Gallai mwy o fynediad cyhoeddus amharu ar dawelwch cymharol cynefinoedd sensitif a choetiroedd hynafol.
- Risgiau ecolegol: Gall mwy o bwysau gan ymwelwyr gyflwyno pathogenau, gan fygwth coetiroedd hynafol.
- Cyfyngiadau o ran seilwaith: Mae diffyg mannau parcio a chyfleusterau digonol yn yr ardal, gan godi pryderon ynghylch rheoli ymwelwyr yn y dyfodol.
- Dadl y noddfa: Dylai EA16 barhau i fod yn ardal warchodedig, mynediad isel yn hytrach na chael ei hyrwyddo ar gyfer twristiaeth.

**Casgliad:** Mae'r ymatebydd yn ystyried bod y rhesymeg dros gynnwys EA16 yn "annilys" ac yn argymell ei thynnu'n ôl o gynnig terfynol y Parc Cenedlaethol er mwyn diogelu ei chymeriad sensitif.

**Ymateb CNC:**
Mae asesiad terfynol CNC o dir i'w ddynodi ym mis Medi 2025 yn nodi'r nodweddion harddwch naturiol sydd wedi rhoi rheswm inni gynnwys EA16 o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig:

gyda chyfran uchel iawn a phatrwm nodedig o goetiroedd hynafol, ynghyd â chlogwyni calchfaen, bryniau tonnog bach, ac ardaloedd o barcdir, mae'r ardal werthuso yn arddangos ymdeimlad cryf o le. Mae bythynnod a ffermydd calchfaen hefyd yn gwneud cyfraniad nodedig at ymdeimlad o le, ac mae patrwm cryf o borfeydd afreolaidd wedi'u hamgylchynu gan wrychoedd cyfoethog eu rhywogaethau, gyda choed aeddfed a choetiroedd bach, yn cyfrannu at brofiad gwledig a phersonol iawn. Profir dyfnder amser cryf hefyd ledled yr ardal werthuso.

Cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored:
Er bod cyfleoedd hamdden wedi'u cyfyngu'n bennaf i fwynhau cefn gwlad yn dawel trwy'r rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus, mae'r rhwydwaith hwn yn helaeth iawn ac wedi'i gysylltu'n dda. Mae cyfleoedd da hefyd i wella'r rhwydwaith ymhellach i sefydlu llwybrau cylchol a hyrwyddir yn lleol sy'n cysylltu â thref Rhuthun, yn ogystal â llwybrau beicio ar hyd y lonydd gwledig tawel.

Mae CNC yn fodlon bod y dystiolaeth y mae wedi'i chasglu yn dangos bod y tirweddau o fewn EA16 yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer dynodiad.

Pryderon:
Os caiff ei ddynodi, byddai gan awdurdod Parc Cenedlaethol ddyletswydd statudol i ddatblygu cynllun rheoli. Byddai'r pryderon a godwyd – cydbwyso cadwraeth â mynediad, rheoli ymwelwyr, yr angen am seilwaith newydd sensitif, ac unrhyw faterion eraill – yn dod o fewn cylch gwaith y cynllun rheoli.

Cyngor Gwynedd

Nodwyd bod yr ardal o Wynedd sydd wedi'i chynnwys o fewn ffiniau arfaethedig presennol Parc Cenedlaethol Glyndŵr wedi'i nodi'n wreiddiol gan Hobhouse fel tir AHNE posibl i'w gynnwys ym Mynyddoedd y Berwyn ac i beidio â'i gynnwys ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nid yw'n glir beth sydd wedi newid yn y dirwedd i'w gynnwys yn y Parc Cenedlaethol newydd.

**Ymateb CNC:**
Mae diddordeb Llywodraeth Cymru mewn archwilio creu Parc Cenedlaethol newydd posibl yn y Gogledd-ddwyrain wedi arwain CNC i werthuso'r dirwedd yn erbyn y ddau feini prawf statudol ar gyfer dynodi ardal yn Barc Cenedlaethol – harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored.

Nododd adroddiad gwerthuso Gillespies yn 2024 fod rhan o Ardal Werthuso 20 Mynydd Mynyllod a Dyffryn Dyfrdwy Uchaf yn bodloni'r meini prawf yn ymwneud â harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Arweiniodd hyn at gynnwys Dyffryn Dyfrdwy Uchaf yn Llandderfel o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig oherwydd lleoliad dyffryn iseldir mosaig arbennig o olygfaol pentref hardd Llandderfel, cymeriad naturiol ac ansawdd troellau afon Dyfrdwy, sy'n cyfrannu'n sylweddol at harddwch naturiol, a'r ymdeimlad cryf iawn o le a grëwyd gan gefndir ucheldiroedd Mynyddoedd y Berwyn cyfagos a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Mae gan y rhan hon o'r ardal werthuso gysylltiadau hawliau tramwy cyhoeddus da o Landderfel. Mae Llwybr Tegid ar ffin yr ardal ac mae cyfleoedd i ddatblygu ymhellach y cynnig hamdden ar hyd yr afon.

Yn y cyd-destun hwn, mae adroddiad Hobhouse 1947 yn darparu gwybodaeth hanesyddol am ddynodiadau tirwedd yng Nghymru ar y pryd.

Mae CNC yn fodlon bod y dystiolaeth y mae wedi'i chasglu yn dangos bod y tirweddau sydd wedi'u cynnwys yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer dynodiad.

Powys

Mae Cyngor Sir Powys yn gwrthwynebu'r dynodiad arfaethedig o Barc Cenedlaethol Glyndŵr am y rhesymau canlynol:

A. Mae Powys yn cwestiynu'r dull a gymerwyd o ran gwerthuso'r dirwedd, asesu harddwch naturiol, a maint y Parc Cenedlaethol arfaethedig.
B. Mae Powys yn cwestiynu cyfleoedd y Parc Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer hamdden awyr agored.

Isod, rydym yn crynhoi'r pwyntiau a godwyd gan Bowys ac yna'n darparu ein hymateb.

**A. Y dull a gymerwyd i werthuso tirwedd, asesu harddwch naturiol, a maint y Parc Cenedlaethol arfaethedig**

**Cymeriad y dirwedd**

1. *Nid yw'r cyngor o'r farn bod y Parc Cenedlaethol arfaethedig wedi rhoi ystyriaeth briodol i gymeriad y dirwedd ac nid yw ansawdd y dirwedd yn bodloni'r trothwyon ar gyfer dynodiad.*
2. *Ymddengys nad yw ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol wedi ystyried y gwaith manwl a baratowyd a'i gyhoeddwyd gan Bowys (Asesiad o Gymeriad y Dirwedd Powys).*
3. *Mae'r Parc Cenedlaethol arfaethedig yn torri ar draws unedau tirwedd nodedig a nodwyd.*

***Harddwch naturiol, hynodrwydd a chydlyniant***

4. *Mae dadansoddiad LANDMAP CNC yn nodi ardaloedd o werth golygfaol uchel, ond mae ardaloedd helaeth o fewn Powys yn cynnwys coedwigaeth fasnachol a thir sy'n cael ei ffermio'n ddwys, heb y cymeriad nodedig a ddisgwylir gan Barc Cenedlaethol.*
5. *Mae'r ardal arfaethedig, er ei bod yn cynnwys tirweddau gwerthfawr, yn cynnwys darnau mawr o dir fferm wedi'i wella ac aneddiadau nad ydynt yn bodloni'r trothwy o "harddwch naturiol" a ragwelir gan y Ddeddf a'r canllawiau.*
6. *Nid yw'r Parc Cenedlaethol arfaethedig yn gydlynol fel un darn helaeth o dir â harddwch naturiol a chymeriad tirwedd ac nid yw'n ardal unedig â hunaniaeth unigryw ac adnabyddadwy.*
7. *Mae gan Ddyffryn Banwy yn benodol ei gymeriad diffiniedig ei hun, ond dim ond rhannau o ochr ogleddol y dyffryn, sy'n gyfanswm o lai nag 1.5% o'r ardal gymeriad, sydd wedi'u cynnwys o fewn ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol.*

**Mae ansawdd y dirwedd a'i harddwch naturiol i'w gwestiynu**

8. *Nid yw'r ardaloedd hynny sydd yn gyfan gwbl, neu bron yn gyfan gwbl, o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig yn arddangos nodweddion daearegol a ffisiograffigol nodedig. Mae Ardal Cymeriad Tirwedd 2 yn nodi Ardal Cymeriad Tirwedd Mynyddoedd y Berwyn fel "ardal helaeth o lwyfandir gweundir ucheldir … ar ymyl Parc Cenedlaethol Eryri". Gan fod yr ardal wedi'i heithrio o Barc Cenedlaethol Eryri yn y gorffennol, er gwaethaf ei hagosrwydd, mae ansawdd ei thirwedd a'i harddwch naturiol i'w cwestiynu.*

**Ymateb CNC:**

**Cymeriad tirwedd, harddwch naturiol, nodweddion unigryw, a chydlyniant**
Mae canllawiau gweithdrefnol GN010 (Mawrth 2022) CNC ar ddynodi tirweddau statudol wedi'u cymhwyso wrth werthuso harddwch naturiol, y cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored (y profion statudol), ac ystyriaethau gosod ffiniau.
Mae canfyddiadau canlynol ymchwiliad cyhoeddus Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol, a nodir yn llythyr penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, hefyd yn egluro sut rydym wedi mynd i'r afael â nodweddion unigryw, harddwch naturiol nodweddiadol, a gwerthuso harddwch naturiol:

- Nid oes angen i Barc Cenedlaethol arddangos hunaniaeth nodedig a chydlynol (llythyren IR2, t.3).
- Yng ngoleuni Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, y prawf priodol yw harddwch naturiol yn unig, nid y prawf mwy cyfyngol o harddwch naturiol nodweddiadol. Felly gall Parc Cenedlaethol gynnwys gwahanol dirweddau cyn belled â'u bod i gyd yn bodloni'r prawf harddwch naturiol. Gall pob un arddangos nodweddion allweddol ond nid oes angen i'r rhain fod ar draws y parc (IR2, paragraffau 2.45–2.46).
- Pan fo tir yn bodloni'r profion statudol, gellir defnyddio cysylltiadau gweledol i helpu i ddiffinio maint y tir i'w gynnwys mewn dynodiad (IR2, paragraff 3.13).
- Gellir bodloni'r prawf harddwch naturiol am amrywiaeth o resymau, yn unigol neu ar y cyd. Gall gwahanol ardaloedd fodloni'r prawf am wahanol resymau (IR2, paragraff 2.47).
- Nid yw tir yn cael ei atal rhag cael ei drin fel tir o harddwch naturiol gan y ffaith ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, neu goetiroedd, neu fel parc, neu'r ffaith bod ei nodweddion ffisiograffigol yn rhannol o ganlyniad i ymyrraeth ddynol yn y dirwedd (adran 99 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig).

Mae ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr fel y'i lluniwyd o fewn Powys yn cynnwys Mynyddoedd y Berwyn, godreon Mynyddoedd y Berwyn, a'r dyffrynnoedd sy'n torri i mewn i ucheldiroedd y Berwyn, ac mae'n ymestyn yn y dwyrain i gynnwys y bryniau a'r coetir lled-naturiol hynafol sy'n amgáu ac yn cyfrannu at dirwedd Sycharth. Cysylltir Sycharth a Glyndyfrdwy yn Nyffryn Dyfrdwy ag Owain Glyndŵr.

Mae pentrefi Llangynog a Llansilin wedi'u lleoli o fewn yr ardal, ac mae tir ffermio bryn amgaeedig a rhywfaint o dir ffermio dyffryn a rhai planhigfeydd coedwigaeth wedi'u cynnwys. Nid yw'r ardal yn cynnwys darnau mawr o dir fferm wedi'i wella. Tynnwyd y ffin i eithrio aneddiadau lle roeddent yn cyd-daro â'r ffin yn unol ag ystyriaethau gosod ffiniau. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys rhai ardaloedd mawr o blanhigfeydd conwydd, pan maent yn gorwedd o fewn tirwedd ffisiograffig fwy sy'n bodloni'r meini prawf statudol.
Mae lleoliad y ffin yn cael ei arwain yn bennaf gan dystiolaeth o harddwch naturiol. Mae elfennau ffisiograffig a nodweddion ffisegol ar lawr gwlad yn helpu i arwain y gwaith o osod ffiniau lleol. Mewn rhai amgylchiadau, nid yw'r tair ystyriaeth yn cyd-fynd yn llwyr.
Nid yw Dyffryn Banwy wedi'i gynnwys o fewn Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr.

**Gwerthusiad o harddwch naturiol**
Ystyriwyd yr holl dystiolaeth dirwedd a gyhoeddwyd, gan gynnwys – Ardaloedd Cymeriad Tirweddau Cenedlaethol, ardaloedd agwedd gweledol a synhwyraidd LANDMAP, asesiadau tirwedd lleol (Ardal Cymeriad Tirwedd Powys, canllawiau cynllunio atodol LANDMAP Wrecsam), a

dynodiadau tirwedd lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Conwy, ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig Gwynedd).

Mae'r ardaloedd gwerthuso a ddefnyddir i asesu tystiolaeth o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored (Adroddiad Gwerthuso Gillespies 2024) yn seiliedig ar ardaloedd agwedd gweledol a synhwyraidd LANDMAP – yr un unedau a data asesu a ddefnyddir ar gyfer llunio Asesiad o Gymeriad Tirwedd Powys.
Yn ogystal â thystiolaeth dirwedd a gyhoeddwyd, roedd asesiad Gillespies yn cynnwys gwerthusiad safle o'r chwe maen prawf yn ymwneud â harddwch naturiol,[1] sef dadansoddiad o'r nodweddion canfyddiadol gweledol a synhwyraidd a'r ffactorau a oedd yn tynnu oddi ar harddwch naturiol, ac amrywiadau o ran yr harddwch naturiol, ar draws ardal werthuso.

Er bod Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn berthnasol i'r broses o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am y dirwedd, nid ydynt yn pennu lleoliad y ffin arfaethedig. Mae maint y Parc Cenedlaethol arfaethedig yn cael ei arwain yn gyntaf gan dystiolaeth o harddwch naturiol ac, yn ail, gan gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored (y profion statudol). Efallai na fydd harddwch naturiol o reidrwydd yr un mor gryf na chydlynol ar draws Ardal Cymeriad Tirwedd. Am y rhesymau hyn, ac fel y'i cyflwynir yn llythyr Ffigur 1 Powys, mae ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol yn wahanol i ffiniau Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Powys.

**Mae Powys yn cwestiynu ansawdd y dirwedd a harddwch naturiol Mynyddoedd y Berwyn**

Mae'r hanes canlynol mewn perthynas â dynodiad yn cadarnhau bod Mynyddoedd y Berwyn wedi cael eu hystyried fel ymgeisydd ar gyfer dynodiad tirwedd statudol ers y 1940au.

Nododd **adroddiad Hobhouse 1947** ddwy Ardal Gadwraeth (a elwid yn ddiweddarach yn AHNEau), sef Bryniau Clwyd a Mynyddoedd y Berwyn (yr olaf yn ymestyn tua'r de-orllewin i Bowys i ymyl Parc Cenedlaethol Eryri). Dangoswyd bod yr ardal o amgylch Llyn Efyrnwy yn rhan o Barc Cenedlaethol a argymhellir ar gyfer Gogledd Cymru.

Ystyriwyd y ddwy ardal gan y Comisiwn Cefn Gwlad fel blaenoriaeth i'w dynodi (**papur mewnol 5 Awst 1974**). Yn ystod 1974, cynhaliodd y Comisiwn Cefn Gwlad, trwy Gyngor Sir Clwyd a Chyngor Dosbarth Sir Drefaldwyn, ymarfer ymgynghori ar gynnig i ddynodi Mynyddoedd y Berwyn a Bryniau Clwyd yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Canlyniad hynny oedd, er bod Cyngor Sir Clwyd yn cefnogi dynodiad y ddwy ardal yn gryf, bod Cyngor Sir Powys, Cyngor Dosbarth Sir Drefaldwyn, a mwyafrif y cyrff ffermio a thirfeddianwyr yn gwrthwynebu dynodiad Mynyddoedd y Berwyn. Awdurdododd y comisiynwyr y Bwyllgor i Gymru i fwrw ymlaen â gweithdrefnau dynodi ffurfiol ar gyfer y ddwy ardal, ond cynghorwyd y dylid rhoi blaenoriaeth i Fryniau Clwyd.

**Datganiad polisi'r Comisiwn Cefn Gwlad ar AHNEau yn 1980.** Mae'r Comisiwn Cefn Gwlad yn cadarnhau ei ddymuniad i gwblhau'r weithdrefn ddynodi ar gyfer AHNE Mynyddoedd y Berwyn.

Mae **Pedwerydd Adroddiad ar Ddeg y Comisiwn Cefn Gwlad 1981** yn adrodd nad oes unrhyw gamau ffurfiol wedi'u cymryd ynghylch dynodi Mynyddoedd y Berwyn oherwydd dadl ynghylch y dynodiad SoDdGA arfaethedig gan y Cyngor Gwarchod Natur.

[1] Canllawiau gweithdrefnol GN010 (Mawrth 2022) CNC ar ddynodi tirweddau statudol (adran 3)

Dynodwyd **AHNE Bryniau Clwyd yn 1985** gan y Comisiwn Cefn Gwlad ond (am resymau anhysbys) roedd ffin y dynodiad yn llawer ymhellach i'r gogledd na'r hyn a nodwyd gan Hobhouse.

Nododd **datganiad polisi ar y cyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Cefn Gwlad yn 1991** ynghylch AHNEau y byddai Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ystyried cwestiwn Mynyddoedd y Berwyn (h.y. etifeddodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru y mater heb ei ddatrys).

**Papurau mewnol Cyngor Cefn Gwlad Cymru a map o ffin bosibl a baratowyd yn 1994.** Dim camau pellach, er bod Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cymeradwyo'r farn bod Mynyddoedd y Berwyn o ansawdd AHNE o'i gymharu â'r ardaloedd dynodedig presennol.

**Dogfen bolisi Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar dirwedd Cymru, Polisi 28, 1997.** Nid oedd unrhyw fandad clir ar gyfer dynodiad AHNE ar gyfer Mynyddoedd y Berwyn.

Mae **Polisi ENV2 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych 1996–2011** yn cydnabod pwysigrwydd tirwedd genedlaethol y Berwyn ac yn cefnogi dynodiad yr ardal gyfan yn AHNE. Fel mesur tymor byr, mae Cyngor Sir Dinbych wedi cynnig ymestyn AHNE Bryniau Clwyd tua'r de i gynnwys ardaloedd yn Llandysilio-yn-Iâl, Eglwyseg a Dyffryn Dyfrdwy a oedd wedi'u cynnwys yn wreiddiol fel rhan o Fynyddoedd y Berwyn.

Mae **Polisi EC5 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam 1996–2011** yn cefnogi cynnig i ymestyn Bryniau Clwyd i gynnwys rhannau o Fynydd Rhiwabon a Mynyddoedd y Berwyn, gan gynnwys rhannau helaeth o Ddyffryn Ceiriog, i gydnabod pwysigrwydd cenedlaethol y dirwedd.

Mae cyngor Cyngor Cefn Gwlad Cymru i'r **Swyddfa Gymreig ar dirweddau gwarchodedig yng Nghymru yn 1999** yn nodi nad yw'r cyngor ar hyn o bryd yn argymell unrhyw ddynodiadau pellach o AHNEau ac eithrio o bosibl Mynyddoedd y Berwyn ac na fydd yn symud tuag at ddynodiad AHNE posibl nes y dangosir mai dyma'r cwrs a ffefrir yn dilyn asesiad LANDMAP.

Mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gofyn i Gyngor Cefn Gwlad Cymru sefydlu grŵp i edrych ar y **potensial ar gyfer AHNE Mynyddoedd y Berwyn yn 2004.**

Mae **llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn 2008** yn cynnwys targed i lunio ffiniau drafft ar gyfer estyniad arfaethedig AHNE Bryniau Clwyd.

**Ymgynghoriad cyhoeddus ar estyniad arfaethedig i AHNE Bryniau Clwyd a ffiniau drafft 2010 i 2011.** Mynegir cymysgedd o safbwyntiau ynghylch y cynnig i eithrio Dyffryn Ceiriog o'r estyniad arfaethedig. Mynegir cefnogaeth gref i ddynodi Dyffryn Ceiriog gan y cyhoedd ond gwrthwynebiad cryf hefyd, yn enwedig gan fuddiannau ffermio.
**Ar 14 Chwefror 2011, cytunodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad statudol ar Orchymyn (Dynodi) AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 2011 arfaethedig** ynghyd â chymeradwyaeth i ymgymryd â gwaith manwl i ystyried priodoldeb dynodi a rheoli rhannau o Ddyffryn Ceiriog a Mynyddoedd y Berwyn fel AHNE. Cytunodd y cyngor, ar 28 Mawrth 2011, i wneud y gorchymyn dynodi a'i anfon at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

| |
|---|
| **Cadarnhawyd Gorchymyn Dynodi Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ar 22 Tachwedd 2011** gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.<br><br>**Mae llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru at Gyngor Cefn Gwlad Cymru ym mis Ebrill 2012** yn nodi mai dim ond y gwaith cyn-ddynodi sydd wedi'i ymrwymo y dylai AHNEau barhau ag ef (yn y bôn, yr asesiad rhagarweiniol o ardal Dyffryn Ceiriog, sy'n gysylltiedig ag estyniad diweddar AHNE Bryniau Clwyd).<br><br>Mae **cytundeb Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar broses weithredol a gweithdrefn ddynodi ym mis Medi 2012** yn cael ei brofi fel rhan o'r gwaith a wneir i ystyried priodoldeb dynodi a rheoli rhannau o Ddyffryn Ceiriog a Mynyddoedd y Berwyn fel AHNE.<br><br>Mae **ymrwymiad Rhaglen Cymru Llywodraeth Cymru 2021** yn cynnwys cynigion i ddynodi Parc Cenedlaethol yn seiliedig ar AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.<br><br>Mae **Adroddiad Gwerthuso Gillespies 2024 ac Adroddiad Buddion Natur 2025 CNC** ar gyfer Parc Cenedlaethol Glyndŵr arfaethedig yn cadarnhau gwerth Mynyddoedd y Berwyn mewn perthynas â harddwch naturiol.<br>Mae **asesiad terfynol CNC o'r tir i'w ddynodi, rhif adroddiad938a (2025),** yn egluro cwmpas ac ystyriaethau gosod ffiniau'r dynodiad arfaethedig.<br><br>Mae CNC yn fodlon bod y tirweddau sydd wedi'u cynnwys o fewn y ffin arfaethedig yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer dynodiad Parc Cenedlaethol. |
| **B. Cyfleoedd y Parc Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer hamdden awyr agored**<br><br>**Adolygiad ac ymateb CNC:**<br>Mae cyflwyniad Powys yn cynnwys crynodeb cynhwysfawr o gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored o fewn ardal arfaethedig y Parc Cenedlaethol ac mae hyn yn cyd-fynd â gwerthusiad CNC:<br><br>Llwybrau Cenedlaethol (Llwybr Glyndŵr), llwybrau a hyrwyddir (llwybrau Pererindod Melangell ac Ann Griffiths), hawliau tramwy cyhoeddus, a thir mynediad agored, o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol arfaethedig yn y sir.<br><br>Mae bron i 40% (39.40%) o'r Parc Cenedlaethol arfaethedig ym Mhowys yn dir mynediad agored. Mae hyn yn gorwedd o fewn ucheldiroedd Mynyddoedd y Berwyn a rhai o gopaon godreon Mynyddoedd y Berwyn.<br>Mae 416 km o hawliau tramwy cyhoeddus yn cysylltu'r tirweddau is ag aneddiadau ar hyd ymylon gorllewinol y Parc Cenedlaethol â thir mynediad agored Mynyddoedd y Berwyn. Mae rhwydwaith cydgysylltiedig cryf o hawliau tramwy cyhoeddus wedi'u cysylltu â phentrefi sydd ychydig o fewn, ac ychydig y tu allan, i ffin y Parc Cenedlaethol.<br><br>Mae cymharu hawliau tramwy cyhoeddus Powys â rhai Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Tabl 2) yn dangos bod gan Barc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr fwy o hawliau tramwy cyhoeddus a chilffyrdd sydd ar agor i draffig, ond llai o lwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig.<br><br>Mae Llyn Efyrnwy yn gyrchfan ar gyfer teithiau cerdded a hyrwyddir a chuddfannau'r RSPB ar gyfer gwylio adar. |

Mae Pistyll Rhaeadr ar dir preifat, ond mae mynediad cyhoeddus iddo ac mae nifer o hawliau tramwy cyhoeddus i Fynyddoedd y Berwyn o fan hyn.

Mae Coedwig Dyfnant yn darparu mynediad ar gyfer llwybrau marchogaeth a gyrru car a cheffyl. Yn ogystal, mae Parc Beicio Revolution yn darparu beicio mynydd i lawr yr allt yn Llangynog. Mae llwybrau beicio mynydd ar hyd llwybrau ceffylau yn croesi ac yn ymestyn o amgylch Mynyddoedd y Berwyn ac yn cysylltu â llwybrau a hyrwyddir Dyffryn Ceiriog.

Gyda'i gilydd, mae hyn yn dangos i CNC fod digon o gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored i fodloni'r meini prawf statudol. Mae cyfleoedd hefyd i ddatblygu milltiroedd cymunedol – teithiau cerdded byr a hyrwyddir o bentrefi a gynlluniwyd ar gyfer cymunedau ac ymwelwyr – ac estyniad i Lwybr Pererindod Melangell, gan gysylltu Llangynog â Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Sycharth a Llansilin.

Mae Powys yn codi pryder ynghylch rheoli hawliau tramwy cyhoeddus yn y dyfodol pe bai Parc Cenedlaethol yn cael ei ddynodi, gydag awgrym y gallai amharu ar y gwaith o reoli a hyrwyddo Llwybr Glyndŵr (byddai llai nag 8% o'r llwybr o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig). Mae'r cyngor sir hefyd yn nodi bod ei gyllid craidd presennol dan bwysau mawr, a bod ychydig iawn o refeniw ar gyfer gwaith cynnal a chadw.

Pe bai Parc Cenedlaethol yn cael ei ddynodi, byddai angen cynllun rheoli statudol ar gyfer yr ardal. Byddai'r polisïau a'r camau gweithredu ar gyfer rheoli mynediad cyhoeddus yn cael eu datblygu gyda phartneriaid a chymunedau lleol. Bryd hynny y gellid datrys y problemau, y cyfrifoldebau, ac arbedion effeithlonrwydd gweithio ar y cyd.

**Casgliad**
I gloi, mae CNC yn fodlon ei fod wedi dilyn arfer gorau wrth werthuso harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored (y profion statudol) ac wedi cymhwyso ystyriaethau gosod ffiniau yn gyson wrth ddiffinio cwmpas a lleoliad ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr.

**Galileo Empower**

Mae'r ymatebydd yn herio asesiad CNC o harddwch naturiol a dilysrwydd cynnwys Mynyddoedd y Berwyn, godreon Mynyddoedd y Berwyn a Dyffryn Ceiriog o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig.

Y pwyntiau allweddol:

Rydym yn credu'n gryf nad yw holl ffin Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr yn bodloni'r prawf hwn o 'harddwch naturiol gwych' fel y'i diffinnir yn Adroddiad Hobhouse (Adroddiad Hobhouse 1947, Adran III).

Ar ôl dadansoddi gwerthusiad gweledol a synhwyraidd LANDMAP ar gyfer Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr, rydym yn nodi bod cyfran sylweddol o'r ardal y tu allan ac i'r de o Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi'i nodi i fod o werth 'cymedrol' ('o werth lleol') gyda dim ond ardal fach iawn o werth 'rhagorol' i'w chael o fewn rhannau uchaf Dyffryn Tanat. Yn wahanol i Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (sydd â gwerth 'rhagorol' ar draws ardaloedd mawr o ucheldiroedd), mae llawer o'r ucheldiroedd yn y rhan ddeheuol hon o Barc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr wedi'i nodi'n werth 'uchel' neu 'gymedrol', sydd, yn ôl canllawiau LANDMAP, yn dangos bod yr ardal o bwysigrwydd 'rhanbarthol' neu 'leol'.

Mae cyfrifiadau LANDMAP yn Nhabl 1 yn cynnwys dadansoddiad cymharol o werthusiadau gweledol a synhwyraidd LANDMAP ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri, y Parc Cenedlaethol arfaethedig, a'r ardal nad yw ar hyn o bryd o fewn y dynodiad Tirwedd Genedlaethol.

| Ardal a ystyriwyd | Maint yr arwynebedd (hectarau) | LANDMAP gweledol a synhwyraidd – % o'r ardal ddynodedig a briodolir ar gyfer pob categori gwerthuso | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhagorol | Uchel | Cymedrol | Isel |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 213,940.3 | 22.6 | 51.0 | 26.3 | 0.1 |
| Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (gan gynnwys y Safle Treftadaeth y Byd sydd ynddi) | 38,927.7 | 43.4 | 41.1 | 12.4 | 3.1 |
| Ardal o Harddwch Eithriadol Sir Ddinbych | 6,687.2 | 0.0 | 67.5 | 28.9 | 3.7 |
| ATA Wrecsam | 3,016.1 | 0.1 | 91.9 | 8.0 | 0.0 |
| Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr | 92,663.0 | 20.4 | 52.5 | 25.5 | 1.5 |
| Y rhan o Barc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr sydd y tu allan i Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | 45,615.0 | 3.7 | 60.8 | 35.1 | 0.5 |

Mae'r ymatebydd yn gwneud y pwyntiau canlynol:

- Mae 43.4% o Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi'i nodi fel tirwedd sydd â gwerthusiad gweledol a synhwyraidd LANDMAP ‘rhagorol’.
- Mae gan yr Ardal o Harddwch Eithriadol ac ATA Wrecsam swm dibwys o werthusiadau ‘rhagorol’.
- Dim ond 3.7% sydd wedi'u nodi fel ‘rhagorol’ yng ngweddill Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr (yr ardal ddeheuol yn bennaf, heb gynnwys Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy), gyda 20.4% o holl ardal ymgeisiol y Parc Cenedlaethol arfaethedig wedi'i nodi fel ‘rhagorol’.
- Felly, os caiff ei ddynodi, mae'r Parc Cenedlaethol arfaethedig yn cynrychioli ardal sydd â 23% yn llai o werth ‘rhagorol’ (ac o bwysigrwydd cenedlaethol) na Thirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn unig.

| |
|---|
| Mae Adroddiad Rhinweddau Arbennig Craggatak 2024 ymhell o fod yn dilyn canllawiau NatureScot. Ni wnaed unrhyw waith maes i gefnogi'r astudiaeth hon, hepgoriad pwysig o ystyried bod y canllawiau'n argymell sawl cylch o waith maes ar wahanol gamau i lywio datblygu a mireinio'r rhinweddau arbennig.<br><br>Mae'r adroddiad yn dibynnu ar lefelau cyfyngedig o adolygiad wrth y ddesg sydd ynddo'i hun yn brin o unrhyw ddadansoddiad manwl o'r tirweddau amrywiol yn ardal chwilio'r Parc Cenedlaethol arfaethedig.<br><br>Bydd nodi rhinweddau arbennig ar gyfer y Parc Cenedlaethol arfaethedig yn gofyn am ddadansoddiad llawer mwy manwl yn ogystal â chynnal gwaith maes manwl i gyflawni'r amcanion a nodir yng nghanllawiau rhinweddau arbennig NatureScot. |
| **Ymateb CNC:**<br>Mae CNC wedi cynnal yr asesiad o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yn unol â chanllawiau gweithdrefnol CNC GN010. Dyma'r ddau brawf statudol ar gyfer nodi ardal sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer dynodi Parc Cenedlaethol. Mae GN010 hefyd yn nodi ystyriaethau sy'n berthnasol, yn dilyn yr ymchwiliad cynllunio ar gyfer Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'r ystyriaethau ar gyfer gosod ffiniau.<br><br>Cyfrannodd asesiad gweledol a synhwyraidd LANDMAP at y broses werthuso, ond roedd hynny'n wir am ddata eraill hefyd, sef:<br><br>Adroddiad Ardal Chwilio CNC 2023<br>Mapio thematig LANDMAP o ansawdd golygfaol, llonyddwch, gwylltineb; mapio system gwybodaeth ddaearyddol o gynefinoedd gyda chyfraniadau cryf at ganfyddiadau 'naturiol' o dirwedd, e.e. rhostiroedd, coetiroedd llydanddail, cyrff dŵr; topograffeg – er mwyn deall ffisiograffeg tirwedd, sy'n ystyriaeth o ran sut y gallai tirffurf siapio Parc Cenedlaethol a'i ffin yn ogystal â'i faint.<br><br>Adroddiad Gwerthuso Gillespies 2024<br>Ystyriodd y gwerthusiad o harddwch naturiol chwe ffactor (canllawiau gweithdrefnol CNC GN010): cyflwr y dirwedd, ansawdd golygfaol, llonyddwch cymharol, gwylltineb cymharol, treftadaeth naturiol, treftadaeth ddiwylliannol. Mae LANDMAP yn darparu rhywfaint o wybodaeth sylfaenol, ond dim ond yn y maes y gellir barnu patrwm, amrywiad a chryfder harddwch naturiol, a phresenoldeb nodweddion sy'n tynnu oddi arno. Roedd yr asesiad treftadaeth naturiol yn cynnwys mapio system gwybodaeth ddaearyddol o safleoedd gwarchodedig o arwyddocâd cenedlaethol. Ymchwiliwyd i'r elfen treftadaeth ddiwylliannol gan Fiona Fyfe Associates a darparodd fanylion sy'n penodol i leoedd ar nodweddion o arwyddocâd cenedlaethol a rhanbarthol.<br><br>Atgyfnerthodd Adroddiad Buddion Natur 2025 CNC ein dealltwriaeth o werth treftadaeth naturiol Mynyddoedd y Berwyn a'r llwyfandir uwchben Dyffryn Ceiriog.<br><br>Mae asesiad terfynol CNC o'r tir i'w ddynodi (Medi 2025) yn egluro'r newidiadau i'r ffiniau a'r rheswm pam bod tir wedi'i gynnwys yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig.<br><br>Mae'r cyfrifiadau LANDMAP yn Nhabl 1 a ddarparwyd gan yr ymatebydd yn egluro bod Parciau Cenedlaethol dynodedig yng Nghymru yn cynnwys tirwedd ar draws gwerthoedd LANDMAP. Wrth ddadansoddi Parc Cenedlaethol Eryri, rydym wedi canfod bod pocedi nodedig o dirwedd eithriadol a gefnogir gan ardaloedd uchel a chymedrol sy'n gysylltiedig o safbwynt ffisiograffig a gweledol ac sy'n cynnwys elfennau o harddwch naturiol megis llonyddwch, gwylltir a threftadaeth naturiol. |

Mae gwerthuso harddwch naturiol yn llawer ehangach nag ansawdd golygfaol a nodweddion unigryw, a dangosir tirwedd o arwyddocâd cenedlaethol hefyd gan ddynodiadau treftadaeth naturiol a diwylliannol.

Rhoddodd mapio Adroddiad Hobhouse 1947 ym Mhowys rywfaint o gyd-destun hanesyddol diddorol i ddynodiadau tirwedd yng Nghymru, ond drwy werthusiad Gillepsies o'r meini prawf statudol, gan gymhwyso canllawiau cyfredol (mae canllawiau gweithdrefnol GN010 CNC yn dilyn canllawiau Natural England), y mae'r ardal bresennol wedi'i hasesu i gynnwys digon o harddwch naturiol i'w chynnig ar gyfer dynodiad Parc Cenedlaethol.

Datblygwyd Adroddiad Rhinweddau Arbennig Craggatak 2024 drwy broses systematig o gasglu tystiolaeth sylfaenol a gweithdai gydag amrywiaeth o randdeiliaid lleol a gynhaliwyd mewn dau leoliad: i) y Dirwedd Genedlaethol bresennol a ii) yr ardal y tu allan i'r Dirwedd Genedlaethol. Cynhyrchwyd yr adroddiadau canlynol:

- Adroddiad terfynol
- Atodiad 1: Cysylltiadau diwylliannol
- Atodiad 2: Adroddiad ar y gweithdai
- Atodiad 3: Priodoleddau a nodweddion yr adroddwyd amdanynt

Cipiwyd cofnod cyfoethog o nodweddion a chysylltiadau naturiol a diwylliannol, rhai ohonynt yn benodol i safle neu ardal ac eraill yn ymwneud â rhanbarth. O ystyried yr ystod eang hon o wybodaeth, ysgrifennwyd y rhinweddau arbennig fel themâu trosfwaol.

Mae CNC yn ystyried bod y broses a'r adrodd canlyniadol yn gyfraniad gwerthfawr at lyfrgell dystiolaeth y prosiect, ac wedi darparu diffiniad digonol o rinweddau arbennig yr ardal, fel themâu a'r cydrannau i lywio camau canlynol y prosiect.

I gloi, mae CNC yn fodlon bod y dystiolaeth y mae wedi'i chasglu yn dangos bod y tirweddau sydd wedi'u cynnwys ym Mharc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer dynodiad.

**NLA**

**Cydlyniant ffiniau a darnio**

- Mae dadansoddiad CNC ei hun yn nodi bod cynefinoedd a harddwch naturiol yn iseldiroedd Powys sydd wedi'u heithrio yn “fwy dameidiog a gwasgaredig”, gan arwain at y penderfyniad i dynnu'r ffin yn ôl tuag at Mynyddoedd y Berwyn. Er hynny, cynhwysir cydran arfordirol anghysbell (Gronant–Talacre) sydd wedi'i gwahanu'n ddaearyddol oddi wrth graidd yr ucheldir ac mae hyn yn cael ei gwestiynu.
- Mae rhai cymunedau wedi'u heithrio oherwydd nad yw “cydlyniad cyffredinol” harddwch naturiol yn cael ei farnu i fod yn ddigon cryf, tra bod allanolyn daearyddol gwahanol yn cael ei ychwanegu am resymau ecolegol. A yw'r cyfluniad sy'n deillio o hyn yn gyfystyr ag un “ardal helaeth o wlad” gydlynol mewn gwirionedd?
- Caiff y dystiolaeth ar gydlyniant ffiniau, yn enwedig o amgylch Powys a Gronant–Talacre, ei hailarchwilio ac roedd yn destun ail ymgynghoriad ochr yn ochr â modelau dynodi amgen.

**Esbonio'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer ffiniau**

- Ni chyflwynwyd esboniad tryloyw a manwl o sut yr ystyriwyd opsiynau ffiniau amgen, gan gynnwys y rhai a allai gefnogi cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith yn well trwy Dirwedd Genedlaethol well yn hytrach na Pharc Cenedlaethol.
- Dylid ystyried opsiynau a allai gefnogi cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith yn well drwy Dirwedd Genedlaethol gryfach yn hytrach na Pharc Cenedlaethol.

**Ymateb CNC:**

| |
|---|
| Lluniwyd y ffin yn dilyn ystyriaethau gosod ffiniau a nodir yng nghanllawiau gweithdrefnol GN010 CNC. Mae'r broses yn cael ei harwain gan ardaloedd a nodwyd fel rhai sy'n cynnwys ardaloedd helaeth a chyflawn o harddwch naturiol. Mae'r ardaloedd a dynnwyd o ardal ymgeisiol 2024 yn ganlyniad i'r adolygiad terfynol o harddwch naturiol, a thynnu'r ardaloedd hyn at ei gilydd o fewn ardal gydlynol yn seiliedig ar ehangder ffisiograffig a nodweddion ffisegol ar lawr gwlad. Mae'r ystyriaethau gosod ffiniau yn ei gwneud yn ofynnol i aneddiadau sy'n gorwedd ar y ffin gael eu heithrio o'r dynodiad.<br><br>Er bod cefnogi cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith o bwys mawr, nid yw'n ffactor sy'n llywio lleoliad ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol.<br><br>Profwyd opsiynau ffiniau amgen gan y tîm prosiect, yn seiliedig ar harddwch naturiol, dadansoddiad o'r dirwedd, a chysondeb wrth gymhwyso'r ystyriaethau gosod ffiniau. |

| **2. Ceisiadau am newidiadau i'r ffin i gynnwys ardaloedd ychwanegol** |
|---|
| ANON-XRE3-VJWZ-K |
| Nid oes unrhyw gydlyniant rhwng dynodiad dŵr y dyffryn a'r **ardal i'r gogledd o ffordd yr A55 sy'n rhedeg i fyny i Dalacre**. Tynnwch y dynodiad o'r cynnig. Mae hefyd yn gul iawn ac yn ddibwrpas. |
| **Ymateb CNC:**<br>Mae rhannau helaeth o'r ardal hon ar hyn o bryd o fewn Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae adroddiad gwerthuso 2024 Gillespies o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored (y meini prawf statudol ar gyfer dynodiadau Parciau Cenedlaethol) yn cadarnhau bod yr ardal hon yn bodloni'r meini prawf ar gyfer dynodiad. Darparodd Adroddiad Buddion Natur 2025 CNC dystiolaeth ychwanegol o bwysigrwydd twyni Gronant a Thalacre o ran bywyd gwyllt.<br><br>Ar ôl adolygu adroddiad gwerthuso Gillespies, daeth CNC i'r casgliad nad oedd y rhesymau a roddwyd dros eithrio twyni Gronant a Thalacre yn gorbwyso profiad y cyhoedd o harddwch naturiol.<br><br>Nid oes angen i Barciau Cenedlaethol fod yn un math o dirwedd. Mae yna lawer o enghreifftiau o ucheldiroedd ac ardaloedd arfordirol ym Mharciau Cenedlaethol Eryri ac Arfordir Penfro.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol yn y lleoliad hwn.** |

| ANON-XRE3-VJST-9 |
|---|
| Ar y ffin lle rydych chi wedi torri hanner cylch i lawr i gynnwys **Talacre**, rydych chi wedi colli **cae sylweddol sy'n dod yn wlyptiroedd yn y gaeaf** ac rydym ni'n bersonol yn edrych allan ar boblogaeth gaeaf o hyd at 300 o gylfinirod. O ystyried pa mor dan fygythiad yw'r rhywogaeth honno, rwy'n synnu nad yw'r caeau hynny wedi'u cynnwys. Mae gennym goetiroedd hynafol sydd hefyd yn colli allan o drwch blewyn, ond maen nhw'n llawn teloriaid prin yn y gwanwyn a'r haf ac yn hafan i rywogaethau cynhenid yn y gaeaf, gan gynnwys cytref ystlumod sy'n gaeafgysgu. Dyna'r caeau a'r coedwigoedd rhwng Talacre a Than-lan yn unig.<br><br>Hefyd yn colli allan oherwydd y sgrafell ryfedd mae **gwarchodfa natur Big Pool Wood Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**, sy'n ased cymunedol gwych arall. |

| |
|---|
| Mae'n ymddangos i mi, drwy osod y ffiniau hyn, y bydd yn rhoi *carte blanche* i ddatblygiad anghyfreithlon barhau i ddinistrio cynefinoedd bywyd gwyllt y tu allan i'r ffin; nid yw bywyd gwyllt yn gwybod lle mae ffiniau penodol ac mae'n bwysig sefydlu coridorau bywyd gwyllt. Oherwydd natur y map, rydych chi'n gwasgu ardaloedd gwarchodedig bywyd gwyllt i mewn i goridor cul nad yw'n ddelfrydol oni bai eich bod chi'n gwarchod bywyd gwyllt ledled Gogledd Cymru. |
| **Ymateb CNC:**<br>Mae'r ffin wedi'i llunio i gynnwys ardaloedd sydd â'r dystiolaeth gryfaf o harddwch naturiol (gweler Nodyn Canllaw Gweithredol 001 CNC am fanylion y meini prawf dynodi a ddefnyddiwyd ar gyfer nodi tir i'w gynnwys). Mae'r ffin wedi'i llunio i osgoi lleoliadau lle mae parciau carafannau a therfynfa nwy’r Parlwr Du yn dylanwadu'n gryf ar brofiad y cyhoedd o harddwch naturiol, h.y. gydag effaith ar ansawdd golygfaol, cyflwr y dirwedd, llonyddwch, a phriodweddau gwylltineb. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod bod rhai caeau i mewn i'r tir o'r twyni, wedi'u dynodi'n SoDdGA, nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn ffin y Parc Cenedlaethol.<br><br>Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adfer byd natur (Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a tharged 30x30) yn ei gwneud yn ofynnol i Barciau Cenedlaethol flaenoriaethu camau i adfer byd natur. Mae gwerth natur y lleoliad hwn a phwysigrwydd datblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn yn cael ei ddeall yn dda gan arbenigwyr amgylcheddol CNC a Thirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Wrth symud ymlaen, pe bai Parc Cenedlaethol yn cael ei ddynodi, byddai pwysigrwydd y safleoedd a grybwyllir yn ffactor yng Nghynllun Gweithredu Adfer Byd Natur y Parc Cenedlaethol newydd a'i ffyrdd o weithio ar y cyd – ar gynefinoedd pwysig y tu allan ac yn gyfagos i'r ffin. Yn hyn o beth, ac fel y nodwyd yn Adroddiad Buddion Natur CNC, mae gweithio y tu hwnt i ffin y Parc Cenedlaethol yn rhywbeth y gall ei wneud i gefnogi adferiad byd natur.<br><br>I gloi, mae CNC yn fodlon bod lleoliad y ffin yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer dynodi Parciau Cenedlaethol. Mae'r pryderon a godwyd ynghylch cadwraeth byd natur eisoes yn cael sylw i ryw raddau gan ddynodiad SoDdGA, cynllunio defnydd tir, a dyletswyddau statudol ar gyfer diogelu bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Byddai'r Parc Cenedlaethol, pe bai'n cael ei ddynodi, hefyd yn ystyried y cyfleoedd i gefnogi rhwydweithiau ecolegol gwydn y tu hwnt i'w ffin, wrth ddatblygu ei Gynllun Gweithredu Adfer Natur.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol yn y lleoliad hwn.** |

| |
|---|
| ANON-XRE3-VJEP-Q |
| Dylai mwy o ardal **arfordir Prestatyn** fod o fewn ffiniau’r Parc Cenedlaethol arfaethedig. Oni bai am bwysau cyhoeddus, ni fyddai twyni Gronant yn cael eu cynnwys. |
| **Ymateb CNC:**<br>Adolygodd CNC yr achos dros gynnwys rhannau mwy o lân môr Gogledd Cymru yng ngham ardal chwilio’r prosiect (gweler adroddiad ardal chwilio 2023). Daethom i'r casgliad mai twyni Gronant a Thalacre yw'r unig ran naturiol sy'n weddill o arfordir y Gogledd-ddwyrain. Mae ymylon aber afon Dyfrdwy i'r dwyrain yn rhydd o amddiffynfeydd môr concrit yn yr un modd, ond roedd presenoldeb Dociau Mostyn yn cyfyngu ar y gallu i ymestyn y Parc Cenedlaethol tua'r dwyrain. Roedd y gallu i’w ymestyn tua'r gorllewin wedi'i gyfyngu gan natur ddatblygedig yr ymyl arfordirol yng nghyffiniau canolfan hamdden Nova.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol yn y lleoliad hwn.** |

| |
|---|
| ANON-XRE3-VJSZ-F |

| |
|---|
| Efallai cwmpasu **holl ardal arfordirol a thref Prestatyn.** Gan fod safleoedd hanesyddol o fewn y ffiniau. E.e. Castell Rhuddlan, y baddonau Rhufeinig ym Mhrestatyn. Ardal siopa annibynnol. Hefyd, dyma ddechrau taith gerdded Llwybr Clawdd Offa. |
| **Ymateb CNC:**<br>Mae'r Parc Cenedlaethol yn ddynodiad tirwedd. Dim ond aneddiadau sydd o fewn darn ehangach o dirwedd sy'n bodloni'r meini prawf dynodi sydd wedi'u cynnwys (e.e. Llangollen). Fel arfer, mae aneddiadau ar ymyl y dynodiad wedi'u heithrio. Gweler Nodyn Canllaw Gweithredol 001 CNC ar gyfer ystyriaethau gosod ffiniau.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol yn y lleoliad hwn.** |

| |
|---|
| ANON-XRE3-V55F-8; 713 |
| **Dylid ymestyn y ffin i gynnwys dyfroedd arfordirol Bae Lerpwl.** Mae hyn yn briodol o safbwynt tirwedd, ecolegol a hamdden, a byddai'n gwneud deddfwriaeth y 1940au yn gyfredol. Byddai hefyd yn enghraifft werthfawr o Gymru yn arwain y ffordd. |
| **Ymateb CNC:**<br>Mae rhaglen y Parciau Cenedlaethol wedi'i datblygu o fewn fframwaith y DU ar gyfer dynodiadau statudol tirol a morol. Dim ond cyn belled â lefel gymedrig y distyll ar hyd ymylon yr arfordir y gall ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig ymestyn.<br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol yn y lleoliad hwn.** |

| |
|---|
| ANON-XRE3-VJ2W-B |
| Cynnwys **Rhaeadr Dyserth** a'r **pentref** cyfan i ddenu ymwelwyr a cherddwyr i'r pentref, a fydd o fudd i dafarndai lleol, y siop fferm, a'r siop hufen iâ. |
| **Ymateb CNC:**<br>Mae Rhaeadr Dyserth a phentref isaf Dyserth yn lle arbennig sydd â chymeriad hanesyddol cryf. Ymchwiliodd CNC i sut y gellid cysylltu'r ardal hon â'r Parc Cenedlaethol, ond roedd cysylltiadau'n broblemus o ystyried patrwm yr anheddiad a'r chwarela, a echdynnodd ran fawr o Fynydd Hiraddug. Mae gan nodweddion a graddfa'r dirwedd hefyd fwy o arwyddocâd lleol na chenedlaethol.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol yn y lleoliad hwn.** |

| |
|---|
| 1569 |
| Addasu'r ffin o amgylch Ardal Werthuso 2 (Sgarp **Prestatyn–Dyserth** a Llwyfandir Trelawnyd) fel bod holl **SoDdGA Maes Hiraddug** o fewn y ffin yn hytrach na wedi'i rannu'n ddau. |
| Mae ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol yn dilyn llinell ffin yr AHNE (Tirwedd Genedlaethol), sydd yn yr achos hwn yn dilyn cyfres o linellau syth dros y Foel, gan greu llain glustogi rhwng darnau o chwarel Dyserth a gloddiwyd i'r gogledd a'r dynodiad AHNE. Mae ffin SoDdGA Maes Hiraddug yn dilyn ymyl uchaf y chwarel. Mae tua 75% o'r SoDdGA wedi'i gynnwys o fewn ffin y Parc Cenedlaethol.<br><br>**Ymateb CNC:**<br>Mae'r Parc Cenedlaethol arfaethedig yn cynnwys llawer o'r SoDdGA, ac os caiff ei ddynodi, gall awdurdod Parc Cenedlaethol weithio y tu hwnt i'w ffiniau i gefnogi dull cyson o'i reoli. Rydym yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol yn y lleoliad hwn. |

| |
|---|
| ANON-XRE3-VJ28-C; ANON-XRE3-VJBR-P |
| Rydym yn siomedig iawn nad yw pentref **Trelawnyd** wedi'i gynnwys. Byddwn yn profi'r holl anfanteision o ran parcio ychwanegol ac ati heb yr un o fanteision o fod y tu fewn i ffiniau'r parc. |

| |
|---|
| Byddai'r ffin yn rhannu ardal y cyngor cymuned. Nid yw Trelawnyd ar ei cholled a gall hyrwyddo polisi awyr dywyll ac ati fel un ardal, rhywbeth y mae Sir y Fflint i'w weld yn ei wrthsefyll.<br>Mae arwyddion ffin ddwyreiniol presennol y Dirwedd Genedlaethol eisoes i'r dwyrain o Drelawnyd. |
| **Ymateb CNC:**<br><br>Mae confensiynau gosod ffiniau ar gyfer tirweddau dynodedig (canllawiau gweithdrefnol CNC GN010) yn eithrio aneddiadau sy'n gorwedd ar y ffin. Gellir cynnwys aneddiadau sydd o fewn darn ehangach o dirwedd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer dynodi.<br><br>Adroddiad Arolygwyr Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol, Cyfrol 1, 2008 – nid yw'r ffaith bod plwyfi yn cael eu rhannu, ynddo'i hun, yn rheswm i gynnwys tir nad yw fel arall yn bodloni'r meini prawf (Adroddiad Arolygwyr Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol, Cyfrol 1, 2008, paragraff 81). Mae CNC yn casglu o hyn y byddai unedau lleol o adrannau etholiadol (wardiau) yn cael eu trin yn yr un ffordd ag unedau llywodraeth leol (plwyfi).<br><br>Nid yw Trelawnyd wedi'i gynnwys yn Nhirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol yn dilyn llinell ffin Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yma ar hyd ymyl orllewinol y pentref.<br><br>Byddai Trelawnyd yn dal i allu hyrwyddo ei hun fel porth i'r Parc Cenedlaethol newydd. Byddai gan Barc Cenedlaethol, pe bai'n cael ei ddynodi, ddyletswydd i reoli mynediad gan ymwelwyr ac unigolion sy'n byw mewn cymunedau lleol a cheisio ffyrdd o fynd i'r afael ag effeithiau lleol. Byddai hyn yn ymestyn i Drelawnyd o ystyried ei agosrwydd at y dynodiad.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol yn y lleoliad hwn.** |

| |
|---|
| ANON-XRE3-VJSG-V; ANON-XRE3-VJMA-G; ANON-XRE3-VJD3-S; ANON-XRE3-VJDM-K; ANON-P47N-6GWW-M; 717; 822; 924; 965 ; 1574; 1061; 1083; 212; 1494 |
| Hoffwn weld rhannau o **Fynydd Helygain** yn cael eu cynnwys yn y parc. Mae'r glaswelltir heb ei wella yn gynefin prin. Mae pori ar dir comin yn etifeddiaeth hanesyddol wych ond mae angen ei rheoli i warchod y glaswelltir. Mae'n debyg bod gwaith chwarela a buddiannau ystad Grosvenor yn anawsterau yma. Ond tybed a ellid cynnwys rhan o'r mynydd.<br><br>Dylai gynnwys Mynydd Helygain. Amrywiaeth o blanhigion prin, ffyngau ac adar. Yn gyfoethog o ran bywyd gwyllt, rhai yn arbenigo i gael eu denu gan hen weithfeydd plwm. Mae gwerth golygfaol hefyd.<br><br>Mae Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn dymuno mynegi cefnogaeth lwyr i greu Parc Cenedlaethol Glyndŵr, yn seiliedig ar ardal bresennol Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ond yn cynnwys ychwanegiadau sylweddol y mae croeso mawr iddynt i'r gogledd a'r de. Rydym yn cefnogi ailgynnwys Caergwrle, **Mynydd Helygain** a Mynydd Mynyllod. Hoffem weld yr ardaloedd hyn yn cael eu hystyried ymhellach. |
| **Ymateb CNC:**<br>Mae angen i ffin Parc Cenedlaethol dynnu at ei gilydd a chynnwys ardaloedd sy'n bodloni'r asesiad o harddwch naturiol yn gryf, yn darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, ac sydd i raddau helaeth yn gyffiniol ac yn rhydd o ddatblygiad ymwthiol nad yw'n gweddu â'r ardal. Yn achos Mynydd Helygain, mae CNC yn cydnabod tirwedd, cynefinoedd, treftadaeth ddiwydiannol a gwerth hamdden yr ardal hon. Fodd bynnag, mae nifer o elfennau sy'n tynnu oddi ar y dirwedd hon – seilwaith trydan a thelathrebu ar hyd y gorwel; gwaith chwarela ac adeiladau cysylltiedig; ymylon aneddiadau o'r ugeinfed ganrif yn wynebu tir comin agored – sy'n effeithio ar gyfanrwydd y dirwedd hon. |

Yn ogystal, nid oes gan y dirwedd ymhellach i'r gorllewin ddigon o harddwch naturiol. Mae hyn yn peryglu'r cydlyniant a'r cysylltiad â'r Dirwedd Genedlaethol.

**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol yn y lleoliad hwn.**

1595; 1617; 1621

Cynnwys **Dyffryn Ysgeifiog, Llyn Ysgeifiog**, a thir i fyny i **Gaerwys a Phen-y-cefn**.

Pryder ynghylch asesiad Ardal Werthuso 5: Gwanhewyd y gwerthusiad drwy gynnwys clustogfa 1 km, gan arwain at sgoriau canolig/isel. Ystyrir bod rhan ganolog Ardal Werthuso 5 (Iseldiroedd Caerwys) yn olygfaol iawn a dylid ei hystyried eto.
Rydym yn awgrymu cynnwys **Parcdir Caerwys ac Ystad Bryn Gwyn** ger Pen-y-cefn oherwydd ansawdd eu tirwedd er mwyn cryfhau'r stribed gogleddol cul o'r Parc Cenedlaethol arfaethedig.

Buddsoddwyd dros £400,000 yn ddiweddar mewn gwelliannau i wrychoedd, mentrau ansawdd dŵr, a pharthau torlannol yn Ardal Werthuso 03 a gorllewin Ardal Werthuso 05. Mae'r ddwy chwarel (Maes Mynan a Fron Haul) wedi cau, ac mae trydedd chwarel wedi bod yn segur ers dros 20 mlynedd. Ni ddylai'r rhain atal dynodiad; maent yn cynnig cyfleoedd ar gyfer byd natur a hamdden ac mae Maes Mynan yn trawsnewid yn warchodfa natur Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid Gogledd Cymru.

**Ymateb CNC:**
Mae gan **Ddyffryn Ysgeifiog** elfennau o harddwch naturiol – gwarchodfa natur SoDdGA Ddôl Uchaf, Llyn Ysgeifiog, coetir hynafol lled-naturiol o fewn dyffryn serth a chul. Mae ymdeimlad o le a phrofiad o ansawdd golygfaol yn gyfyngedig o ystyried y coetir sydd wedi'i amgáu ar hyd y dyffryn. Mae cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yn bresennol, ac mae hawliau tramwy cyhoeddus ar hyd un ochr i'r llyn, ac ar un ochr o'r dyffryn. Mae taith gerdded gylchol pum milltir o hyd a hyrwyddir yn cychwyn yng Nghaerwys, ac yn cynnwys rhan o'r dyffryn fel rhan o’i llwybr, sy'n awgrymu bod y dyffryn yn fwy o bwynt o ddiddordeb ar deithiau cerdded nag yn lle sy'n cynnig cyfleoedd i archwilio.

I grynhoi, mae'r dyffryn yn cynnwys elfennau o harddwch naturiol a rhywfaint o fynediad cyhoeddus. Fodd bynnag, mae CNC o'r farn nad oes dystiolaeth ddigonol bod y dirwedd hon â harddwch naturiol er mwyn ei chynnwys yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig.

Mae'r tir tuag at **Gaerwys a Phen-y-cefn** yn cwmpasu ardal helaeth o lwyfandir tir fferm tonnog, coetir a pharcdir, gyda nodweddion tir ffermio traddodiadol deniadol a phocedi o dirwedd nodedig. Fodd bynnag, nid oes ganddo dystiolaeth gref o fod â harddwch naturiol ar raddfa'r dirwedd.

Cynnwys **Caerwys** a **Pharcdir Bryn Gwyn**:
Mae pentref Caerwys yn arbennig o ddeniadol ac mae ganddo gymeriad treftadaeth a golygfeydd hyfryd tuag at rannau ogleddol Bryniau Clwyd. Mae confensiynau gosod ffiniau ar gyfer tirweddau dynodedig (canllawiau gweithdrefnol CNC GN010) yn eithrio aneddiadau sy'n gorwedd ar y ffin. Gellir cynnwys aneddiadau sydd o fewn darn ehangach o dirwedd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer dynodi.

Mae Neuadd Bryn Gwyn yn adeilad nodedig sydd â golygfeydd o'i lawnt flaen. Fodd bynnag, mae'r ystad ehangach yn ymddangos llai fel parcdir a mwy fel tir ffermio â blociau o goetir â chyfran uchel o gonwydd. Mae'r safle wedi'i gofnodi ar gofrestr Cadw o barciau a gerddi hanesyddol, sy'n rhoi rhywfaint o amddiffyniad i'r safle. Fodd bynnag, mae ansawdd golygfaol a nodweddion unigryw (elfennau o harddwch naturiol) y safle yn gyfyngedig.

| |
|---|
| Am y rhesymau uchod, daeth adroddiad gwerthuso 2024 Gillespies i'r casgliad bod ffin bresennol yr AHNE / Tirwedd Genedlaethol yn parhau i fod y lleoliad priodol ar gyfer ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol yn y lleoliad hwn.** |

| |
|---|
| ANON-XRE3-VJSF-U |
| Er mwyn sicrhau ansawdd a pharhad di-dor tirwedd yr ardal ddynodedig, rwy'n credu na ddylai'r parc hwn **ymestyn ymhellach i'r gogledd na ffordd y B5430 ger Graianrhyd**. |
| **Ymateb CNC:**<br>Ymddengys fod y cyflwyniad hwn yn awgrymu y dylid eithrio Bryniau Clwyd, Twyni Gronant a Thalacre, tirweddau calchfaen Bryn Alyn a Pharc Gwledig Loggerheads o'r ardal arfaethedig. Mae llawer o'r ardal hon yn gorwedd o fewn Tirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Cadarnhaodd adroddiad gwerthuso 2024 Gillespies fod y dirwedd hon yn dal i fodloni prawf harddwch naturiol eithriadol, felly mae'n parhau i fod o ansawdd digon uchel i'w chynnwys yn y dynodiad ar gyfer y Parc Cenedlaethol arfaethedig.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol yn y lleoliad hwn.** |

| |
|---|
| **Adfer rhan fach o ardal Ardal Werthuso 05** ar hyd ffordd yr A541 rhwng Melyn y Wern a Ddôl – i gynnwys **olion posibl Clawdd Offa**, y warchodfa natur yn Ddôl, rhan o Daith Pererin Gogledd Cymru i Dreffynnon, a ffynhonnau hynafol ar hyd afon Chwiler.<br><br>Mae Fferm Sarn a Swan Wood – ychydig i'r gogledd o ffordd yr A541 ger Gwarchodfa Natur Ddôl – yn cynnwys argloddiau sy'n gysylltiedig â Chlawdd Offa gwreiddiol, a arolygwyd yn ddiweddar gan yr Athro Keith Ray (Prifysgol Caerdydd). Maent yn dal i fod yn gyfan i raddau helaeth ac o ddiddordeb archaeolegol sylweddol.<br><br>'Offa's Dyke – Encounters & Explanations' – Dilynwch daith yr Athro Keith Ray, ffrind Cymdeithas Clawdd Offa, ar hyd Clawdd Offa – Cymdeithas Clawdd Offa [dolen]<br>Llwybr Clawdd Offa yn 50 oed – Newyddion – Prifysgol Caerdydd [dolen]<br>Cerdded y Llinell: Clawdd Offa o Lan i Lan yn 2023 [dolen]<br>Yr Athro Keith Ray – Pobl – Prifysgol Caerdydd [dolen] |
| **Ymateb CNC:**<br>Mae ein hadolygiad o gofnodion safleoedd a henebion (Cadw – henebion cofrestredig; cronfeydd data gwybodaeth archaeoleg a hanesyddol Heneb – Archwilio; a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru – Coflein) yn dangos nad yw'r darganfyddiadau archaeolegol wedi'u cofnodi'n ffurfiol eto. Mae cofnodion ar gyfer Clawdd Watt a Clawdd Whitford wedi'u cofnodi ar Archwilio.<br><br>Fel nodwedd fach sy'n dal i fodoli mewn lleoliad lle mae gweddill y clawdd wedi'i dynnu a'i goll i raddau sylweddol, mae'r darganfyddiad archaeolegol yn ychwanegu at stori hanesyddol a diwylliannol y lleoliad hwn sydd ar y ffin, ond ychydig iawn o dystiolaeth sydd ganddo yn y dirwedd. Mae cysylltu'r nodweddion treftadaeth a Gwarchodfa Natur Ddôl Uchaf rhwng Melyn y Wern a Ddôl o fewn ardal gydlynol yn broblemus oherwydd sawl chwarel sydd mewn gwahanol gamau o gael eu hadfer a'u hadfywio'n naturiol.<br><br>Yn yr achos penodol hwn, **mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol**. |

| |
|---|
| 876; 960; Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy |

Mae'r cynnig yn dadlau dros gynnwys **Castell Caergwrle, Park in the Past, dyffryn Nant-y-Ffrith a llwybr troed dyffryn afon Alun** o fewn ffin Parc Cenedlaethol Glyndŵr i gryfhau gwerth diwylliannol, hanesyddol, ecolegol a chymunedol ac ehangu buddion i ranbarth nad yw'n cael ei wasanaethu'n ddigonol.

**Tystiolaeth:**

Castell Caergwrle

• Adeiladwyd yn 1277 gan Edward I a Dafydd ap Gruffudd; symbol o hanes Cymru a Lloegr a heneb gofrestredig o arwyddocâd archaeolegol.

Park in the Past

• Safle 120 erw wedi'i adfer yn cynnwys llyn, coetiroedd, dolydd a gwlyptiroedd.
• Ardal sydd â lefel uchel o fioamrywiaeth; bellach yn gartref i bâr o afancod Ewrasiaidd (*Castor fiber*) sydd wedi magu perthynas, rhywogaeth allweddol sy'n ychwanegu gwerth cadwraeth sylweddol.
• Hwb hamdden sy'n cynnig nofio gwyllt, ceufadu, pysgota a cherdded.
• Dehongli treftadaeth drwy hanes byw'r cyfnod Rhufeinig a'r Oesoedd Canol.
• Rheolaeth dan arweiniad y gymuned a rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru.

Nodweddion sy'n gysylltu

• Llwybr troed Dyffryn Nant ac afon Alun: coridor diwylliannol golygfaol sy'n cysylltu byd natur a threftadaeth, yn cynnwys bont bynfeirch hanesyddol (rhestredig Gradd II, heneb gofrestredig).

Hamdden awyr agored

- Pen Llan y Gŵr (ger Bwlch Gwyn) – llwybr coetir a hyrwyddir ar hyd rhan o Ddyffryn Nant-y-ffrith gyda chyfleoedd ar gyfer golygfeydd eang i'r de a'r gorllewin i'r Dirwedd Genedlaethol.
- Parc Gwledig Waun y Llyn (Mynydd yr Hôb) gyda golygfeydd eang yn ôl ar draws i'r Dirwedd Genedlaethol i'r gorllewin ac allan i Loegr tuag at Frodsham Edge.

Cysylltedd y dirwedd a phrofiad ymwelwyr

- Mae llwybr troed afon Alun yn cysylltu'r safleoedd hyn yn goridor cydlynol sy'n cyfuno treftadaeth, hamdden ac ecoleg.
- Mae cysylltu Castell Caergwrle â Park in the Past trwy lwybrau naturiol yn cryfhau seilwaith gwyrdd y parc ac yn creu profiad unedig ar gyfer ymwelwyr.
- Mae llwybr glan yr afon yn cynnig llonyddwch a golygfeydd hardd, a ganmolir yn aml gan ymwelwyr.

Gwerth o ran bioamrywiaeth ac ecosystemau

- Mae afon Alun yn cynnal cynefinoedd amrywiol, gan gynnwys coetir torlannol, gwlyptiroedd, a glaswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau.
- Mae Park in the Past yn ychwanegu'r gallu i greu cynefinoedd ar raddfa fawr ac ecoleg yn ymwneud â chyrff dŵr, gan ategu gwarchodfeydd natur presennol.
- Mae presenoldeb afancod Ewrasiaidd yn ddarganfyddiad gweddnewidiol, gan gyd-fynd â blaenoriaethau bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru a gwarchodaethau cyfreithiol.
- Potensial ar gyfer Prosiect Afancod Gogledd Cymru, gan ategu mentrau yng Ngwarchodfa Natur Cors Dyfi a Gwarchodfa Natur Green Gates, gan wella cysylltedd ecolegol a gwydnwch hinsawdd.

Cyfraniad at amcanion y Parc Cenedlaethol

- Cadwraeth: Yn gwarchod harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol.

- Dealltwriaeth a mwynhad: Yn hyrwyddo mynediad trwy lwybrau a dehongliadau o’r dreftadaeth.
- Cymunedau cynaliadwy: Yn cefnogi gwirfoddoli, addysg a llesiant.

Cymuned a llesiant
- Mae'r safleoedd hyn yn cael eu defnyddio'n helaeth gan bobl leol, gan wasanaethu fel pyrth hygyrch i'r Parc Cenedlaethol.
- Darparodd Park in the Past gymorth iechyd meddwl hanfodol yn ystod pandemig COVID-19 ac mae'n parhau i gynnig cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff yn yr awyr agored a chysylltiadau cymdeithasol.

Cyfleoedd addysgol
- Mae Park in the Past yn cynnig addysg dreftadaeth ymarferol, gan ail-greu agweddau ar fywyd yn ystod y cyfnod Rhufeiniaid a’r cyfnod cynhanesyddol.
- Mae Castell Caergwrle yn darparu ffocws ar hanes ac archaeoleg ganoloesol.
- Mae afon Alun a’r bont bynfeirch yn cynnig addysg amgylcheddol, gan greu profiad ystafell ddosbarth awyr agored amrywiol.

Twristiaeth a buddion economaidd
- Byddai ei chynnwys yn gwneud y Parc Cenedlaethol yn ddeniadol nid yn unig am ei olygfeydd ond hefyd ar gyfer twristiaeth treftadaeth, gan ddenu ymwelwyr sydd â diddordeb mewn cestyll, pontydd hynafol, a phrofiadau hanes trochi.
- Gallai hyn ddod â buddion sylweddol i gymunedau cyfagos drwy dwristiaeth gynaliadwy a thwf busnesau lleol.

Pwysigrwydd strategol
- Yn darparu cydbwysedd rhanbarthol ar gyfer Gogledd-ddwyrain Cymru.
- Yn creu clwstwr treftadaeth–tirwedd sy'n cyfuno hanes a byd natur.

Yn gwella enw da byd-eang Cymru drwy asedau diwylliannol ac ecolegol unigryw.

**Ymateb CNC:**
Mae'r cyflwyniad yn tynnu sylw at sawl nodwedd o werth treftadaeth, amgylchedd naturiol a hamdden yng nghyffiniau Caergwrle a allai ‘gryfhau cymysgedd unigryw'r Parc Cenedlaethol o hanes, tirwedd, byd natur, ac ymgysylltiad cymunedol’.Mae'r rhain yn cynnwys Castell Caergwrle, y bont bynfeirch, Park in the Past, a Dyffryn y Nant.

Mae CNC yn cytuno ei fod yn cadarnhau bod nodweddion hanesyddol a naturiol o werth treftadaeth, ac mae'r cyflwyniad yn cyflwyno dadl dros sut y gellid cysylltu'r safleoedd bach, nodweddion a choridorau llinol hyn yn ffisegol ac yn ddiwylliannol wrth adrodd hanes y lleoliad hwn sydd ar y ffin. Mae'r buddsoddiad y gallai dynodiad Parc Cenedlaethol ei ddenu i Gaergwrle yn amlwg.

Ymateb CNC:
Gwerthusodd adroddiad 2024 Gillespies Ardal Werthuso 14 Mynydd yr Hôb, a oedd yn cynnwys Dyffryn Nant-y-ffrith, Mynydd yr Hôb, Castell Caergwrle, a Park in the Past. Daeth yr asesiad i’r casgliad nad oedd llawer o’r ardal yn bodloni’r meini prawf o ran harddwch naturiol (mae elfennau anghydnaws sy’n effeithio ar ansawdd y golygfeydd yn bresennol, mae gwylltineb cymharol a diddordeb naturiol / safleoedd gwarchodedig yn gyfyngedig) a bod cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yn gyfyngedig.

| |
|---|
| Mae parc gwledig Waun y Llyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored a phrofiad cryf iawn o harddwch naturiol a golygfeydd hynod o hardd i'r pellter. Fodd bynnag, mae mynediad drwy lonydd gwledig cul a serth yn cyfyngu ar botensial y safleoedd i gyflawni cyfleoedd hamdden y tu hwnt i gymunedau lleol.<br><br>Gwahoddodd sylwadau ymgynghoriad 2024 CNC i adolygu'r ardal eto ac fe wnaethom ymweld â Chastell Caergwrle a Park in the Past sawl gwaith yn ystod haf 2025.<br><br>Fe wnaethon ni ganfod bod Castell Caergwrle o werth treftadaeth nodedig, a'i fod yn cynnwys lleoliad coetir deniadol. Mae Park in the Past yn stori lwyddiant o ran sut mae hen chwarel tywod a graean a adferwyd yn rhannol / wedi'i chynefino wedi'i hailddefnyddio ar gyfer pobl a threftadaeth trwy weledigaeth a phenderfyniad.<br><br>Roedden ni eisoes wedi nodi coridorau coediog dyffrynnoedd Nant-y-ffrith a Chegidog a phocedi o goetir lled-naturiol hynafol fel coridorau bywyd gwyllt gwerthfawr a nodweddion sy'n chyfrannu at gymeriad y dirwedd. Fodd bynnag, mae ansawdd golygfaol, natur unigryw ac ymdeimlad o le yn gyfyngedig ar lawr coediog y dyffryn. Mae Pen Llan y Gŵr a'i ochrau serth ym mhen gorllewinol Nant-y-ffrith yn darparu cyfleoedd ar gyfer golygfeydd eang, fel sy'n wir am barc gwledig Waun y Llyn. Mae mynediad a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yn gyfyngedig fel arall ac mae sawl rhan o'r dyffryn rhwng Caergwrle a'r Dirwedd Genedlaethol bresennol heb hawliau tramwy cyhoeddus.<br><br>I gloi, mae gan safleoedd Castell Caergwrle a Park in the Past elfennau o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Safleoedd bach ydyn nhw sydd rhywfaint o bellter o'r Dirwedd Genedlaethol – lleoliad y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Dyffryn Nant-y-ffrith yw'r cyswllt hanfodol rhwng y Parc Cenedlaethol arfaethedig a safleoedd Caergwrle. Fodd bynnag, nid yw'n bodloni'n ddigonol y meini prawf o ran harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored.<br><br>Er y byddai cynnwys y safleoedd a'r coridorau coetir hyn o fewn Parc Cenedlaethol yn helpu i gefnogi'r cyfleoedd a amlygwyd yn y cyflwyniad, mae'r meini prawf statudol ar gyfer cynnwys tir o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig yn seiliedig ar werthuso harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored.<br><br>Am y rhesymau hyn, **mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| ANON-XRE3-VJXK-5;1389 |
|---|
| **Dyffryn Clwyd**<br>Dylid ymestyn y ffin tua'r de i gynnwys Rhuthun, Rhewl, Hendre-rwydd, Gellifor a Llandyrnog (ac o bosibl Llanrhaeadr-ym-Mochnant a Dinbych). Bydd y rhan o Ddyffryn Clwyd sydd wedi'i chynnwys ar hyn o bryd yn annog cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal, Bryniau Clwyd yn benodol, a allai fod yn annhebygol o gyfrannu'n gymesur at fusnesau a chyflogaeth leol yn y dyffryn wrth gynyddu costau cynnal a chadw yn ymwneud â mynediad cyhoeddus mewn perthynas ag erydu llwybrau troed ac ati. |
| **Ymateb CNC:**<br>Ystyriwyd rhannau o Ddyffryn Clwyd yng ngham cychwynnol ardal chwilio'r prosiect (gweler Adroddiad Ardal Chwilio 2023 CNC). Daeth gwerthusiad Gillespies o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored (adroddiad 2024 Gillespies) i'r casgliad mai dim ond yn rhannol yr oedd yr ardal hon yn bodloni'r meini prawf o ran dynodiad, felly ni fyddai'n cael ei hystyried bellach, ac mae ffin y Parc Cenedlaethol wedi'i llunio i ddilyn ffin bresennol y Dirwedd Genedlaethol. |

| |
|---|
| Adolygodd CNC yr opsiwn o gynnwys Rhuthun, y castell, parcdir a choetir, ac ehangu hyn tua'r de i Bwll-glas. Fodd bynnag, mae confensiynau[2] gosod ffiniau ar gyfer tirweddau dynodedig yn ei gwneud yn ofynnol i aneddiadau sy'n gorwedd ar y ffin gael eu heithrio ac nid oedd y dirwedd yma yn bodloni'r meini prawf dynodi yn llawn.<br><br>Mae gan Ddyffryn Clwyd a Bryniau Clwyd berthynas weledol gref ac ymdeimlad o le. Waeth lle y mae ffin y Parc Cenedlaethol wedi'i thynnu, byddai aneddiadau, busnesau lleol a chyfleusterau ymwelwyr yn y Dyffryn yn gallu defnyddio'r Parc Cenedlaethol wrth farchnata.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| |
|---|
| 834 |
| Hoffwn weld **Coedwig Clocaenog** yn cael ei chynnwys |
| **Ymateb CNC:**<br>Ystyriwyd Coedwig Clocaenog fel rhan o werthusiad CNC o Ogledd Cymru, wrth sefydlu'r ardal chwilio ar gyfer prosiect y Parc Cenedlaethol yn 2023 (gweler adroddiad ardal chwilio 2023 CNC). Er bod y goedwig a Llyn Brenig yn bodloni'r meini prawf ar gyfer dynodiad statudol o ran cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, nid ydynt gyda'i gilydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer harddwch naturiol oherwydd datblygiad fferm wynt.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| |
|---|
| ANON-XRE3-VJ14-7: ANON-XRE3-VJ1F-S; 614; 615; 868; 1076; 1365 |
| **Dyffryn Clywedog (Coed-poeth)**<br>Mae Partneriaeth Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Dyffryn Clywedog yn cefnogi ymestyn ffin Parc Cenedlaethol Glyndŵr y tu hwnt i fwyngloddiau plwm Mwynglawdd i gynnwys ardaloedd eithriadol o dreftadaeth naturiol a diwydiannol yng Nghoedwig Plas Power, Melin y Nant, a Chanolfan Dreftadaeth Bers.<br>Tystiolaeth:<br>Gwerth treftadaeth rhagorol:<br>• Gwerth treftadaeth rhagorol – treftadaeth o arwyddocâd cenedlaethol yn adrodd hanes dechrau chwyldro diwydiannol Prydain â chysylltiadau penodol â John Wilkinson.<br>• Mae’r rhan drawiadol hon o Glawdd Offa, sydd wedi'i chadw'n dda, yn ychwanegu at y dreftadaeth gyfoethog sydd yn y dyffryn.<br><br>Treftadaeth naturiol:<br>• Coetir lled-naturiol hynafol, dŵr a rhaeadrau – llonydd iawn.<br><br>Cyfleoedd sylweddol ar gyfer hamdden awyr agored:<br>• Llwybr Clywedog yn dilyn dyffryn yr afon o Ganolfan Dreftadaeth Bers, trwy Goedwig Plas Power (safle Coed Cadw) a Pharc Gwledig Melin y Nant i Barc Gwledig Mwyngloddiau Plwm Mwynglawdd.<br><br>Cyfleoedd:<br>• Mae partneriaeth gymunedol weithredol yn ceisio gwireddu'r potensial y mae'r ardal hon yn ei gynnig a'r buddion y gellid eu cyflawni ohoni.<br>• Ei agosrwydd at gymunedau Wrecsam a'r potensial y mae'n ei gynnig ar gyfer hamdden awyr agored. |

[2] Canllawiau Gweithdrefnol CNC GN010

- Mae cynnwys yr ardal yn cyd-fynd ag amcanion cais y Loteri Dreftadaeth a dibenion y Parc Cenedlaethol, yn enwedig o ran ymgysylltu â'r gymuned ac addysg.

**Ymateb CNC:**
Mae CNC yn ystyried bod rhannau o Goedwig Plas Power a Melin y Nant o Ddyffryn Clywedog yn bodloni'r meini prawf yn ymwneud â harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Fodd bynnag, mae cyflwr y dirwedd lle mae Dyffryn Clywedog uchaf yn cwrdd â Mynydd Rhiwabon yn cael ei effeithio arno'n fawr, gan gyfyngu ar y gallu i dynnu ardal gydlynol o dirwedd o werth cenedlaethol at ei gilydd o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig.

Y rhesymau dros eithrio'r ardal hon o ffiniau'r Parc Cenedlaethol yw canlyniad y materion cyd-destunol canlynol:

Ym mhen uchaf Dyffryn Clywedog lle mae'n cysylltu â Mynydd Rhiwabon a mwyngloddiau plwm Mwynglawdd (o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig), mae peilonau'r Grid Cenedlaethol, gwifrau uwchben ac ymyl anheddiad Coed-poeth yn dominyddu'r dirwedd (gan amharu ar gyflwr y dirwedd – cyfanrwydd, llonyddwch cymharol, gwylltineb ac ansawdd golygfaol).

Mae'n anodd cymhwyso egwyddor 'golchi drosodd' (cynnwys tir sydd o ansawdd is lle mae o fewn darn ehangach sydd o ansawdd da) yma o ystyried maint yr elfennau sy'n tynnu oddi ar harddwch yr ardal. Mae natur linol gul Coedwig Plas Power a Melin y Nant hefyd yn golygu ei bod yn dirwedd ar raddfa sydd o arwyddocâd mwy lleol na chenedlaethol, er bod ganddi dreftadaeth o bwys cenedlaethol.

**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.**

ANON-XRE3-VJP9-B

Cynnwys **y Waun** o fewn y ffin o ystyried mai'r gymuned ydyw sy'n cefnogi Castell y Waun, sydd o fewn y Parc Arfaethedig, yn ogystal â Thraphont Ddŵr y Waun a'r fynedfa draddodiadol i Ogledd Cymru ar hyd llwybr gwreiddiol ffordd yr A5.

**Ymateb CNC:**
Mae confensiynau gosod ffiniau ar gyfer tirweddau dynodedig yn eithrio aneddiadau sy'n gorwedd ar y ffin. Gellir cynnwys aneddiadau sydd o fewn darn ehangach o dirwedd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer dynodi.
**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.**

ANON-XRE3-VJ3E-T

Nid yw'r ffin ger **y Waun** yn cynnwys **y Safle Treftadaeth y Byd cyfan**, gan hepgor ardal y gamlas yn y Waun.

**Ymateb CNC:**
Mae'r ffin wedi'i llywio gan leoliad ffin Cymru a Lloegr, sy'n torri ar draws y gorlifdir. Mae'r rhannau o Draphont Ddŵr y Waun a basn y gamlas sydd o fewn Cymru wedi'u cynnwys.
**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.**

**Mynydd Mynyllod, rhannau uchaf Dyffryn Dyfrdwy, Llandrillo, ac Ystad Rug**

Mae nifer o sylwadau yn sôn am un neu fwy o'r ardaloedd hyn. O ystyried eu rhyngberthynas, rydym wedi casglu a chrynhoi'r pwyntiau allweddol o fewn un ymateb.

**Ymatebion a ddaeth i law**

ANON-XRE3-VJ2D-R; ANON-XRE3-VJNK-U; ANON-XRE3-VJHM-Q; ANON-XRE3-VJSU-A; ANON-XRE3-VJCU-T; ANON-XRE3-VJ9X-K; ANON-XRE3-VJ5K-2; ANON-XRE3-VJ2D-R; ANON-XRE3-VJT2-8; ANON-P47N-6GWV-K; ANON-XRE3-VJC1-P; ANON-XRE3-VJBD-8; ANON-XRE3-VJRT-8; ANON-XRE3-VJHF-G; ANON-XRE3-VJSU-A; ANON-XRE3-VJSH-W;

| |
|---|
| ANON-XRE3-VJT4-A14; 666; 669; 973; 1565; 1606; 1635; 1005; 1014; 1016; 1017; 1018; 1021; 1024; 1025; 1245; 1246; 1028; 1035; 1280; 1238; 1070; 1129; 1199; 1345; 1373; 1401; 1427; 1441; 1475; 1496; 1053; 1558; 1296; 1303; 1319; 1399; 1401; 1444; 1475; 1453; 1448; 1457; 1464; 1472; 1473; 1474; 1475; 1510; 1532; 1545; 1564; 1571; 1576; 1577: 1581; 1582; 1588; 1606; 1616: 1635; 1638; 1639; 1640 |

Mae'r ymatebwyr yn cefnogi creu Parc Cenedlaethol Glyndŵr ond yn gwrthwynebu'n gryf eithrio **Ardal Werthuso 20 (EA20) Mynydd Mynyllod, Llandrillo, a rhannau uchaf Dyffryn Dyfrdwy** o'r ffiniau arfaethedig. Mae eithrio EA20 yn tanseilio cydlyniant y Parc Cenedlaethol arfaethedig ac yn gadael ardal o werth golygfaol, ecolegol a diwylliannol uchel yn agored i ddatblygiad diwydiannol.

**Tystiolaeth a gyflwynwyd:**

- Gwerth hamdden: Mae EA20 yn cynnig llwybrau ceffylau a llwybrau troed helaeth, golygfeydd godidog, a mannau llonydd ar gyfer cerdded, marchogaeth, a gweithgareddau dŵr megis nofio gwyllt a phadlfyrddio.
- Mae'r hen linell reilffordd rhwng Dolgellau a'r Rhyl yn gyfle i ddatblygu llwybr teithio diogel amlddefnydd ar gyfer pob math o ddefnyddiwr, o un pentref a thref i'r llall. Mae potensial i gynyddu incwm i fusnesau megis y Bryntirion Inn yn Llandderfel a'r Blue Lion yng Nghynwyd.
- Fel marchog brwd, rwy'n gwerthfawrogi mynediad i Fynydd Mynyllod yn fawr. Mae'r milltiroedd o lwybrau ceffylau yn darparu cysylltiadau hanfodol â dyffrynnoedd Llandrillo a Chynwyd. Rwyf hefyd yn gerddwr brwd ac yn aml yn cerdded ar hyd y llwybrau troed a'r tir mynediad agored yn yr ardal hon. Mae'n cynnig heddwch, llonyddwch, a mynediad hawdd at olygfeydd ysblennydd, sy'n amrywio o Fynyddoedd y Berwyn yn y de i'r cadwyni mynyddoedd yn y gogledd.
- Er bod tirwedd Mynyddoedd y Berwyn yn odidog, Mynydd Mynyllod fu ein cyrchfan ddewisol erioed pan fo'r tywydd yn heriol. Mae'n cynnig golygfeydd epig ac eang ac yn teimlo'n anghysbell ac yn wyllt, ond eto mae'n ddiogel ac yn hygyrch pan nad yw'r copaon uchel yn ddiogel.
- Un o'r prif resymau dros gynnwys ardal Mynyllod yw ei bod yn un o'r lleoliadau mwyaf trawiadol yn yr ardal â golygfeydd ysblennydd o fynyddoedd Eryri, Mynyddoedd y Berwyn, a Bryniau Clwyd yn eu cyfanrwydd.
- Mae'r Berwyn a Dyffryn Dyfrdwy o Gorwen i Landderfel yn drysor hanesyddol a golygfaol. I mi, y rhan uchaf hon o Ddyffryn Dyfrdwy yw'r dirwedd ddelfrydol, yn ehangach na'r darn isaf creigiog a chyfyng i Langollen, ac yn cynnwys golygfeydd ehangach dros borfeydd llai mynyddog ar draws afon Dyfrdwy hardd tuag at y Berwyn a siapiau tonnog Mynydd Mynyllod.
- Pwysigrwydd ecolegol: Mae'r ardal yn darparu clytwaith o gynefinoedd hanfodol sy'n cynnal rhywogaethau megis y gylfinir, y gornchwiglen, gwalch Marthin a'r hebog tramor, ac yn gweithredu fel coridor bywyd gwyllt rhwng Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig pwysig.
- Mae Llyn Mynyllod yn un o'r llynnoedd gorau yng Ngogledd Cymru ar gyfer brithyllod cynhenid.
- Mae gan Fynydd Mynyllod gymysgedd o gynefinoedd lled-naturiol diddorol a gwerthfawr megis ffynhonnau dŵr, rhosydd sych, ffeniau a llyn. Yma mae pump i wyth pâr o ylfinirod yn ceisio nythu'n flynyddol (o fewn Ardal Gylfinirod Bwysig 5), a niferoedd pwysig o gornchwiglod yn nythu ac yn bwydo. Mae gweilch Marthin hefyd yn nythu ac yn bwydo yma, ynghyd ag adar rhestr goch/oren eraill megis cudyllod coch, bodaod tinwyn, bodaod coed, teloriaid, pincod, teloriaid helyg, y pendro bach, ehedyddion, llwydiaid y gwrych, a

chornbigau. Mae hebogiaid tramor i'w cael yma yn nythu ac yn hela'n rheolaidd. Mae'n wir dweud bod Mynydd Mynyllod yn gynefin 'neidio' i adar eraill megis tinwennod, cudyllod cochion, hebogiaid tramor a barcudiaid coch, sy'n nodweddion o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig y Berwyn a Migneint-Arenig-Dduallt ar y naill ochr a'r llall iddo. Mewn rhai blynyddoedd, mae tylluanod clustiog yn hela yma yn ystod y gaeaf.

- Fel gwyliwr adar brwd, gallaf dystio bod Mynydd Mynyllod a'r dyffryn cyfagos yn darparu clytwaith hanfodol o gynefinoedd sy'n cynnal amrywiaeth gyfoethog o fywyd adar. Mae'r newid o ecosystem afonol afon Dyfrdwy – cartref i fronwennod y dŵr a gleision y dorlan – i fyny i'r rhostir agored yn creu coridor unigryw ar gyfer bywyd gwyllt. Mae'r ardal yn faes hela ar gyfer adar ysglyfaethus, gan gynnwys barcudiaid coch a bwncathod, ac mae'n gwasanaethu fel parth clustogi hanfodol ar gyfer y poblogaethau bregus o adar sy'n nythu ar y ddaear a geir ar gadwyn gyfagos y Berwyn. Byddai rhoi statws Parc Cenedlaethol yma yn sicrhau cadwraeth y cynefinoedd unigryw hyn.
- Cysylltedd: Mae'r ardal yn gweithredu fel "carreg gamu" ecolegol hanfodol rhwng Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig pwysig, gan gefnogi bioamrywiaeth a gwydnwch.
- Mae Asesiadau o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol yn cadarnhau bod EA20 o werth golygfaol a diwylliannol uchel. Mae gwerthusiadau LANDMAP yn rhoi sgôr "uchel" i Fynydd Mynyllod am rinweddau gweledol a synhwyraidd ac yn nodi bod gan rannau uchaf Dyffryn Dyfrdwy "harddwch naturiol eithriadol". Mae'r ardal hefyd yn gweithredu fel sgrin weledol, gan leihau effaith ffermydd gwynt presennol. Mae'r canfyddiadau hyn yn gwrth-ddweud honiad CNC nad oes gan y dirwedd ansawdd digonol.
- Mae asesiad terfynol CNC yn cydnabod ymdeimlad cryf o le EA20 ac ansawdd golygfaol uchel ond yn ei heithrio oherwydd ffactorau gweledol dros dro (tyrbinau gwynt). Mae ymatebwyr yn dadlau bod hyn yn anghyson â dyletswydd CNC i wella tirweddau ac yn afresymol o ystyried bod Llandderfel wedi'i gynnwys tra bod ei gefndir golygfaol, Mynydd Mynyllod, wedi'i eithrio.
- Arwyddocâd diwylliannol a threftadaeth: Mae nodweddion hanesyddol, tirweddau traddodiadol, a hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig gref yn gwneud EA20 yn rhan annatod o dreftadaeth y rhanbarth.
- Mae gan yr ardal hon hanes dwfn: dyma ddyffryn Edeirnion, un o'r ardaloedd olaf o Gymru lle parhaodd barwn brodorol a llys maenoraidd â ffocws lleol, gyda'i gofnodion ei hun, i weithredu i mewn i'r ail ganrif ar bymtheg. Plas Uchaf oedd neuadd y barwniaid yn y bymthegfed ganrif nes iddi symud i Gwerclas; mae'r ddau yn gyfan ym mhen gogleddol EA20, ynghyd â llawer o adeiladau a ffermydd cysylltiedig eraill.
- Rôl strategol: Mae Llandrillo wedi'i amlygu fel porth naturiol i ucheldiroedd y Berwyn, â seilwaith presennol i gefnogi'r gwaith o reoli ymwelwyr ac adfywio economaidd.
- Parhad a chydlyniant: Mae eithrio EA20 yn creu toriad afresymol yn nalgylch Dyffryn Dyfrdwy ac yn tanseilio cyfanrwydd y Parc Cenedlaethol arfaethedig.
- Bydd cynnwys EA20 yn creu ffin ar gyfer y parc sy'n gwneud synnwyr. Bydd yn amddiffyn y Berwyn ac yn creu tirwedd hyfyw a defnyddiadwy ar ochr orllewinol y parc yn hytrach na gorffen ar y llethr i lawr o'r Berwyn. Mae Dyffryn Dyfrdwy hyfryd gyda'i bentrefi cyfan yn ganolfan naturiol ar gyfer teithiau cerdded hir i fyny i'r Berwyn a Mynydd Mynyllod.

**Pryderon:**

- Gwelir bod rhesymeg CNC dros eithrio yn ddiffygiol, yn aneglur ac yn anghyson, yn enwedig o ystyried ansawdd golygfaol uchel yr ardal a'i gwerth bioamrywiaeth. Mae'r penderfyniad yn seiliedig ar dybiaethau anghywir ynghylch cydlyniant tirwedd a ffactorau dros dro sy'n tynnu

oddi ar olygfeydd, megis tyrbinau gwynt, gan anwybyddu cyfanrwydd geomorffolegol a phwysigrwydd ecolegol yr ardal.

- Dylid cynnwys dalgylch cyfan afon Dyfrdwy, gan gynnwys y rhan rhwng Pont Cilan a Chorwen. Mae'r afon yn gynefin hanfodol i nodweddion megis eogiaid, pysgod pysgota â rhwyd sân, gwrachod du, llyswennod, a misglod perlog.
- Paradocs y Parc Cenedlaethol. Mae CNC yn gwrthwynebu cynnig fferm wynt Gaerwen oherwydd ei heffeithiau andwyol sylweddol ar y dirwedd, ond mae'n eithrio'r un ardal o ffiniau'r Parc Cenedlaethol.
- Cynsail gyfreithiol. Mae dyfarniadau diweddar yr Uchel Lys (e.e. RWE v Gweinidogion Cymru, 2025) yn cadarnhau y gall amddiffyn lleoliad Parc Cenedlaethol fod yn bwysicach na buddion ynni adnewyddadwy. Byddai dynodiad llawn o EA20 yn darparu sicrwydd cyfreithiol cryfach na dibynnu ar statws "lleoliad" yn unig.
- Mae ei heithrio yn gadael EA20 yn agored i ddatblygiad diwydiannol (e.e. fferm wynt Gaerwen), rhywbeth y mae ymatebwyr yn dadlau sy'n gwrth-ddweud pwrpas dynodiad Parc Cenedlaethol.
- Mae ymatebwyr yn pwysleisio y byddai dynodiad yn darparu amddiffyniad parhaol a chyfleoedd ar gyfer adfer byd natur, cadwraeth ddiwylliannol, a thwristiaeth gynaliadwy.

**Newidiadau y gofynnir amdanynt:**

1. Mae Llandrillo gyfan wedi'i chynnwys o fewn y ffin.
2. Mae'r ardal i'r gorllewin o ffordd y B4401, a ystyriwyd yn wreiddiol, wedi'i hadfer.
3. Mae unrhyw welliannau i'r seilwaith yn cael eu cefnogi gan y Parc Cenedlaethol, nid awdurdodau lleol.
4. Addasiad ffin rhesymegol: Defnyddiwch ffordd yr A494 neu ffiniau Gwynedd / Sir Ddinbych i gynnwys Mynydd Mynyllod, gan sicrhau ffiniau parc cydlynol a naturiol wrth fynd i'r afael â phryderon ynghylch tyrbinau presennol.
5. Ymestyn y ffin i gyrraedd ffordd yr A494 ac ymestyn i ffin Gwynedd ger Bethel.
6. Dylid cynnwys palmant calch Coed y Castell / Coed y Galchog / Graig Lom ar gyrion Efenechdyd.
7. Cynnwys pentref Llandrillo a basn afon Dyfrdwy rhwng Llandrillo a Rhug, gan gynnwys y parcdir hanesyddol.
8. Cynnwys rhan uchaf Dyffryn Dyfrdwy yng Nghynwyd a Llandrillo, Mynydd Mynyllod, coridor ffordd yr A494 a Glan-yr-afon, a rhan o gadwyn o fynyddoedd yr Arenig nad yw o fewn Eryri (Foel Goch yn Llangwm).

**Ymateb CNC:**

Wrth lunio ffiniau'r Parc Cenedlaethol, mae Gillespies ac CNC wedi gwerthuso'r meini prawf statudol ar gyfer dynodiad (harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored).

Nodwn fod tystiolaeth sylweddol wedi'i chyflwyno i gefnogi barn yr ymatebwyr bod Ardal Werthuso 20 Mynydd Mynyllod (sy'n cynnwys Mynydd Mynyllod a rhannau uchaf Dyffryn Dyfrdwy) yn cynnwys digon o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored i'w chynnwys yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig.

**Mynydd Mynyllod**
Mae CNC yn cytuno bod tystiolaeth gref o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored o fewn ucheldiroedd agored Mynydd Mynyllod. Fodd bynnag, mae presenoldeb tri thyrbin gwynt Braich Ddu a thri thyrbin llai ger Syrior yn nodweddion sy'n tynnu oddi ar y golygfeydd ac yn effeithio'n negyddol ar ganfyddiadau o wylltineb a llonyddwch. Nid yw eu

dylanwad yn ymestyn yn gyfan gwbl ar draws Mynydd Mynyllod ac maent yn parhau i fod yn ardaloedd lle nad yw'r golygfeydd wedi'u heffeithio arnynt.

Awgrymwyd bod y nodweddion hyn yn rhai dros dro ac yn agosáu at ddiwedd eu hoes weithredol. Profiad Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygu CNC yw bod ailbweru safleoedd tyrbinau yn digwydd yn gyffredin ar ddiwedd eu hoes weithredol.

Rydym wedi ymchwilio i opsiynau ar gyfer llunio ffiniau'r Parc Cenedlaethol mewn ffordd sy'n cynnwys yr ardaloedd harddwch naturiol mwyaf cyfan a llonydd, ond nid ydym wedi nodi ffordd sy'n gyson ag ystyriaethau gosod ffiniau (canllawiau gweithdrefnol CNC GN010) neu sydd â rhesymeg ar lawr gwlad.

Am y rhesymau hyn, nid ydym wedi gallu cynnwys yr ardal hon o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig.

**Llethrau bryniau'r dyffryn gorllewinol**
Mae llethrau bryniau gorllewinol rhannau uchaf Dyffryn Dyfrdwy, rhwng Cynwyd a Llandrillo, yn cynnwys cymysgedd o dir fferm caeedig, porfa lled-ucheldir (uwchben Tyfos), gweddillion coetir hynafol, a phlanhigfeydd coedwigaeth. Mae ffermydd gwasgaredig (mae rhai wedi tyfu y tu hwnt i safleoedd bach traddodiadol), fferm solar, a thri thyrbin gwynt bach ar y gorwel. Er bod yr ardal yn cynnig ansawdd golygfaol cymedrol i uchel gyda rhai elfennau deniadol a lefel uchel o lonyddwch, nid oes ganddi gymeriad cryf sy'n ei dwyn ynghyd. Mae'r gwylltineb yn gymedrol, ac mae'r dreftadaeth naturiol yn gymedrol i uchel (dim safleoedd gwarchodedig ond mae'n cynnwys rhan o ardal bwysig ar gyfer cylfinirod). Mae treftadaeth ddiwylliannol yn gyfyngedig (Cylch Cerrig Tyfos), ac mae nodweddion nodedig yn bennaf yn yr ucheldiroedd uwchben. Yn seiliedig ar y gwerthusiad hwn, nid yw'r ardal hon o dirwedd yn dangos yn gyson y lefel uchel o harddwch naturiol sy'n ofynnol i'w chynnwys yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Felly nid yw'r ardal hon wedi'i chynnwys yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig.

**Rhannau uchaf Dyffryn Dyfrdwy gerllaw rhwng Llandrillo a Chynwyd**
Cyflwr tirwedd uchel: Cymeriad gwledig sy'n ddiamhariad ar y cyfan â gorchudd coed aeddfed helaeth sy'n integreiddio ffermydd gwasgaredig. Mae effeithiau gweledol lleol ger parc carafannau a mannau storio. Mae caeau'r dyffryn gorllewinol yn fwy ac yn llai strwythuredig, gan adlewyrchu cyfyngiadau gorlifdir.
Ansawdd golygfaol uchel: Argraff gref o ddyffryn coediog a grëwyd gan goed aeddfed a llwyni niferus, ar hyd ochr ddwyreiniol y dyffryn yn ymestyn i lethrau bryniau'r Berwyn. Mae ystumiau afon a phatrymau coed i'r de o Gynwyd yn nodedig o olygfaol, er bod llawr gorllewinol y dyffryn yn fwy agored ac yn llai strwythuredig yn weledol.
Llonyddwch uchel: Ymdeimlad o heddwch a nifer isel o ffyrdd ac aneddiadau, er bod rhai ffermydd a pharc carafannau yn parhau i fod yn rhannol weladwy.
Gwylltineb cymedrol: Mae'r ardal yn dirwedd ffermio iseldir ger aneddiadau a ffyrdd.
Treftadaeth naturiol uchel: Gwerth ecolegol sylweddol yn cynnwys SoDdGA Afon Dyfrdwy, coedwigoedd gwlyb, coed torlannol, a chynefin pwysig ar gyfer cylfinirod. Gorlifdir sy'n dominyddu llawr y dyffryn, gan ddylanwadu ar ddefnydd tir.
Cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden: Wedi'u cyfyngu gan lifogydd, ond mae ffyrdd a llwybrau troed presennol yn caniatáu mynediad. Mae gwelliannau posibl yn cynnwys llwybr beicio ar hyd y lôn orllewinol a llwybr "mynediad i bawb" ar y rheilffordd sydd wedi'i datgymalu rhwng Llandrillo a Chynwyd, gan gynnig buddion o ran llesiant cymunedol.

Yn seiliedig ar y gwerthusiad hwn, rydym yn ystyried bod y profion statudol yn cael eu bodloni o fewn rhannau helaeth o lawr y dyffryn, er bod natur agored llawr y dyffryn yn llai nodedig i'r gorllewin o'r afon a bod rhywfaint o drawsnewidiad o ran cryfder yr harddwch naturiol.

| |
|---|
| Ystyriaethau gosod ffiniau yma:<br>• Mae lleoliad ffin y Parc Cenedlaethol ar ei hyd wedi'i lywio gan unedau tirwedd ffisiograffig–topograffig y mae harddwch naturiol o arwyddocâd cenedlaethol wedi'i werthuso oddi mewn iddynt.<br>• Mae canllawiau gweithdrefnol GN010 yn cynghori y dylid llunio'r ffin yn 'geidwadol' mewn ardaloedd pontio, h.y. tuag at ardaloedd â mwy o harddwch naturiol.<br>• Dylid llunio'r ffin gan ddilyn nodweddion ffisegol ar lawr gwlad – ffyrdd, ffiniau caeau, cyrsiau dŵr fel opsiwn olaf o ystyried y gallant symud – a gellir dilyn llinellau syth rhwng pwyntiau cyfeirio parhaol o fewn cefn gwlad agored.<br><br>Nid yw cynnwys Dyffryn Dyfrdwy ac ochrau'r dyffryn i'r gorwel rhwng Llandrillo a Chynwyd yn bosibl.  Dim ond o fewn y Berwyn ac ochr ddwyreiniol llawr Dyffryn Dyfrdwy y mae harddwch naturiol o ansawdd a maint digonol wedi'i nodi. Mae hyn yn wahanol i'r rhan o'r dyffryn yn Llandderfel, lle mae harddwch naturiol i'w weld ar draws holl olygfa'r dyffryn.<br><br>Felly mae ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol wedi'i llunio yma i gynnwys y Berwyn ac i ddilyn ffin ffisegol (ffordd y B4401) yn 'geidwadol' tuag at ardaloedd â mwy o harddwch naturiol.<br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| |
|---|
| Mae rhif cyfeirnod yr ymatebydd eisoes wedi'i gofnodi uchod |
| Nid yw'n ymddangos bod y ffin sy'n ymwneud ag **afon Dyfrdwy a llawr y dyffryn** wedi cael sylw cyson ar draws y Parc Cenedlaethol arfaethedig.  Yn Nhirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy bresennol, mae'r cyfan wedi'i gynnwys, hyd yn oed lle mae nodweddion sy'n tynnu oddi ar brydferthwch yr ardal. Fodd bynnag, yn yr ardal i'r de o Gorwen, ymddengys fod dull gwahanol iawn wedi'i fabwysiadu a heb ei egluro mewn gwirionedd, ac eithrio i'r graddau ei fod wedi'i dynnu i eithrio nodweddion sy'n tynnu oddi ar brydferthwch yr ardal, gan arwain at eithrio'r rhan o amgylch Cynwyd a Llandrillo. Byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad ynghylch sut y mae afon Dyfrdwy a llawr ei dyffryn wedi'u gwerthuso er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y Parc Cenedlaethol arfaethedig. |
| **Ymateb CNC:**<br>Mae cynnwys tirweddau o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig yn seiliedig ar y ffaith bod ganddynt (yn bennaf) dystiolaeth gyson uchel o harddwch naturiol.<br><br>Y ddwy enghraifft a ddyfynnir yw afon Dyfrdwy, ond o fewn cyd-destunau gwahanol y dyffryn sydd â thystiolaeth wahanol o harddwch naturiol.  Mae'r rhan o afon Dyfrdwy o fewn Bro Llangollen wedi'i lleoli yng nghyd-destun lleoliad dyffryn cyflawn sy'n bodloni'r meini prawf harddwch naturiol yn gryf.  Felly roedd dynodiad yr AHNE / Tirwedd Genedlaethol yn ymestyn i olygfa'r dyffryn.<br><br>Mae rhannau uchaf afon Dyfrdwy wedi'u lleoli ar ymyl y Berwyn, a daethpwyd i gasgliad eu bod yn bodloni'r meini prawf o ran harddwch naturiol.  Nodir y gwerthusiad o lawr y dyffryn ac ochrau gorllewinol y dyffryn uchod.  Er y byddai'n rhesymegol cynnwys golygfa gyfan y dyffryn pan fo modd, dim ond pan fo'r gwerthusiad o harddwch naturiol yn cefnogi hyn y gellir gwneud hyn. |

| |
|---|
| ANON-XRE3-VJCD-9: ANON-XRE3-VJSH-W |
| Gadael Tirwedd Genedlaethol / AHNE Bryniau Clwyd fel y mae a chynnwys **Mynyddoedd y Berwyn ym Mharc Cenedlaethol Eryri**.<br>Peidio â chynnwys **Coedwig Dyfnant**, sy'n cynnwys coed conwydd yn unig ac nad yw'n ddeniadol, a'r dyffryn di-nod i'r de-orllewin. |
| **Ymateb CNC:**<br>Nid ystyrir newid ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri i gynnwys y Berwyn yma. |

| |
|---|
| Mae Coedwig Dyfnant wedi'i lleoli yng nghornel de-orllewinol ucheldiroedd y Berwyn ac mae'n rhan o'r dirwedd honno. Gwelir bod y goedwig yn gweddu'n dda yn y dirwedd ar hyd llawer o'i hymylon. Mae yna rannau golygfaol iawn, yn enwedig i'r dwyrain ac ar hyd coridor afon Efyrnwy. Mae'r rhyngweithio rhwng llawr y dyffryn agos a'r ochrau tonnog â chefndir o ucheldiroedd yn creu cyfansoddiad hynod olygfaol a nodedig o dirweddau cyferbyniol ag ymdeimlad cryf o le.<br><br>At ei gilydd, asesir bod y ddarpariaeth hamdden a'r cyfleoedd cysylltiedig i fwynhau'r dirwedd yn uchel. Mae'r rhain yn cynnwys mannau hamdden yn y coedwig, llwybrau a rhodfeydd wedi'u hyrwyddo ar gyfer marchogaeth a gyrru car a cheffyl, tir coedwig cyhoeddus lle mae mynediad agored, a cefn gwlad agored lle mae mynediad agored.<br><br>O ystyried y berthynas rhwng Coedwig Dyfnant ac ucheldiroedd y Berwyn (mae ei chymeriad yn effeithio ar y Berwyn), tystiolaeth o olygfeydd hynod olygfaol, a'r rhyngweithio rhwng y tirffurf ac ymylon y goedwig, a'r gwerth hamdden uchel, mae'r ardal wedi'i chynnwys yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Nid yw hyn yn annhebyg i ardaloedd coedwigaeth sydd wedi'u cynnwys ym Mharc Cenedlaethol Eryri.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| |
|---|
| ANON-XRE3-VJWS-C; ANON-XRE3-VJSS-8; ANON-XRE3-VJV6-E; ANON-P47N-6GWJ-7; 12901; 386; 1573 |
| **Dyffryn Tanat**<br>• Hoffwn i gynnwys Dyffryn Tanat.<br>• Pam mae hanner Dyffryn Tanat wedi cael ei hepgor?<br>• Pam mae'r ardal o amgylch Llanrhaeadr-ym-Mochnant wedi'i thynnu o ffiniau arfaethedig y parc? Ymddengys ei bod yn gymuned porth i ardaloedd y Berwyn, yn enwedig Pistyll Rhaeadr, a'r godreon sy'n arwain at Lanarmon Dyffryn Ceiriog.<br><br>Mae ardal gogledd Powys wedi'i hepgor o'r Parc Cenedlaethol arfaethedig ac mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer teithiau cerdded haws – ar gyfer teuluoedd, ar gyfer pobl sydd newydd ddechrau mwynhau cefn gwlad, ac i'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig. Bydd cyfyngu rhan ddeheuol y Parc Cenedlaethol i ardaloedd ucheldir yn bennaf yn cyfyngu ar ei apêl a'r math o gyfleoedd hamdden awyr agored y gall eu cynnig.<br><br>Nid yw hyn yn gyson â'r dull a gymerwyd yn rhan ogleddol y Parc Cenedlaethol arfaethedig, yn y Dirwedd Genedlaethol bresennol, lle mae ardaloedd sylweddol o'r dyffrynnoedd ac ochrau'r dyffrynnoedd wedi'u cynnwys ac sy'n cynnig rhai o'r cyfleoedd hamdden mwyaf poblogaidd.<br><br>Pam eithrio'r triongl o dir i'r gogledd-ddwyrain o **Lanrhaeadr-ym-Mochnant**, sy'n ffinio ag **afon Iwrch, Llanarmon Mynydd Mawr**, pen **gogleddol Llyn Moelfre, Efail-rhyd**, a **Phentrefelin**.<br><br>Nodweddion allweddol: Yn cynnwys Moel Lloran a'r llwyfandir sy'n amgáu pen gogleddol Llyn Moelfre (tua 300 metr o uchder), sydd â chymeriad ucheldir a chymeriad ucheldir rhyngbarthol.<br><br>Cymhariaeth: Mae'r dirwedd yn debyg i, ac yn ddadleuol yn fwy ucheldirol nag, ardaloedd cyfagos yng Nghwm Cynllaith a rhwng Moelfre a Llansilin, sydd wedi'u cynnwys o fewn y ffiniau arfaethedig.<br><br>Problemau yn ymwneud â'u hepgor: Yn creu ardal sydd wedi'i ffinio ar ddwy ochr gan y Parc Cenedlaethol, gan arwain at heriau rheoli a chynllunio ac ymyl sy'n ddiangen o hir. |

| |
|---|
| Cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden: Yn gymharol ag ardaloedd cyfagos o fewn y Parc Cenedlaethol. |
| **Ymateb CNC:**<br>Diwygiwyd y ffiniau ar ôl cael sylwadau a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ar yr ardal ymgeisiol yn 2024 gan Gyngor Sir Powys a'r cyngor cymuned. Arweiniodd adolygiad CNC o harddwch naturiol o fewn ardal Powys at newidiadau i'r ffiniau – mae'r rhain wedi'u nodi a'u hesbonio yn adroddiad asesiad terfynol CNC o ddynodiad y dirwedd (Medi 2025). Yn achos Ardal Werthuso 26 Dyffryn Tanat:<br>Nodweddion gorllewinol<br>Y dyffryn serth, siâp U i'r dwyrain o Ben-y-bont Fawr a chopaon a chymoedd dramatig yn torri i mewn i ucheldiroedd y Berwyn. Mae siâp y dyffryn yn denu'r llygad at orwel y Berwyn. Mae golygfeydd olynol sy'n esblygu a theimlad o fod wedi cyrraedd yn cael effaith fawr.<br><br>Nodweddion dwyreiniol<br>Mae bryniau crwn Mynydd-y-briw ac ymyl sgarp Craig Orllwyn a choetir lled-naturiol hynafol yn ffurfio bryniau tonnog deniadol a dyffrynnoedd diarffordd sydd â phresenoldeb gweledol cryf o ffordd y B4396 rhwng Pentrefelin a Llangedwyn. O fewn yr ardal hon saif Sycharth (cartref cyndeidiol Owain Glyndŵr). Mae'r ardal yn hynod o lonydd, ac mae golygfeydd deniadol tuag at odreon Mynyddoedd y Berwyn (Gryn Moelfre) o fewn Ardal Werthuso 24 i'r gogledd.<br><br>Llawr y dyffryn<br>Ardal o gymeriad ffermdir traddodiadol sefydlog, glaswelltiroedd wedi'u gwella, a gweithgarwch amaethyddol mwy dwys sydd â chyfleoedd hamdden cyfyngedig. Er bod y nodweddion yn gyfan ar y cyfan, mae ansawdd y golygfa, a'r ymdeimlad o le yn dod i raddau helaeth o lethrau'r bryniau a'r gorwelion cyfagos. Nid yw'r mynegiad o harddwch naturiol mor gryf ar hyd llawr y dyffryn.<br><br>Wrth gymhwyso'r ystyriaethau gosod ffiniau (canllawiau gweithdrefnol CNC GN010), lluniwyd ffin i ddilyn ffyrdd, lonydd a ffiniau caeau mewn lleoliad a oedd yn cynrychioli rhannu uchaf Dyffryn Tanat orau; dilyn yn fras doriad y llethr rhwng godreon y Berwyn ac iseldiroedd y dyffryn (cyn belled ag y mae nodweddion ffisegol yn caniatáu) tua'r dwyrain; ymestyn tua'r de i gynnwys Craig Orllwyn, yna dilyn ffordd y B4396 tua'r dwyrain i Ben-y-bont Llannerch Emrys, a ffin Cymru a Lloegr. Cafodd aneddiadau ar y ffin eu heithrio – sy'n dilyn canllawiau gweithdrefnol GN010 CNC.<br><br>Arweiniodd y dull uchod at driongl o dir i'r gogledd-ddwyrain o Lanrhaeadr-ym-Mochnant, y cyfeirir ato gan yr ymatebydd. Mae'r ffin hon yn gorwedd mewn ardal drawsnewid, h.y. nid yw'r ffin yn wahaniaeth clir rhwng ardaloedd o wahanol ansawdd (canllawiau gweithdrefnol CNC GN010, tudalen 27).<br><br>Pe bai'n cael ei sefydlu, byddai gan y Parc Cenedlaethol ddyletswydd statudol i ddatblygu cynllun rheoli. Byddai hyn yn cynnwys hamdden, rheoli mynediad, arwyddion a pharcio. Byddai aneddiadau sy'n ffurfio porth i'r Parc Cenedlaethol ond sydd ychydig y tu hwnt i'r ffin yn cael eu cynnwys yn yr ystyriaethau hyn ac yn cynnwys cymunedau lleol.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| |
|---|
| ANON-XRE3-VJEF-D |
| Mae'r ffiniau yn edrych yn briodol ond byddwn i'n awgrymu cynnwys **rhan hynaf Pen-y-bont-fawr** a thafarn y Railway Inn. |
| **Ymateb CNC:**<br>Diwygiwyd y ffin ar ôl cael sylwadau a gyflwynwyd i ymgynghoriad ar yr ardal ymgeisiol yn 2024 a chafodd ei thynnu'n agosach at y tirweddau mwyaf nodedig – yn yr achos hwn, mae ansawdd y |

| |
|---|
| golygfeydd yn arbennig o nodedig o fewn rhan ochr serth siâp U Dyffryn Tanat i'r dwyrain o Ben-y-bont-fawr. Mae confensiynau gosod ffiniau ar gyfer tirweddau dynodedig (canllawiau gweithdrefnol CNC GN010) yn eithrio aneddiadau sy'n gorwedd ar y ffin.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| ANON-XRE3-VJSH-W |
|---|
| Peidio â chynnwys y bloc di-nod o goedwigaeth i'r **de-orllewin o Lansilin** – nid yw'n dirwedd o ansawdd uchel o gwbl. |
| Ymateb CNC:<br>Mae yna ychydig o flociau bach o blanhigfeydd conwydd i'r de-orllewin o Lansilin. Mae'r rhan fwyaf yn cyd-fynd yn dda â'r tirffurf tonnog, y gorwelion, a phatrwm y caeau. Bydd achlysuron pan na fydd elfennau tirwedd yn ffitio cystal o fewn ardal sydd fel arall, ar y cyfan, yn bodloni'r meini prawf o ran harddwch naturiol.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| ANON-XRE3-VJN6-6 |
|---|
| Dylai unrhyw Barc Cenedlaethol eithrio unrhyw ran o **ward Llanfair Caereinion**. Nid yw'r cyngor eisiau gweld rhai o'i wardiau yn y Parc Cenedlaethol a hanner ddim. |
| **Ymateb CNC:**<br>Nid yw rhannu plwyfi, ynddo'i hun, yn rheswm dros gynnwys tir nad yw fel arall yn bodloni'r meini prawf (Adroddiad Arolygwyr Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol, Cyfrol 1, 2008, paragraff 81).<br><br>Byddai hyn hefyd yn berthnasol i wardiau o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig.<br>**Nid yw CNC yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau.** |

| ANON-XRE3-VJPH-T; ANON-XRE3-VJWE-X ; ANON-XRE3-VJNH-R; ANON-XRE3-VJ52-9; ANON-XRE3-VJSA-P; 1415; 1330; 1333; 1363; 1384; 1398; 1405; 1415; 1542 |
|---|
| Roeddwn i'n gobeithio y byddai **Llanfyllin** (Ardal Werthuso 30) yn rhan o'r Parc Cenedlaethol.<br>Dylai'r ffin ymestyn i gynnwys **Dyffryn Meifod** ac ardaloedd i'r gorllewin o ffordd yr A483.<br>Cynnwys **Dyffryn Meifod** (Ardal Werthuso 32), **Dolanog a Dyffryn Efyrnwy** (Ardal Werthuso 29). |
| **Ymateb CNC:**<br>Arweiniodd sylwadau a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ar yr ardal ymgeisiol yn 2024 at adolygu dyffrynnoedd tir ffermio isel a'r bryniau cyfagos ym Mhowys, y tu hwnt i'r Berwyn. Gan adeiladu ar werthusiad Gillespies yn 2024, gwelsom, er bod ardaloedd nodedig o harddwch naturiol o fewn ardaloedd gwerthuso 30, 32 a 29, eu bod yn gyfyngedig o ran maint ac yn wasgaredig. Roedd y patrwm dameidiog hwn yn ei gwneud yn anodd llunio ardaloedd a oedd yn bodloni'r meini prawf gyda'i gilydd, o fewn ardal gyfagos o dirwedd, i'w dynodi. Felly, tynnwyd ardaloedd gwerthuso 30, 32 a 29 o ffiniau arfaethedig y Parc Cenedlaethol yn 2025, ac eithrio rhan fach o Ardal Werthuso 29, sy'n cyfrannu at y Berwyn.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| Mae rhif cyfeirnod yr ymatebydd eisoes wedi'i gofnodi uchod |
|---|
| **Pont Llogel, Dolganog ac Allt Dolanog**<br>Nid ydym yn cytuno â'r ffaith bod yr ardal hon wedi'i heithrio.<br>Mae'r cyfleoedd hamdden awyr agored yma yn llawer gwell nag mewn ardaloedd cyfagos, ac yn cynnwys Llwybr Glyndŵr a Llwybr Ann Griffiths ac ardaloedd rhagorol ar gyfer cerdded ar hyd afon Efyrnwy.<br><br>Argymhelliad: |

| |
|---|
| Rydym yn argymell ymestyn ffin de-ddwyrain y Parc Cenedlaethol arfaethedig i gynnwys mwy o rannau uchaf dyffryn afon Efyrnwy a'r tir uchel cyfagos i fyny'r afon o Ddolanog. Byddai hyn yn cynnwys mwy o Lwybr Glyndŵr. |
| **Ymateb CNC:**<br>Fel y nodir yn ein sylwadau uchod, arweiniodd y patrwm dameidiog o harddwch naturiol ni i dynnu Ardal Werthuso 29 (y mae Dolanog a Dyffryn Efyrnwy wedi'u lleoli o fewn) o ffiniau arfaethedig y Parc Cenedlaethol yn 2025.<br>Yn ystod ymweliadau safle â Dyffryn Efyrnwy yn 2025, fe wnaethom asesu'r ardal fel un sy'n cynnwys tir ffermio gwledig llonydd a deniadol a dyffrynnoedd coediog. Roedd golygfeydd prydferth yn anaml i'w cael oherwydd effaith topograffeg a gorchudd coed, sydd yn ei dro yn cyfyngu ar yr ymdeimlad o le a hynodrwydd. Yn hyn o beth, rydym yn ystyried nad yw Dyffryn Efyrnwy yn cyflwyno tystiolaeth ddigon cryf o harddwch naturiol ar ei hyd i'w gynnwys.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| |
|---|
| ANON-XRE3-VJHV-Z; ANON-XRE3-VJYS-E |
| Rwy'n gefnogol iawn o Barc Cenedlaethol i ddiogelu nodweddion arbennig Cymru. Byddai **Parc Cenedlaethol yn y Canolbarth (e.e. Mynyddoedd Cambria)** yn fwy addas i sefydlu parth gwarchodedig (ynghyd ag Eryri a Bannau Brycheiniog) trwy galon Cymru. Bydd Parc Cenedlaethol Canolbarth Cymru yn rhoi cyfleoedd cyfartal i gymunedau y Canolbarth ar gyfer twristiaeth a thwf economaidd. Hoffwn weld mwy nag un opsiwn ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru. Mae'n debygol y bydd ail Barc Cenedlaethol yn y Gogledd yn gamgymeriad ac yn achosi pwysau ychwanegol mewn rhanbarth, o'i gymharu â Pharc Cenedlaethol yn y Canolbarth.<br>Dylid dynodi Mynyddoedd Cambria yn Barc Cenedlaethol. |
| **Ymateb CNC:**<br>Mae CNC yn asesu'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd, gan gymryd Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fel man cychwyn. Mae ffin ddeheuol y dynodiad hwnnw'n cynnwys ymyl ogleddol y Berwyn. Mae gan CNC ddigon o dystiolaeth i gefnogi cynnwys y Berwyn yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig.<br><br>Nid yw asesiad o Fynyddoedd Cambria o fewn cwmpas y prosiect hwn. |

| |
|---|
| 769; 770; 776; 783 |
| Ymestyn y ffin i gynnwys Cefn-y-bedd, Parc Gwledig Dyfroedd Alun ac Oak Alyn Court LL12 9YT. |
| **Ymateb CNC:**<br>Nid oedd ardal chwilio 2023 yn cynnwys Cefn-y-bedd a Pharc Gwledig Dyfroedd Alun, nac yn ymestyn i Sydallt a Windy Hill. Mae ymylon gogleddol pentrefi trefol Wrecsam yn dechrau dylanwadu ar ddyffrynnoedd a chribau ac ymylon cefn gwlad yr ardal hon. Mae'r rhwydwaith ffyrdd hefyd yn cario llawer o draffig, sy'n effeithio ar lonyddwch. Mae elfennau o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yma, ond nid i raddau digon helaeth i'w cynnwys o fewn Parc Cenedlaethol.<br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| |
|---|
| 1046 |
| Dylai gynnwys dalgylch cyfan afon Clwyd er mwyn amddiffyn afon Clwyd rhag llygredd ac ati a hwyluso a gwarchod bywyd gwyllt. |
| **Ymateb CNC:**<br>Mae'r Parc Cenedlaethol arfaethedig yn cwmpasu ardaloedd sydd wedi'u gwerthuso i gynnwys digon o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored fel ei bod yn ddymunol eu dynodi'n Barc Cenedlaethol. Er ein bod yn deall buddion mabwysiadu dull dalgylch i warchod a gwella byd natur, dŵr, a gwasanaethau ecosystemau ehangach, rydym yn gweithio o fewn y fframwaith statudol ar gyfer tirweddau dynodedig. |

| |
|---|
| **Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| 1274 |
|---|
| Bydd y siâp hir a thenau yn anymarferol i'w reoli ac yn drysu trigolion ac ymwelwyr. Awgrymaf gael gwared ar y rhan uchaf a chael y ffin ogleddol ar hyd ffordd yr A5104. |
| **Ymateb CNC:**<br>Mae'r AHNE (Tirwedd Genedlaethol) bresennol i'r gogledd o ffordd yr A5104 yn cynnwys Moel Famau, Loggerheads, a Bryniau Clwyd. Mae swyddogion AHNE wedi gwneud llawer o waith cadarnhaol yn yr ardal hon dros y 40 mlynedd diwethaf ac mae'r ardal yn adnabyddus iawn yn lleol a thu hwnt.<br><br>**Mae CNC yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i ffin y Parc Cenedlaethol.** |

| **3. Newidiadau i'r ffin i amddiffyn y dirwedd rhag datblygiadau** |
|---|
| Mae rhif cyfeirnod yr ymatebydd eisoes wedi'i gofnodi uchod |
| Cynnwys Mynydd Mynyllod i warchod yr ardal rhag fferm wynt Gaerwen. |
| **Ymateb CNC:**<br>Adroddiad Arolygwyr Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol, Cyfrol 2, 2008, paragraff 4.64<br>Nid yw tir wedi'i gynnwys mewn Parc Cenedlaethol dim ond i'w amddiffyn rhag datblygiad. Mae ei gynnwys, yn hytrach, yn dibynnu ar allu'r tir i fodloni'r meini prawf statudol. |

| 1445 |
|---|
| Ffurfiwyd Sir Drefaldwyn yn Erbyn Peilonau (tua 500 o aelodau) i wrthwynebu llinell peilon 400 kV y Grid Cenedlaethol a ffermydd gwynt ar raddfa ddiwydiannol yng Nghanolbarth Cymru. Dylid ailgynnwys yr ardaloedd sydd wedi'u heithrio (ardaloedd gwerthuso 29, 30, 32) yn y Parc Cenedlaethol i'w hamddiffyn rhag diwydiannu ar raddfa fawr (ffermydd gwynt a pheilonau).<br><br>Beirniadaeth o resymeg CNC:<br>• Roedd CNC wedi eithrio'r ardaloedd hyn, gan nodi prydferthwch golygfaol annigonol a chyfleoedd hamdden cyfyngedig.<br>• Mae ymatebwyr yn dadlau bod harddwch golygfaol yn oddrychol; canfu adroddiad Gillespies fod yr ardaloedd hyn yn brydferth.<br>• Ymddengys fod dull CNC yn ffafrio tirweddau garw, creigiog yn hytrach na bryniau coediog a thir ffermio.<br><br>Gwerth tirwedd:<br>• Mae bryniau serth, coediog, caeau gwyrddlas, afonydd, a ffermydd hanesyddol yn cael eu hystyried yn "hynod brydferth" gan ymatebwyr.<br><br>Cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden:<br>• Dylid mynd i'r afael â chyflwr gwael hawliau tramwy cyhoeddus drwy gyllid y Parc Cenedlaethol, nid eu defnyddio fel meini prawf ar gyfer peidio â chynnwys ardal.<br>• Awgrymu creu teithiau cerdded cylchol a llwybrau cysylltu, gan ategu Llwybr Glyndŵr.<br><br>Treftadaeth ddiwylliannol mewn perygl: |

- Mae Eglwys y Santes Fair a Sant Tysilio Meifod (rhestredig Gradd I, safle claddu aelodau teulu brenhinol Cymru) a Chastell Mathrafal / safle'r Eisteddfod dan fygythiad gan beilonau arfaethedig.
- Mae'r safleoedd hyn o bwys cenedlaethol yn haeddu gwarchodaeth Parc Cenedlaethol.

Pwyntiau ychwanegol:

- Mae llawer o safleoedd diwylliannol eraill yn ardaloedd gwerthuso 29, 30 a 32 yn cynnig gwerth hamdden a threftadaeth ond ni chawsant sylw yng nghynnig diwygiedig CNC.

**Ymateb CNC:**
Arweiniodd sylwadau a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ar yr ardal ymgeisiol yn 2024 at adolygu dyffrynnoedd tir ffermio isel a'r bryniau cyfagos ym Mhowys, y tu hwnt i'r Berwyn. Gan adeiladu ar werthusiad Gillespies yn 2024, gwelsom, er bod ardaloedd nodedig o harddwch naturiol o fewn ardaloedd gwerthuso 30, 32 a 29, eu bod yn gyfyngedig o ran maint ac yn wasgaredig. Roedd y patrwm dameidiog hwn yn ei gwneud yn anodd llunio ardaloedd a oedd yn bodloni'r meini prawf gyda'i gilydd, o fewn ardal gyfagos o dirwedd, i'w dynodi. Felly, tynnwyd ardaloedd gwerthuso 30, 32 a 29 o ffiniau arfaethedig y Parc Cenedlaethol yn 2025, ac eithrio rhan fach o Ardal Werthuso 29, sy'n cyfrannu at y Berwyn.

Adroddiad Arolygwyr Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol, Cyfrol 2, 2008, paragraff 4.64
Nid yw tir wedi'i gynnwys mewn Parc Cenedlaethol dim ond i'w amddiffyn rhag datblygiad. Mae ei gynnwys, yn hytrach, yn dibynnu ar allu'r tir i fodloni'r meini prawf statudol.

Mae CNC yn fodlon â'r broses a'r cyfiawnhad dros eithrio ardaloedd gwerthuso 30, 32 a 29.

**4. Sylwadau a wnaed mewn perthynas â mecanweithiau rheoli amgen**

Cymdeithas Tirweddau Cenedlaethol

- Yn ein barn ni, mae patrwm y dystiolaeth wedi'i gynnwys yn fwy naturiol a hyblyg o fewn dynodiad Tirwedd Genedlaethol estynedig, sydd wedi'i ystyried yn benodol fel rhwydwaith o dirweddau o harddwch naturiol uchel y mae unigolion yn byw ac yn gweithio ynddynt, nag o fewn un Parc Cenedlaethol â ddiffiniad dynn.
- Nid ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar wahanol fodelau dynodi.
- Nid yw CNC yn dangos yn argyhoeddiadol fod Parc Cenedlaethol yn "arbennig o ddymunol" o'i gymharu â Thirwedd Genedlaethol wedi'i hehangu.
- Dylai CNC archwilio'r achos dros Barc Cenedlaethol yn hytrach na Thirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi'i chryfhau a'i hehangu (gan gynnwys y Berwyn ac elfennau arfordirol allweddol).

**Ymateb CNC:**
Fel rhan o'n hasesiad, fe wnaethom ystyried a oes mecanweithiau rheoli amgen. Gwerthusodd adolygiad gan Land Use Consultants bum mecanwaith amgen yn yr adroddiad Grymoedd dros Newid. Dyma oedd fel a ganlyn: busnes fel arfer, partneriaethau tirwedd megis Parc Rhanbarthol y Cymoedd a Bwrdd Rhanbarthol De'r Penwynion, Tirwedd Genedlaethol gyda/heb fwrdd cadwraeth, a Pharc Cenedlaethol.

Daeth adroddiad Land Use Consultants i'r casgliad bod y mecanweithiau, y pwerau a'r dyletswyddau rheoli sy'n dod gyda Pharc Cenedlaethol statudol yn cynnig y mecanwaith mwyaf cadarn ar gyfer rheoli materion cyfredol a materion y dyfodol yn effeithiol yn y tymor hir yn ogystal â'r trefniadau presennol, trwy ddiogelwch cyllid hirdymor, swyddogaethau cynllunio, a'i gynllun rheoli.

**Dynodiad Parc Cenedlaethol yn hytrach na dynodiad Tirwedd Genedlaethol, a ‘dymunoldeb’ dynodi**

Wrth benderfynu a ddylid cynnig Parc Cenedlaethol neu Dirwedd Genedlaethol, mae CNC wedi cynnal prawf cymalog ac wedi ystyried a yw'r achos dros ddynodiad yn ‘ddymunol’ neu'n ‘arbennig o ddymunol’.

Mae'r prawf cymalog yn ymwneud â'r meini prawf dynodi statudol. Er mwyn i ardal gael ei hystyried yn Dirwedd Genedlaethol, mae’n rhaid meddu ar dystiolaeth bod gan yr ardal harddwch naturiol o arwyddocâd cenedlaethol. Er mwyn i ardal gael ei hystyried yn Barc Cenedlaethol, mae’n rhaid meddu ar dystiolaeth bod gan yr ardal harddwch naturiol o arwyddocâd cenedlaethol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Yn erbyn y prawf cymalog hwn, mae CNC yn fodlon bod yr ardal arfaethedig yn bodloni meini prawf statudol i’w dynodi’n Barc Cenedlaethol.

Wrth ystyried a yw’n ‘ddymunol’ neu’n ‘arbennig o ddymunol’ i’w dynodi, mae arwyddocâd harddwch naturiol yr ardal, ei rhinweddau arbennig, y grymoedd dros newid, anghenion cadwraeth a gwella’r ardal, a pha mor effeithiol yw’r mecanweithiau rheoli sydd ar gael i gyd yn berthnasol.

Fel yr amlinellwyd uchod, fe ddaeth adroddiad Land Use Consultants i’r casgliad mai Parc Cenedlaethol statudol oedd yn cynnig y mecanwaith mwyaf cadarn. Mae CNC yn ystyried ei bod yn ‘arbennig o ddymunol’ dynodi Parc Cenedlaethol.

I gloi, glynodd proses CNC wrth y weithdrefn statudol, gan ddilyn cyngor cyfreithiol. Mae hyn wedi golygu, lle bo'r profion statudol ar gyfer dynodi Parc Cenedlaethol yn cael eu bodloni, yna Parc Cenedlaethol yw'r dynodiad a ystyrir, a dim ond pe na bai'r prawf statudol ar gyfer Parc Cenedlaethol wedi'i fodloni y byddai dynodiad AHNE (Tirwedd Genedlaethol) yn cael ei ystyried.